Design & Consultancy for natural and built assets

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arfarniad cynaliadwyedd integredig o Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021

Mawrth 2021

Incorporating

EC HARRIS BUILT ASSET CONSULTANCY

Hyder

# RHEOLI FERSIYNAU

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Gwirydd | Newidiadau |
|---|---|---|---|---|
| 0.1 | Hydref 2020 | JE | ST/AP | Drafft cyntaf i'w adolygu gan LlC |
| 0.2 | Hydref 2020 | JE | ST | Fersiwn gymeradwy i'w chyfieithu |
| 0.3 | Chwefror 2021 | CW | ST | Diweddariad ar ôl ymgynghori |
| 0.4 | Mawrth 2021 | CW | ST/AP | Drafft terfynol i'w adolygu gan LlC |
| 0.5 | Mawrth 2021 | CW | ST | Terfynol |

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig Mawrth 2021 ar gyfer Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru (y "Cleient") yn unol â'r telerau ac amodau penodi, (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis (UK) Limited** ("Arcadis") at y dibenion a bennir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff unrhyw berson arall ddefnyddio na dibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath gan unrhyw drydydd parti arall.

# CYNNWYS

CRYNODEB ANNHECHNEGOL .......... i

1 CYFLWYNIAD .......... 1
1.1 Beth yw Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021? .......... 1
1.2 Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig? .......... 1
1.3 Diben yr Adroddiad ACI hwn .......... 3
1.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) .......... 6
1.5 Dulliau o Weithio .......... 7
1.6 Asesiadau o'r Effaith Ddeddfwriaethol .......... 9
1.7 Asesiadau Effaith Anneddfwriaethol .......... 14
1.8 Prosesau'r ACI a SDC .......... 16
1.9 Sut y cynhaliwyd yr ACI .......... 17

2 CAM CWMPASU'R ACI .......... 21
2.1 Y berthynas rhwng SDC a Chynlluniau a Rhaglenni eraill .......... 21
2.2 Amodau Sylfaenol a Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol .......... 23
2.3 Fframwaith yr ACI .......... 33
2.4 Opsiynau Amgen Rhesymol SDC (Tasg B.2) .......... 39
2.5 Fersiynau o'r ACI .......... 39

3 ASESIAD O'R SDC DERFYNOL (MAWRTH 2021) .......... 42
3.1 Crynodeb o Ganlyniadau Asesu'r SDC Derfynol .......... 42
3.2 Crynodeb o Asesiadau Effaith Deddfwriaethol .......... 44
3.3 Crynodeb o Asesiadau Effaith Anneddfwriaethol .......... 46
3.4 Asesiad o'r Effeithiau Cyfunol .......... 48
3.5 Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl 57
3.6 Monitro – Effeithiau sylweddol (Tasg B.6 a Cham E) .......... 60

4 CASGLIAD .......... 63

5 Y CAMAU NESAF .......... 64

# ATODIADAU

## ATODIAD A GEIRFA, CYNLLUNIAU, RHAGLENNI AC AMCANION DIOGELU

## AMGYLCHEDDOL A ADOLYGWYD

## ATODIAD B DATA LLINELL SYLFAEN A MATERION A CHYFLEOEDD ALLWEDDOL

## ATODIAD C COFNOD O YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

## ATODIAD D CANLYNIADAU ASESU YR YMGYNGHORIAD AR Y SDC DDRAFFT

## ATODIAD E CANLYNIADAU ASESU'R SDC DERFYNOL

# TALFYRIADAU

| | |
|---|---|
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| yACA | Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| ACI | Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| AGEHI | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |
| NTS | Crynodeb Annhechnegol |
| AGAp | Ardal Gwarchodaeth Arbennig Posibl |
| ACI | Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| AAS | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| WHIASU | Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru |
| MALIC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| SDC | Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021 |

# CRYNODEB ANNHECHNEGOL

## Diben y Crynodeb Annhechnegol

N.1. Mae’r ddogfen hon yn grynodeb mewn iaith annhechnegol o’r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) o ‘Llwybr Newydd – ‘Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021’ (SDC) Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adroddiad yr ACI.

## Beth yw ‘Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021’?

N.2. Dogfen statudol yw SDC sy’n ofynnol o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi SDC yn nodi ei pholisïau a sut y byddant yn cael eu cyflawni. Mae SDC yn nodi blaenoriaethau strategol a chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru; mae’n rhoi sylw i bob dull trafnidiaeth, gan gynnwys cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau trydan a’r car preifat.

N.3. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu’r SDC newydd er mwyn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth dros yr 20 mlynedd nesaf, gan gydnabod nifer o newidiadau diweddar a gyda’r nod o roi sylw i gyfleoedd a heriau’r dyfodol. Bydd SDC yn darparu’r fframwaith strategol y bydd angen gwneud penderfyniadau am opsiynau buddsoddi yn y dyfodol yn unol ag ef. Ni fydd yn nodi nac yn cyflwyno prosiectau, cynlluniau, mentrau nac ymyriadau penodol, gan y bydd y rhain yn cael eu nodi yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth manwl 5 mlynedd ac mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol.

## Beth yw’r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

N.4. Proses o arfarnu cynnwys SDC, fel y mae wedi’i hysgrifennu, yw’r ACI, yn erbyn cyfres o amcanion cynaliadwyedd er mwyn helpu i hybu datblygu cynaliadwy a phrofi SDC cyn iddi ddod i rym. Cynhaliwyd yr ACI trwy gydol y gwaith o baratoi SDC ac mae wedi gallu bwydo argymhellion yn ôl i wella perfformiad datblygu cynaliadwy cymharol SDC. Mae’r ACI yn cynnwys asesiadau sy’n ofynnol yn statudol a chan Lywodraeth Cymru ac mae’n bodloni gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol (AAS). Mae’r ACI yn lefel uchel ac yn ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol SDC. Diben hyn yw helpu i sicrhau bod defnyddiau tir yn y dyfodol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf yn gynaliadwy.

N.5. Un o’r ‘ffyrdd o weithio’ sy’n rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru yw’r angen i fabwysiadu dull integredig. Mae’r ACI, felly, yn cynnwys nifer o asesiadau statudol ac anstatudol eraill. Mae hyn yn caniatáu golwg fwy cyflawn gael ei chymryd ar y goblygiadau a’r cyfleoedd cynaliadwyedd sy’n deillio o SDC. Mae’r ACI yn integreiddio’r asesiadau a’r gofynion deddfwriaethol canlynol: Arfarniad Cynaliadwyedd; AAS; Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015); Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb; Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant; Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a’r Polisi Adnoddau Naturiol (Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Mae’r ACI hefyd yn cymryd i ystyriaeth ofynion anneddfwriaethol asesiadau yn ymwneud â Phrawfesur Gwledig; Effeithiau Iechyd; Newid Hinsawdd; a Datblygiad Economaidd. Mae integreiddio’r asesiadau hyn yn sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei fabwysiadu ar wahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydnabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn ffordd gyson a thryloyw.

## Prosesau’r ACI a SDC hyd yn hyn

N.6. Dechreuodd y gwaith o baratoi SDC gyda phroses o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ddechrau 2020. Ymgynghorwyd ar fersiwn ddrafft o Adroddiad Cwmpasu’r ACI rhwng 05 Mai a 31 Gorffennaf 2020. Hefyd, cynhaliwyd gweithdy ddechrau mis Mai gyda rhanddeiliaid sy’n cynrychioli’r ystod o brosesau asesu i’w hintegreiddio i’r ACI. Cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu’r ACI i randdeiliaid statudol ar gyfer sylwadau, yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol neu â buddiant eraill.

N.7. Ym mis Medi 2020, aseswyd fersiwn gynnar o SDC yn yr ACI. Bwydwyd canlyniadau’r broses hon yn ôl i dîm SDC er mwyn helpu i hysbysu eu proses o wneud penderfyniadau ac i sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn cael eu hintegreiddio i SDC o’r cychwyn.

N.8. Ym mis Hydref 2020, paratowyd drafft diwygiedig o SDC ac fe'i harfarnwyd yn Adroddiad Interim yr ACI. Roedd y fersiwn o SDC a aseswyd yn Adroddiad Interim yr ACI yn fersiwn gynharach o'r un a gyhoeddwyd yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Cyhoeddwyd SDC ac Adroddiad Interim yr ACI ar gyfer ymgynghori rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021.

N.9. Mae'r Adroddiad ACI hwn (Mawrth 2021) yn cynnwys canfyddiadau asesiad a ddiweddarwyd o'r SDC Drafft Ymgynghori. Gwnaed diwygiadau pellach i SDC wedyn yn dilyn y cyfnod ymgynghori, gan arwain at fersiwn derfynol SDC. Mae'r Adroddiad ACI hwn hefyd yn cynnwys asesiad o'r SDC derfynol felly, yn ogystal ag ymgorffori sylwadau a wnaed ar yr ACI ei hun yn ystod yr ymgynghoriad.

### Sut y cynhaliwyd yr ACI

N.10. Ysgogwyd cwmpas daearyddol yr ACI gan gwmpas daearyddol SDC, h.y. Cymru gyfan. Bwriedir i SDC fod yn weithredol am 20 mlynedd ar ôl ei mabwysiadu. Adlewyrchwyd yr amserlen hon yn yr ACI. Bwriad yr ACI fu galluogi egwyddorion datblygu cynaliadwy i gael eu hymwreiddio mewn SDC o'r cychwyn.

### Fframwaith yr ACI

N.11. Un o allbynnau allweddol Cam Cwmpasu'r ACI oedd Fframwaith yr ACI. Fframwaith yr ACI yw'r prif ddull asesu a ddefnyddiwyd yn ystod yr ACI ac mae'n cynnwys cyfres o 13 o Amcanion ACI yn cynnwys materion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a nodwyd yn ystod Cam Cwmpasu'r ACI. Rhestrir y rhain yn Nhabl NTS-1. Profwyd perfformiad SDC trwy arfarnu pob elfen o SDC ar gyfer ei heffeithiau tebygol ar bob Amcan ACI.

N.12. Mae Fframwaith yr ACI yn galluogi dull integredig o asesu effeithiau SDC trwy ddod â'r gwahanol asesiadau o effaith a restrir ym mharagraff N.5 yn un fframwaith arfarnu unigol.

*Tabl NTS-1: Amcanion yr ACI yn Fframwaith yr ACI, yr arfernir SDC yn eu herbyn*

| Rhif | Amcan yr ACI |
|---|---|
| 1 | Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol pawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru |
| 2 | Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb |
| 3 | Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth |
| 4 | Diogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden |
| 5 | Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg |
| 6 | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth |
| 7 | Galluogi cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd |
| 8 | Diogelu a gwella ansawdd aer |
| 9 | Diogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau a'n trefluniau |
| 10 | Hybu camau i warchod a gwella asedau treftadaeth |
| 11 | Hybu camau i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth |
| 12 | Sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol |
| 13 | Galluogi camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau |

### Arfarniad o SDC

N.13. Mae SDC (Mawrth 2021) wedi'i strwythuro yn y ffordd ganlynol:

- 1. Gweledigaeth
  - *Yn nodi beth yw SDC, sut y mae'n cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru a strwythur system gynllunio Cymru.*
- 2. Ein blaenoriaethau

    - *Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio*
    - *Blaenoriaeth 2: Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws trwy drafnidiaeth gynaliadwy*
    - *Blaenoriaeth 3: Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy*
- 3. Uchelgeisiau llesiant
    - *Yn dda ar gyfer pobl a chymunedau*
    - *Yn dda ar gyfer yr amgylchedd*
    - *Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru*
    - *Yn dda ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg*
- 4. Sut y byddwn yn cyflawni;
- 5. Dwyn ein hunain a'n partneriaid i gyfrif
- 6. Y pum dull o weithio
- 7. Cynlluniau Bach
    - *Teithio Llesol*
    - *Bysiau*
    - *Trenau*
    - *Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio*
    - *Y Trydydd Sector*
    - *Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat*
    - *Cludo Nwyddau a Logisteg*
    - *Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol*
    - *Hedfanaeth*

N.14. Mae'r arfarniad yn yr ACI wedi canolbwyntio ar Benodau 1 (Gweledigaeth), 2 (Blaenoriaethau), 3 (Uchelgeisiau Llesiant), a 7 (Cynlluniau Cryno). Paratowyd Symudedd yng Nghymru fel adroddiad cefndirol i SDC. Adolygwyd y ddogfen hon ac mae'n darparu gwybodaeth ategol a ddefnyddiwyd yn yr arfarniad o SDC.

## Canlyniadau asesu

N.15. Mae adroddiad yr ACI a'i atodiadau yn cyflwyno'r canlyniadau asesu llawn a manwl ar gyfer SDC. Darperir crynodeb o'r canlyniadau hyn yn Nhabl NTS-2.

*Tabl NTS-2: Crynodeb o'r effeithiau a nodwyd yn ystod yr ACI o SDC*

| **Crynodeb o'r effeithiau ar gyfer pob Amcan yn yr ACI** |
|---|
| 1. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol pawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru |
| Byddai SDC yn helpu i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o bobl, yn enwedig o ganlyniad i'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Bysiau a Rheilffyrdd. Byddai gwell mynediad at opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uwch sy'n cludo pobl i'r lleoedd y maen nhw angen mynd iddynt, a phryd y maen nhw angen cyrraedd yno, yn helpu i sicrhau y gall mwy o bobl gael mynediad gwell at gyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol, cyfleoedd ymarfer corff a hamdden yn ogystal ag amrywiaeth eang o gynefinoedd lled-naturiol. Mae trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r perygl o ynysigrwydd cymdeithasol trwy gynnig dull o ryngweithio cymunedol anffurfiol â chymdogion lleol. Nid yw rhyngweithio cymdeithasol yn bosibl pan fo pobl yn ddibynnol ar geir ar gyfer y rhan fwyaf o'u teithiau. Gall ffyrdd, a ffyrdd prysur yn benodol, hefyd arwain at rannu cymunedau o bobtu'r ffordd.<br>Nod SDC yw sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynyddol hygyrch trwy sicrhau bod seilwaith trafnidiaeth wedi'i leoli yn agos at gartrefi a bod datblygiadau yn hygyrch trwy gerdded a beicio. Caiff hyn ei atgyfnerthu trwy gydol yr Uchelgeisiau yn SDC yn ogystal â'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector. Mae'n debygol felly y gall yr holl bobl leol gael mynediad at gyfleusterau cymunedol newydd, mannau hamdden yn ogystal â chyfleusterau iechyd newydd a mannau agored, yn effeithlon ac yn gynaliadwy.<br>Gallai'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynllun Cryno ar Deithio Llesol hwyluso cyfraddau sylweddol uwch o gerdded a beicio i bobl yng Nghymru, sydd wedi bod yn ddisymud yn y blynyddoedd diwethaf. Cerdded a beicio yw'r dulliau mwyaf cynaliadwy o deithio ond maent hefyd yn cynnig manteision iechyd sylweddol, er enghraifft oherwydd ymarfer corff a'r rhyngweithio cymunedol cynyddol. Gallai gwelliannau i gysylltiadau teithio llesol fod yn arbennig o fuddiol i grwpiau penodol o gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, y rhai nad oes ganddynt fynediad at gar, a phlant sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.<br>Byddai SDC yn sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd strategol yn cael ei gynnal, yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol y Llywodraeth. Ei nod fyddai sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau newydd yn agos, neu mewn lleoliadau hygyrch, ar gyfer pobl sydd angen eu defnyddio (gweler Blaenoriaeth 1). Byddai hyn yn galluogi amseroedd teithiau mwy effeithlon a chyflymach i bobl, gan roi mwy o amser rhydd iddynt y tu allan i deithio neu gymudo, i ddilyn eu diddordebau personol eu hunain. Gallai hyn fod o fudd mawr i iechyd a llesiant pobl.<br>Mae llygredd aer yn aruthrol o niweidiol i iechyd pobl, a chredir fod deunydd gronynnol a llygredd nitrogen deuocsid yn gysylltiedig â thua 2,700 o farwolaethau yng Nghymru bob blwyddyn[1]. Y sector trafnidiaeth sy'n gyfrifol am gyfran fawr o'r mathau hyn o lygredd. Byddai SDC yn annog ac yn hwyluso cyfraddau uwch o deithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a fyddai'n debygol o leihau nifer y cerbydau llygredd uchel ar y ffordd a thrwy wneud hynny, byddai'n helpu i leihau cyfradd y marwolaethau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â llygredd aer.<br>O'u cyfuno, byddai'r gwelliannau i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, ynghyd â rhoi gwasanaethau mewn lleoliadau hygyrch ac ansawdd aer gwell, yn gwneud cyfraniad sylweddol at greu effaith synergyddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac yn helpu i sicrhau bod y system drafnidiaeth yn hwyluso gwelliannau i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl.<br>Yn sgil gwelliannau i dechnoleg ddigidol, mae mwy o bobl yn gweithio gartref yn rheolaidd. Mae pandemig COVID-19 a chyfyngiadau symud cysylltiedig wedi cynyddu'n sylweddol nifer y bobl sy'n gweithio gartref ac, i lawer o bobl, efallai y bydd hyn yn dod yn arferol o 2021 ymlaen. Mae SDC yn cydnabod bod angen gwelliannau i seilwaith digidol er mwyn hwyluso hyn. Mae'r daith yn ôl ac ymlaen i'r gwaith yn gyfle allweddol i ymarfer corff trwy gerdded a beicio, a chan fod pobl yn cymudo llai, mae SDC yn cydnabod y bydd yn gynyddol bwysig sicrhau bod y mannau eraill y mae pobl angen mynd iddynt (e.e. siopau, gwasanaethau, amwynderau, mannau diwylliannol) yn hygyrch trwy gerdded a beicio. Dylid nodi, er bod gweithio gartref yn cynnig cyfleoedd sylweddol o ran lleihau'r angen i bobl deithio a lleihau nifer y ceir ar y ffyrdd, y gall fod yn berygl i lesiant meddyliol pobl gan eu bod yn methu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol yn ogystal â chyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol ac yn gymunedol. |
| 2. Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb |
| Byddai Uchelgeisiau a Blaenoriaethau SDC, yn ogystal â'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector, yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd trwy ddatblygu system sy'n hygyrch i holl aelodau cymdeithas, ac yn cael ei defnyddio ganddynt, a'i nod fydd cymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd defnyddwyr o wahanol gefndiroedd, rhyweddau, oedran ac anabledd. Byddai gwneud hynny yn gwella cyfle cyfartal o ran mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a chyfleusterau hamdden ac addysg. Mae SDC hefyd yn cyfeirio at y 'llwybr cydraddoldeb' sy'n ceisio sicrhau bod cydraddoldeb wedi ei integreiddio i gynllunio |

[1] Iechyd Cyhoeddus Cymru. *Estimating the mortality burden of air pollution in Wales*. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/opendoc/317890 [Gwelwyd: 12.02.21]

| Crynodeb o'r effeithiau ar gyfer pob Amcan yn yr ACI |
|---|
| trafnidiaeth ar y lefel uchaf yn hytrach na chael ei ystyried yn fater ar wahân. Bydd hyn yn helpu i ymwreiddio'r mater o gydraddoldeb yn natblygiad cynlluniau a pholisïau trafnidiaeth yn y dyfodol.<br>Byddai defnyddio dulliau digidol arloesol, yn unol â'r Blaenoriaethau, yr Uchelgeisiau a'r Cynllun Cryno ar gyfer Rheilffyrdd, a sicrhau bod safbwyntiau defnyddwyr y system drafnidiaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth, yn helpu i sicrhau bod anghenion amrywiol poblogaeth gynyddol Cymru yn cael eu diwallu. Byddai trafnidiaeth gyhoeddus sy'n gallu cael ei defnyddio gan bawb beth bynnag fo'u cefndir, ac sy'n cael ei defnyddio ganddynt, yn helpu i wella cydlyniant cymdeithasol.<br>Mae SDC yn cydnabod y rhwystr y gall iaith ei greu, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg (gweler yr Uchelgais 'O Ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg'), ac mae'n debygol y bydd y rhwystrau hyn yn cael eu herydu yn gynyddol o ganlyniad i SDC ac y byddai defnyddwyr tair iaith swyddogol Cymru (Cymraeg, Iaith Arwyddion Prydain a Saesneg) yn gallu gwneud defnydd cyfartal o'r system drafnidiaeth (gan gynnwys teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith ffyrdd) i'r un graddau.<br>Mae mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau teithio llesol yn arbennig o gyfyngedig mewn cymunedau gwledig. Er y gallai fod mynediad da at lwybrau troed cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, mae'r rhain yn annhebygol o fod yn opsiynau ymarferol ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i wasanaethau a chyfleusterau. Mae SDC yn cydnabod bod ffyrdd a gyrru yn hanfodol i gymunedau gwledig a byddai'n bwriadu cynnal a gwella'r rhwydwaith ffyrdd i gynnal cysylltedd cymunedau gwledig a mynd i'r afael â'r ynysigrwydd cymdeithasol a all fod yn gyffredin yma. Mae SDC hefyd yn cyfeirio at y 'llwybr gwledig', sydd â'r nod o fonitro cynnydd o ran yr ymrwymiadau gwledig yn Llwybr Newydd, i helpu i sicrhau bod cymunedau gwledig hefyd yn elwa o welliannau i drafnidiaeth.<br>Mae SDC yn cydnabod pwysigrwydd gwella diogelwch y system drafnidiaeth i'r holl ddefnyddwyr, a sicrhau ei bod yn croesawu pawb. Byddai'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar Fysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector yn arbennig o fuddiol i aelodau cymdeithas a allai deimlo'n llai diogel, neu aelodau agored i niwed mewn cymdeithas sy'n llai diogel yn ystadegol, wrth ddefnyddio cysylltiadau teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus. |
| 3. Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth |
| Byddai SDC yn cael effaith gadarnhaol gyfunol ar ddatblygiad ac economi Cymru. Byddai gwell cysylltiadau teithio llesol ac opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus, a fyddai'n cael eu gwneud yn gynyddol hygyrch i bawb a phob cymuned, yn helpu i sicrhau mynediad mwy teg at gyfleoedd addysg a chyflogaeth, yn enwedig oherwydd Blaenoriaeth 1 a'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Bysiau, Rheilffyrdd, Ffyrdd, y Trydydd Sector a Thacsis a Cherbydau Hurio Preifat.<br>Gan y byddai pobl yn gallu teithio'n fwy effeithlon ac yn fwy rhydd, gallai fod cynnydd i nifer yr ymwelwyr ag ardaloedd economaidd pwysig, a fyddai'n rhoi hwb i'r economïau lleol. Byddai hyn yn arbennig o wir lle caiff cysylltiadau teithio eu gwella gan y byddai cyfraddau uwch o gerdded a beicio. Byddai hyn yn rhoi mynediad i fusnesau at gronfa ehangach o ddarpar gyflogeion.<br>Gallai SDC helpu i amrywio'r farchnad gyflogeion a lleihau anghydraddoldeb o ran cyflogaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol trwy hyrwyddo gweithio gartref, yn enwedig oherwydd Blaenoriaeth 1.<br>Mae'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn mynd law yn llaw ag economi gryfach, oherwydd gwariant ar y gwasanaeth trafnidiaeth ei hun ac ar wasanaethau atodol (fel siopau bwyd a diod) yn yr ardal. Trwy annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus felly, gallai SDC arwain at dwf economaidd.<br>Byddai gwella rhwyddineb mynediad at ganol trefi a'r stryd fawr, yn ogystal â digwyddiadau diwylliannol mawr ac asedau hanesyddol ac amgylcheddol (yn unol â Blaenoriaethau 2 a 3 a'r Cynlluniau Cryno ar Fysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector), hefyd yn helpu i ysgogi'r economi.<br>Gallai SDC gael effaith gadarnhaol ar economi Cymru trwy annog datblygiad 'canolfannau amlfodd' newydd i symud nwyddau yn fwy cynaliadwy ledled Cymru.<br>Byddai amseroedd teithiau mwy effeithlon, trwy lwybrau mwy croesawgar a diogel, yn unol â Blaenoriaethau 2 a 3 a'r Cynlluniau Cryno ar Fysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector, yn gwella profiad y cwsmer wrth deithio ac yn golygu, i'r rhai sy'n cymudo yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, eu bod yn cyrraedd y gwaith dan lai o straen ac yn gallu gweithio'n fwy cynhyrchiol, gan fod o fantais i economi Cymru drwy hynny.<br>Byddai amseroedd teithiau mwy effeithlon hefyd o fudd sylweddol i symudiad nwyddau a gwasanaethau ledled Cymru, yn enwedig i gysylltiadau busnes i fusnes a symud nwyddau. Byddai hyn yn cael ei wneud trwy leihau nifer y ceir ar y ffyrdd, darparu rhwydwaith ffyrdd wedi'i gynnal a'i gadw yn dda, llwybrau mwy diogel, a thrwy fanteisio ar ddulliau technolegol arloesol yn y sector cludo nwyddau a logisteg yn unol â'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Ffyrdd, Cludo Nwyddau a Logisteg, Hedfanaeth a Phorthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol.<br>Byddai Cymru fwy cysylltiedig sydd â llwybrau mwy effeithlon, mwy deniadol a mwy diogel, (o ganlyniad, er enghraifft, i'r Uchelgeisiau, Blaenoriaethau 2 a 3 yn ogystal â'r Cynlluniau Cryno wedi'u cyfuno) o fudd sylweddol i'r sector twristiaeth, gan alluogi pobl i symud yn ddiogel ac yn effeithlon ar draws Cymru o dramor, neu i deithio drwy Gymru gyfan. Gallai gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol yng Nghymru hefyd gynyddu pa mor ddeniadol yw'r sector twristiaeth gweithgareddau, fel heicio neu feicio mynydd.<br>Bydd newid hinsawdd yn cael effaith ar yr economi dros gyfnod 20 mlynedd SDC. Yn unol â Blaenoriaeth 2 a'r Cynllun Cryno ar Ffyrdd, nod SDC yw sicrhau bod y system drafnidiaeth yn barod ar gyfer y dyfodol ac yn wydn i effeithiau perygl llifogydd, digwyddiadau tywydd eithafol neu erydu arfordirol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod manteision economaidd SDC yn gynaliadwy ac yn gydnerth. |

| Crynodeb o'r effeithiau ar gyfer pob Amcan yn yr ACI |
|---|
| 4. Diogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden |
| Mae SDC yn hyrwyddo ac yn ceisio darparu mynediad mwy cynaliadwy, cydnerth a theg i bawb at fannau diwylliannol a hamdden, yn enwedig oherwydd effeithiau cyfunol yr Uchelgeisiau, Blaenoriaeth 3 a 5 a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector.<br>Byddai mynediad mwy effeithlon a chynaliadwy at y mannau hyn, gan gynnwys i bobl leol a thwristiaid, yn gwella hyfywedd a bywiogrwydd economaidd i ganiatáu manteision parhaus i bobl leol dros gyfnod SDC.<br>Mae SDC yn cydnabod y straen y gall digwyddiadau diwylliannol a thwristiaeth graddfa fawr, fel digwyddiadau chwaraeon mawr, ei rhoi ar y system drafnidiaeth. Trwy'r Uchelgais 'O ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg' a'r Cynllun Cryno ar Fysiau, mae SDC yn ceisio sicrhau y gall y digwyddiadau hyn barhau i gael eu cynnal ac felly parhau i gael effaith gadarnhaol iawn ar economi, cymdeithas a diwylliant Cymru.<br>Mae'n debygol, mewn rhai ardaloedd, y gallai'r gwelliannau i gysylltiadau teithio llesol diogel a deniadol wella amgylchedd neu gymeriad yr ardal leol. O'u cyfuno â gostyngiad i nifer y cerbydau ar y ffyrdd, a all gael effaith niweidiol ar lonyddwch mannau hamdden neu ddiwylliannol oherwydd llygredd sŵn, aer a golau, byddai gwelliannau yn helpu i wella ansawdd a natur ddeniadol mannau diwylliannol a hamdden. |
| 5. Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg |
| Mae Uchelgeisiau SDC, yn ogystal â'r Cynlluniau Cryno, yn ceisio sicrhau bod y system drafnidiaeth yn annog defnydd rheolaidd o'r Gymraeg yn rhan o system sy'n hygyrch i bawb. Byddai sicrhau bod pob math o drafnidiaeth yn darparu gwybodaeth yn y Gymraeg yn helpu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r gwasanaethau trafnidiaeth.<br>Byddai gwella cysylltiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru yn debygol o arwain at fynediad mwy teg at gyfleoedd addysg i bobl beth bynnag fo'u cefndir. Byddai gwneud hynny yn hwyluso mynediad mwy teg at gyfleoedd dysgu Cymraeg, naill ai yn rhan o'u dysgu yn yr ysgol neu gan fod yr ysgol yn gyfleuster cyfrwng Cymraeg.<br>Ar y cyfan, mae'n debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r polisïau yn SDC yn arwain yn gyfunol at fân effeithiau cadarnhaol hirdymor (nid sylweddol), gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn annog defnydd o'r Gymraeg) ac yn anuniongyrchol (e.e. trwy ehangu hygyrchedd ysgolion cyfrwng Cymraeg), ar y Gymraeg. |
| 6. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth |
| Mae'n debygol y byddai cynigion yn SDC mewn cyfuniad yn arwain at ostyngiadau i'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â sector trafnidiaeth Cymru. Byddai hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf o ganlyniad i annog a hwyluso cyfraddau uwch o gerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at ostyngiadau dilynol i nifer y ceir ar y ffyrdd, yn unol â'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Teithio Llesol, Bysiau a Ffyrdd.<br>Byddai manteisio ar ddulliau technolegol arloesol a sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau yn agos at y lleoedd y mae pobl yn byw ynddynt, yn unol â'r Uchelgeisiau, Blaenoriaeth 1 a'r Cynllun Cryno ar gyfer Rheilffyrdd, yn lleihau ymhellach yr angen i bobl deithio ac yn caniatáu iddynt deithio'n fwy effeithlon pan fyddant yn gwneud hynny. Gallai teithiau mwy effeithlon ar gyfer symud nwyddau helpu i leihau ôl troed carbon sector cludo nwyddau Cymru.<br>Byddai SDC yn sicrhau y byddai bod yn berchen ar gerbyd trydan neu gerbyd glanach yn opsiwn mwy ymarferol yn hytrach na cherbyd sy'n cael ei bweru gan betrol neu ddiesel trwy gefnogi technolegau fel trydaneiddio a hydrogen fel tanwydd, yn ogystal â gosod mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan, a fyddai'n cyfrannu at leihau allyriadau. Mae SDC hefyd yn hyrwyddo trydaneiddio trafnidiaeth gyhoeddus. Byddai hyn yn cael ei gyflawni yn bennaf trwy gyfuniad o'r Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau, Rheilffyrdd a Thacsis a Cherbydau Hurio Preifat.<br>Fodd bynnag, er y byddai SDC yn debygol o hwyluso gostyngiadau sylweddol i allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â symudiadau ar y rhwydwaith ffyrdd, ceir perygl y byddai hyn yn cael ei danseilio i ryw raddau gan y diwydiant hedfanaeth, a hefyd oherwydd y nifer o bobl sy'n byw yn y Gymru fwy gwledig y mae cyfleoedd teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus yn annhebygol o wella'n sylweddol ar eu cyfer.<br>Mae SDC wedi ymrwymo i gynnal sector hedfanaeth iach yng Nghymru ar gyfer ei fanteision economaidd sylweddol. Mae'r Cynllun Cryno ar gyfer Hedfanaeth yn ceisio sicrhau, er enghraifft, bod Maes Awyr Caerdydd yn cyflwyno strategaeth ddatgarboneiddio gadarn. Fodd bynnag, byddai'r mesurau a ddisgrifir yn SDC a'r Cynllun Cryno ar gyfer Hedfanaeth yn annhebygol o fantoli'r allyriadau sy'n gysylltiedig â hedfanaeth mewn gwirionedd. Mae ceir a cherbydau nwyddau trwm yn ffynhonnell llawer mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru na hedfanaeth ar hyn o bryd, ac felly ni fyddai'r ymrwymiad i sector hedfanaeth iach yn arwain at effaith niweidiol gyffredinol ar Amcan hwn yr ACI, ond byddai'n debygol o atal gostyngiad sylweddol cyffredinol i allyriadau nwyon tŷ gwydr, neu o leiaf yn gwneud hynny'n fwy anodd.<br>Mae ychydig dros un rhan o dair o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig ac er mwyn iddynt gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol mae angen iddynt deithio pellteroedd mwy na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Byddai SDC yn annhebygol o ddatrys y broblem hon. Er y byddai rhai gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd |

| Crynodeb o'r effeithiau ar gyfer pob Amcan yn yr ACI |
| --- |
| gan alluogi teithiau mwy effeithlon, mwy o gefnogaeth i gerbydau trydan, a gwelliannau i wasanaethau trafnidiaeth gymunedol sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig, byddai'n annhebygol o alluogi pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig i deithio mor effeithlon ac mor gynaliadwy â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol, neu i fanteisio i'r eithaf ar gerbydau gydag allyriadau isel fel y rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Nid yw'n eglur i ba raddau y byddai'r allyriadau sy'n gysylltiedig â symudiadau trafnidiaeth pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael eu lleihau yn weladwy o ganlyniad i SDC.<br>Dylid ystyried unrhyw ostyngiad i allyriadau nwyon tŷ gwydr yng nghyd-destun cyllidebau carbon Cymru, sy'n ceisio sicrhau allyriadau carbon sero-net erbyn y flwyddyn 2050. Bydd SDC ar waith am 20 mlynedd, ac felly byddai angen iddi helpu i sicrhau bod y cyllidebau carbon hyn yn cael eu bodloni. Mae'n annhebygol bod 'sector hedfanaeth iach', neu barhad o'r sefyllfa lle nad yw tua un rhan o dair o boblogaeth Cymru yn gallu dibynnu ar deithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus, wir yn cydymffurfio â'r cyllidebau carbon hyn, nac yn cyfrannu at eu bodloni'n llwyddiannus.<br>Er y byddai'r cynigion yn SDC yn debygol o arwain at ostyngiad net i allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n hynod gadarnhaol, mae'n ansicr i ba raddau y byddai hyn yn cael ei danseilio gan sector hedfanaeth iach a dibyniaeth barhaus y boblogaeth wledig ar ddefnyddio ceir personol. Mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai'r mesurau yn SDC yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar y cyflymder sy'n ofynnol i'r sector trafnidiaeth gydymffurfio â chyllidebau carbon Cymru a'r argyfwng hinsawdd, er y gallai'r mesurau hyn fod yn fwy amlwg yn y cynlluniau cyflawni a ddatblygir o ganlyniad i SDC. |
| 7. Galluogi cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd |
| Nod SDC yw diogelu seilwaith presennol ar gyfer y dyfodol, a fydd yn helpu i wneud y system drafnidiaeth yn fwy cydnerth i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig o ganlyniad i'r Uchelgeisiau a'r Cynlluniau Cryno. Byddai Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector yn arwain at wella trafnidiaeth gyhoeddus o ran ei hyblygrwydd a'i gweithdrefnau brys i amddiffyn rhag llifogydd a digwyddiadau annisgwyl eraill.<br>Gallai cysylltiadau cerdded a beicio newydd a gwell, a hyrwyddir drwy'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynllun Cryno ar gyfer Teithio Llesol, arwain at gynnydd i'r gorchudd seilwaith gwyrdd ar hyd y llwybrau hyn, sy'n helpu i reoli dŵr wyneb ffo ac i liniaru perygl llifogydd. Nid yw SDC yn ceisio diogelu bioamrywiaeth ac ecosystemau a all fod yn nodweddion allweddol o ran galluogi cydnerthedd yn erbyn newid yn yr hinsawdd, fel storio carbon, gan helpu i liniaru perygl llifogydd a lleihau erydiad pridd.<br>Trwy greu system drafnidiaeth sydd yr un mor hygyrch i holl aelodau cymdeithas, dylai SDC gydnabod a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o ran mynediad at drafnidiaeth mewn digwyddiadau tywydd eithafol; byddai hyn yn helpu i gynyddu cydnerthedd y system drafnidiaeth i'r newid yn yr hinsawdd ac yn lleihau anghydraddoldebau rhwng ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig sydd fwy ar wahân. Mae SDC yn annog y defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, carbon isel, fel teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn hytrach na cherbydau preifat, a fyddai'n helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth ac yn sgil hynny yn cyfyngu cyfraniad Cymru at newid hinsawdd. |
| 8. Diogelu a gwella ansawdd aer |
| Mae llygredd aer yn aml yn deillio o'r un gweithgareddau â'r rhai sy'n cyfrannu at newid hinsawdd. Mae'r sector trafnidiaeth, ac yn enwedig ceir, cerbydau nwyddau trwm, awyrennau a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd, yn ffynonellau sylweddol o allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer.<br>Nod SDC yw gwneud gostyngiad sylweddol i ddibyniaeth pobl ar geir i deithio. Byddai'n gwneud hynny trwy wella'r seilwaith ledled Cymru y mae dulliau trafnidiaeth allyriadau isel yn dibynnu arno, fel trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, yn unol â'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau a Theithio Llesol. Byddai'r gostyngiad net i nifer y ceir yn helpu i leihau'r llygredd aer sy'n gysylltiedig â'r sector trafnidiaeth yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd mwy trefol lle mae ansawdd aer yn sylweddol waeth nag ardaloedd mwy gwledig.<br>Mae SDC yn ceisio cefnogi'r newid parhaus i gerbydau glanach, cerbydau trydan a dulliau trafnidiaeth eraill sy'n mabwysiadu technolegau arloesol fel hydrogen. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod allyriadau'r ceir hynny sy'n dal i fod ar y ffyrdd ac yn cael eu defnyddio yn aml yn cael eu lleihau. Byddai gwell cynnal a chadw a rheolaeth o'r rhwydwaith ffyrdd presennol, yn unol â Blaenoriaethau 2 a 3 a'r Cynllun Cryno ar gyfer Ffyrdd, hefyd yn debygol o ganiatáu teithiau mwy effeithlon sy'n arwain at lai o lygredd, gan gynnwys o ganlyniad i lai o dagfeydd a segura. Mae'n debygol y byddai rheolaeth a chynnal a chadw o'r fath yn cynnig cyfleoedd i wella seilwaith gwyrdd ar hyd coridorau ffyrdd, sy'n helpu i hidlo llygryddion aer allan a'u hymneilltuo.<br>Fodd bynnag, fel y disgrifir uchod o ran Amcan 6 yr ACI ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae SDC wedi ymrwymo i gynnal sector hedfanaeth iach yng Nghymru ar gyfer ei fanteision economaidd sylweddol. O ganlyniad, mae llygredd aer sy'n gysylltiedig â sector hedfanaeth Cymru yn annhebygol o leihau yn weladwy dros gyfnod SDC.<br>Mae'r broblem bosibl o ran y boblogaeth yng Nghymru sy'n byw mewn lleoliadau gwledig, lle nad oes ganddynt ddewis yn aml ond dibynnu ar ddefnyddio ceir personol ar gyfer cael mynediad at wasanaethau neu amwynderau, hefyd yn annhebygol o gael ei datrys. Mae'n annhebygol felly y bydd y llygredd aer sy'n gysylltiedig â symudiadau pobl sy'n byw yng nghefn gwlad yn cael ei leihau'n sylweddol. |

| Crynodeb o’r effeithiau ar gyfer pob Amcan yn yr ACI |
|---|
| 9. Diogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau a’n trefluniau |
| Mae Gweledigaeth SDC yn cydnabod pwysigrwydd diogelu a gwella tirweddau a threfluniau unigryw Cymru.<br>Byddai’r gostyngiad tebygol i nifer y ceir ar y ffyrdd, wedi’i gyflawni yn bennaf drwy’r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a’r Cynlluniau Cryno ar gyfer Teithio Llesol a Bysiau, yn helpu i osgoi’r effeithiau niweidiol y gall ffyrdd eu cael ar gymeriad tirweddau a threfluniau, a sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl, gan gynnwys trwy lygredd sŵn, aer a golau yn ogystal â thrwy fod â gwerth amwynder gweledol isel. Byddai hyn o fudd arbennig i ganolfannau aneddiadau hanesyddol yn ogystal â’r tirweddau naturiol unigryw sy’n gyffredin yn ardaloedd mwy gwledig Cymru.<br>Nod SDC yw gwella’r broses o reoli a chynnal a chadw seilwaith trafnidiaeth presennol, yn unol â Blaenoriaethau 2 a 3, a allai gynnwys glendid gwell a mesurau gwella a fyddai o fudd i dirweddau a threfluniau. Mae SDC yn hybu gwelliant seilwaith gwyrdd ac mae’r manteision yn cynnwys gwerth amwynder gweledol uchel seilwaith gwyrdd a chynefinoedd lled naturiol, yn ogystal â’i swyddogaeth o sgrinio ardaloedd rhag effeithiau gweledol datblygiadau newydd.<br>Yn unol â’r Uchelgais ‘O ddaioni i ddiwylliant a’r Gymraeg’ y Blaenoriaethau a’r Cynlluniau Cryno, mae SDC hefyd yn ceisio sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol a naturiol yn cael ei warchod a’i wella a bod yr egwyddor hon yn cael ei hymwreiddio ym mhob seilwaith trafnidiaeth newydd. Mewn llawer o achosion, mae trefluniau a thirweddau unigryw Cymru o werth hanesyddol a/neu fioamrywiaeth sylweddol. Drwy warchod ac, mewn rhai achosion, wella’r gwerth hwn, byddai’n debygol o fod o fudd i gymeriad trefluniau a thirweddau lleol. |
| 10. Hybu camau i warchod a gwella asedau treftadaeth |
| Mae SDC, a’r Uchelgais ‘O ddaioni i ddiwylliant a’r Gymraeg’ yn arbennig, yn cydnabod yr angen gwarchod a gwella asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol Cymru. Ledled Cymru, mae rheilffyrdd, twnelau a llwybrau hanesyddol o werth treftadaeth sylweddol. Mae’n debygol, mewn llawer o achosion, y byddai’r buddsoddiad sy’n cael ei gyfeirio at drafnidiaeth yn helpu i ddiogelu a gwella’r asedau hyn drwy sicrhau nad ydynt yn mynd i gyflwr gwael.<br>Yn yr un modd â chymeriad tirweddau a threfluniau, byddai’r gostyngiad i nifer y ceir ar y ffyrdd wedi’i achosi gan yr Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a’r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Rheilffyrdd a Bysiau, a’r gallu dilynol i osgoi ymyriadau sŵn, aer, golau ac ymyriadau gweledol eraill, a sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl, yn helpu i ddiogelu amgylchedd asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol.<br>Mae’n debygol y byddai’n ofynnol i waith cynnal a chadw a rheoli seilwaith trafnidiaeth presennol, a’r ddarpariaeth o unrhyw seilwaith trafnidiaeth newydd ystyried yr effeithiau posibl ar unrhyw asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol cyfagos, ac ymgorffori elfennau sy’n helpu i wella eu hamgylchedd.<br>Mae diogelu a gwella bioamrywiaeth yn ddull sydd wedi’i ymwreiddio drwy SDC a allai fod o fudd posibl i amgylchedd asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol oherwydd amwynder gweledol uchel seilwaith gwyrdd a chynefinoedd lled-naturiol, yn ogystal â’i swyddogaeth o ran sgrinio ardaloedd rhag effeithiau gweledol datblygiad newydd.<br>Byddai gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol lleoedd ledled Cymru yn debygol o helpu i wella hygyrchedd ardaloedd hanesyddol ac asedau treftadaeth i bawb o bob cefndir, gan gynnwys pobl leol a thwristiaid. Byddai hyn yn helpu i hyrwyddo pwysigrwydd yr asedau a’r ardaloedd hyn a gallai arwain yn sgil hynny at fuddsoddiad newydd, fel cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a fyddai’n helpu i ddiogelu asedau ac ardaloedd treftadaeth i genedlaethau’r dyfodol eu mwynhau. |
| 11. Hybu camau i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth |
| Wedi’i hymwreiddio yn SDC mae dealltwriaeth o’r angen i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, geoamrywiaeth ac ecosystemau, ac mae SDC yn ceisio sicrhau bod y system drafnidiaeth yn mabwysiadu strategaethau rheoli tir cynaliadwy sy’n cynnwys cydnerthedd ecosystemau mewn gweithrediadau trafnidiaeth. Ar ei ffurf bresennol, gall y sector trafnidiaeth beri bygythiadau sylweddol i gynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys gwahanu cynefinoedd, ynysu rhywogaethau, a gall arwain at lefelau o lygredd sy’n uwch na llwythi critigol cynefinoedd sensitif. Gall ymyriadau sŵn a golau o’r sector trafnidiaeth fod yn hynod niweidiol i rai rhywogaethau hefyd.<br>Mae SDC yn canolbwyntio ar gynnal y rhwydwaith ffyrdd presennol gan wella cysylltiadau teithio llesol, yn unol â’r Uchelgeisiau a’r Blaenoriaethau a’r Cynllun Cryno ar gyfer Ffyrdd. Mae’n debygol y byddai effeithiau niweidiol ar gynefinoedd, wedi’u hachosi gan ffyrdd newydd yn eu gwahanu ac yn ynysu rhywogaethau, yn cael eu hosgoi yn gyffredinol. Gall cynlluniau ffyrdd newydd beri risg i geoamrywiaeth oherwydd y gwaith helaeth sy’n ofynnol i baratoi’r pridd, ac felly gall osgoi unrhyw ffyrdd newydd fod yn fodd effeithiol o warchod asedau geoamrywiaeth pwysig Cymru. Ceir elfen o ansicrwydd yma gan ei bod yn aneglur o dan ba amgylchiadau yn union y byddai SDC yn caniatáu cynlluniau ffyrdd newydd.<br>Byddai’r newid i ddulliau teithio allyriadau isel, gan gynnwys teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a thrydaneiddio yn helpu i osgoi effeithiau niweidiol ar gynefinoedd sy’n sensitif i ansawdd aer, a sicrhau bod yr effeithiau hyn cyn lleied â phosibl, yn enwedig lle mae lefelau eisoes yn uwch na’u llwythi critigol.<br>Mae’n debygol y byddai cynnal a chadw a rheoli seilwaith trafnidiaeth presennol yn cynnig cyfleoedd i gynnwys elfennau sy’n cynyddu eu gwerth bioamrywiaeth, fel gosod seilwaith gwyrdd ar hyd coridorau ffyrdd. Lle caiff llwybrau cerdded a beicio newydd eu gosod, byddai’r rhain yn cynnig cyfle i gynnwys elfennau seilwaith gwyrdd sy’n fioamrywiol |

| Crynodeb o'r effeithiau ar gyfer pob Amcan yn yr ACI |
|---|
| ond hefyd yn cynnig buddion ehangach i'r ecosystem gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt, gwelliannau i ansawdd aer, hidlo dŵr, dal a storio carbon a gwelliannau i dirweddau a threfluniau. Mae'n ymddangos bod SDC yn mynd ar drywydd cysylltiadau cerdded a beicio o'r natur hwn, er bod elfen o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y byddent yn cael eu darparu. |
| 12. Sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol |
| Mae SDC yn annog y defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, carbon isel, fel trafnidiaeth lesol a chyhoeddus, yn hytrach na cheir preifat, yn ogystal â thrydaneiddio trafnidiaeth, a fyddai'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar ymdrechion i leihau'r defnydd o adnoddau naturiol fel tanwyddau ffosil.<br>Wedi'i hymwreiddio trwy SDC mae'r ymdrech i sicrhau system drafnidiaeth gynaliadwy sy'n annog y defnydd o ddeunyddiau ailgylchu a chynaliadwy wrth ddatblygu seilwaith trafnidiaeth pan fo'n bosibl. Gallai hyn helpu i leihau'r defnydd o ddeunyddiau, a chynhyrchu gwastraff, sy'n gysylltiedig â'r sector trafnidiaeth. Mae'r Uchelgeisiau, Blaenoriaethau 2 a 3 a'r Cynllun Cryno ar gyfer Ffyrdd yn gwneud ymdrech bendant i leihau gwastraff a chadwyn gyflenwi fwy cynaliadwy.<br>Mae'n bosibl y byddai SDC yn arwain at lai o gynlluniau ffyrdd newydd, gan annog y defnydd o ddeunyddiau sy'n cynyddu oes gwasanaeth, sy'n golygu bod angen llai o ddeunyddiau ac yn galluogi cwmpas ehangach i ddefnyddio deunyddiau ailgylchu. Gallai cynnal a chadw seilwaith trafnidiaeth presennol helpu i leihau faint o seilwaith newydd sydd ei angen, ac felly lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gwell yn debygol o'i gwneud yn ofynnol defnyddio adnoddau naturiol i ryw raddau.<br>Byddai SDC yn arwain at lai o geir ar y ffyrdd. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn y llygryddion o bibellau gwacáu neu ollyngiadau yn syrthio ar y tarmac; yna ceir llai o siawns y bydd dŵr wyneb ffo yn cludo'r llygryddion hyn i mewn i'r pridd, i ddŵr daear ac i ddŵr wyneb, gan wella eu hansawdd o bosibl. Gall traul teiars ceir ar ffyrdd fod yn ffynhonnell sylweddol o lygredd plastig yn yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys yn yr amgylchedd dŵr, ac mae'n debygol y byddai hyn yn cael ei leihau i ryw raddau gan gynigion trwy SDC oherwydd y symudiad tuag at deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. |
| 13. Galluogi camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau |
| Byddai SDC yn cynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ddulliau trafnidiaeth cyhoeddus a llesol, yn enwedig oherwydd yr Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar Fysiau, Rheilffyrdd a Theithio Llesol, gan leihau'r defnydd o geir; byddai hyn yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol ar ddiogelu ardaloedd tawel oherwydd gostyngiad mewn sŵn ac ymyriadau gweledol.<br>Trwy ei chefnogaeth i gerbydau trydan, sy'n llawer mwy tawel na cherbydau petrol a diesel, mae'n debygol y byddai SDC yn helpu i leihau ymyriadau sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.<br>O ran llygredd golau, disgwylir mai gostyngiad i nifer y ceir ar y ffyrdd fyddai'r unig agwedd ar SDC a fyddai'n arwain at fanteision, gan y byddai nodau eraill SDC, fel gwneud trafnidiaeth yn fwy diogel (gan gynnwys safleoedd bws a llwybrau cerdded/ beicio) yn arwain at fwy o oleuadau i helpu i leihau'r ofn o drosedd. |

## Sut mae'r ACI wedi dylanwadu ar SDC

N.16. Mae arbenigwyr ACI wedi gweithio yn agos gyda'r tîm cynllunio yn Llywodraeth Cymru ers camau cynnar iawn y broses o lunio SDC. Trwy broses ailadroddol, mae arbenigwyr ACI wedi rhannu canlyniadau ac argymhellion asesu gyda Llywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddod i benderfyniadau. Mae hyn wedi chwarae rhan bwysig i helpu'r rhai a oedd yn llunio'r cynllun i ystyried perfformiad cynaliadwyedd gwahanol opsiynau i ystyried eu cynnwys yn SDC, yn ogystal â'r gwahanol fesurau y gallent ystyried eu mabwysiadu a fyddai'n helpu i sicrhau bod cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl neu i osgoi effeithiau negyddol neu sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl.

## Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a sicrhau bod effeithiau cadarnhaol mor fawr â phosibl – crynodeb o'r argymhellion

N.17. Yn ystod proses ailadroddol yr ACI, mae SDC wedi ymgorffori amrywiaeth o argymhellion sydd wedi helpu i wella perfformiad cynaliadwyedd cyffredinol cynigion SDC. Trwy gydol yr arfarniad o bolisïau SDC, gwnaed argymhellion ar gyfer pob polisi yn erbyn pob Amcan yr ACI, pan fo'n briodol, er mwyn helpu i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol ac i helpu i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol mor fawr â phosibl. Ar y cyfan, gwnaed nifer o argymhellion yn yr ACI ac fe'u cyflwynir yn llawn ym mhrif Adroddiad yr ACI.

## Canfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut y mae'r rhain wedi cyfrannu at yr asesiad

N.18. Mae proses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân yn ategu ac yn hysbysu proses gwneud penderfyniadau SDC. Proses ailadroddol rhwng arbenigwyr ecolegol a llunwyr cynlluniau yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, i benderfynu a yw'n bosibl y gallai cynllun gael effeithiau niweidiol ar ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel sydd wedi'u gwarchod ar lefel ryngwladol. Cyfeirir at y dynodiadau bioamrywiaeth hyn gyda'i gilydd fel safleoedd Natura 2000/ Ramsar, y ceir llawer ohonynt yng Nghymru. Lluniwyd canlyniadau asesu ac argymhellion yn yr ACI yn unol â chanlyniadau'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân.

## Monitro effeithiau arwyddocaol

N.19. Mae'r ACI wedi nodi effeithiau tebygol SDC ar Amcanion yr ACI dros y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Rhoddir dynodiad o sicrwydd yr effeithiau hyn hefyd. Fodd bynnag, ceir perygl bod effeithiau cynaliadwyedd SDC yn wahanol i'r rhai a ragwelwyd, er enghraifft oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld. Mae'n elfen hanfodol o ddarparu datblygu cynaliadwy felly i fonitro effeithiau SDC o ran yr effeithiau a ragwelir. Mae monitro rheolaidd yn galluogi'r awdurdodau perthnasol i ddiwygio cynlluniau yn ôl yr angen, os bydd effeithiau negyddol annisgwyl yn codi neu os na fydd effeithiau cadarnhaol disgwyliedig yn codi.

N.20. Cyflwynir fframwaith monitro yn Adroddiad yr ACI sy'n nodi amrywiaeth o ddangosyddion i'w monitro sy'n berthnasol i effeithiau sylweddol tebygol SDC. Yn ogystal â monitro i ba raddau y mae SDC yn arwain at yr effeithiau a nodir yn yr ACI, mae'r fframwaith monitro yn cynnig dynodiad o effeithiau SDC ar y llinell sylfaen amgylcheddol yng Nghymru.

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Beth yw Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021?

1.1.1 Dogfen statudol yw Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021 (SDC) sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi SDC yn nodi ei pholisïau a sut y byddant yn cael eu cyflawni. Mae SDC yn nodi blaenoriaethau strategol a chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru; yn rhoi sylw i bob dull trafnidiaeth, gan gynnwys cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau trydan, a'r car preifat.

1.1.2 Mae Adran 2(3) yr un Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu SDC yn barhaus ac mae'n rhoi'r gallu i'w diwygio o bryd i'w gilydd.

1.1.3 Cyhoeddwyd Strategaeth Drafnidiaeth flaenorol Cymru (Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl) yn 2008. Mae llawer wedi newid yn ystod y degawd diwethaf, gan gynnwys datganoli mwy o bwerau i Gynulliad Cymru a chyhoeddi deddfwriaeth ychwanegol (yn nodedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)). Rhagwelir newidiadau pellach trwy ddiwygiadau Llywodraeth Leol; cyllid a chysylltiadau ar ôl Brexit; datganoli rhagor o gyfrifoldebau cysylltiedig â thrafnidiaeth; yn ogystal â newidiadau yn deillio o effaith COVID-19.

1.1.4 Yn erbyn y cefndir hwn mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r SDC newydd, er mwyn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth dros y 20 mlynedd nesaf, gan gydnabod nifer o'r newidiadau diweddar hyn a gyda'r nod o roi sylw i gyfleoedd a heriau'r dyfodol. Mae'r Strategaeth yn darparu'r fframwaith strategol y bydd angen gwneud penderfyniadau am opsiynau buddsoddi yn y dyfodol yn unol ag ef. Nid yw'n nodi nac yn cyflwyno prosiectau, cynlluniau, mentrau nac ymyriadau penodol, gan y bydd y rhain yn cael eu nodi yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth manwl 5 mlynedd ac mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol.

## 1.2 Beth yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig?

1.2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn yr hirdymor. Un o'r dulliau allweddol o gyflawni hyn yw mabwysiadu dull integredig o ddatblygu strategaethau a pholisïau. Proses ar gyfer rhagweld ac arfarnu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tebygol cynllun yw Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a'i nod yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r broses o lunio cynllun. Gellir hefyd ei ddefnyddio i ddarganfod effeithiau diwylliannol, sy'n ei wneud yn gyson â'r pedair elfen o ddatblygu cynaliadwy yng nghyfraith Cymru.

1.2.2 Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn un o ofynion sawl darn o ddeddfwriaeth gan gynnwys Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol)[2], a droswyd yn uniongyrchol i gyfraith Cymru drwy'r Rheoliadau AAS[3]. Proses systematig yw AAS ar gyfer arfarnu canlyniadau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio a'u hasesu mor gynnar â phosibl yn y broses gwneud penderfyniadau.

1.2.3 Asesiad o effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cynllun yw Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), a gynhelir ar ddechrau'r broses o lunio'r Cynllun i sicrhau y gwneir penderfyniadau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae AC yn broses systematig

---

[2] Cyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd. Ar gael yn: https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=celex%3A32001L0042 [Gwelwyd: 22.02.21]

[3] Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (OS 2004/1656 (W/170)) ac yn Lloegr, 'Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004 (SI 2004/1633)'. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2004/1656/contents/made/welsh [Gwelwyd: 22.02.21]

ac ailadroddol sy'n nodi ac yn adrodd i ba raddau y bydd gweithredu'r cynllun yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gellir eu defnyddio i ddiffinio datblygu cynaliadwy ac mae'n nodi cyfleoedd i wella perfformiad y cynllun yn gysylltiedig â'r rhain.

1.2.4 Yn ogystal â'r pynciau penodol hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu integreiddio sawl asesiad effaith arall gyda'r AC/AAS i lunio ACI. Yn ogystal ag AC/AAS, mae'r ACI hefyd yn cymryd gofynion deddfwriaethol y canlynol i ystyriaeth:

- AC, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Prynu Gorfodol 2004[4] fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015[5], ac fel sy'n ofynnol o dan Bolisi Cynllunio Cymru 2018 (rhifyn 10)[6];
- Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), fel sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb 2001/42/CE Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (y Gyfarwyddeb AAS)[7], y mae eu gofynion wedi'u trosi i gyfraith Cymru trwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (y Rheoliadau AAS)[8];
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg;
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[9];
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)[10]
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)[11]; a
- Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'r Polisi Adnoddau Naturiol, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)[12].

1.2.5 Mae'r ACI hefyd yn cymryd i ystyriaeth ofynion anneddfwriaethol asesiadau yn ymwneud â Phrawfesur Gwledig; Effeithiau Iechyd; Newid Hinsawdd; a Datblygiad Economaidd.

1.2.6 Mae'r angen i fabwysiadu dull integredig yn annatod i egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae integreiddio asesiadau yn sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer gwahanol faterion, gan rannu gwybodaeth a chydnabod cysylltiadau rhwng pynciau mewn ffordd gyson a thryloyw. Mae hyn yn cynnig dull cadarn a thrylwyr ar gyfer nodi problemau a chyfleoedd, asesu effeithiau gan gynnwys effeithiau cyfunol ac anuniongyrchol a gwneud gwaith monitro mewn ffordd gyfannol. Ar y cyfan, bydd yr ACI yn hwyluso golwg fwy cytbwys ar y goblygiadau cynaliadwyedd a'r cyfleoedd sy'n deillio o SDC.

1.2.7 Caiff gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd eu trosi i gyfraith Cymru a Lloegr trwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2017[13]. Cyfeirir at y broses yn ei chyfanrwydd fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Ar ôl ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, mae SDC wedi bod yn destun proses Sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd canlyniad y broses hon yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â SDC ac Adroddiad yr ACI.

---

[4] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents [Gwelwyd 22.02.21]
[5] Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/contents/enacted/welsh [Gwelwyd 22.02.21]
[6] Llywodraeth Cymru (2018) Polisi Cynllunio Cymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf [Gwelwyd 22.02.21]
[7] Cyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd. Ar gael yn: https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32001L0042 [Gwelwyd 22.02.21]
[8] Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2004/1656/contents/made/welsh [Gwelwyd 22.02.21]
[9] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents/enacted/welsh [Gwelwyd 22.02.21]
[10] Deddf Cydraddoldeb 2010. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents [Gwelwyd 22.02.21]
[11] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh [Gwelwyd 22.02.21]
[12] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ar gael ar-lein yn: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/pdfs/anaw_20160003_we.pdf [Gwelwyd 22.02.21]
[13] *Policy Paper: Changes to the Habitats Regulations 2017*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/changes-to-the-habitats-regulations-2017/changes-to-the-habitats-regulations-2017 [Gwelwyd: 22.02.21]

## 1.3 Diben yr Adroddiad ACI hwn

1.3.1 Yr Adroddiad ACI hwn yw Cam D proses yr ACI gweler Ffigur 1-1). Diben yr adroddiad yw egluro'r broses asesu ailadroddol a sut y mae hyn wedi llunio SDC o’r fersiwn wreiddiol hyd at y fersiwn ddiweddaraf. Mae’n cyflwyno effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl SDC, i hysbysu’r broses ymgynghori.

1.3.2 Mae cwmpas yr asesiad o SDC yn seiliedig ar y fframwaith asesu amcanion, a ddatblygwyd ac a fireiniwyd yn ystod Cam Cwmpasu’r ACI (gweler Atodiadau A a B). Mae’r asesiad yn un lefel uchel sy’n adlewyrchu cylch gwaith cenedlaethol SDC a’i diben. Mae’r asesiad wedi cymryd i ystyriaeth yr hyn y gallai SDC ei gyflawni o bosibl, a’i chwmpas cenedlaethol. Felly mae’n cydnabod swyddogaeth a dylanwad rhanddeiliaid eraill, fel darparwyr addysg neu fyrddau iechyd, o ran cyflawni nodau cyffredin. Mae Ffigur 1-2 yn cynnig trosolwg o’r asesiadau effaith a integreiddiwyd i’r ACI hwn.


1.3.3 Mae’r ACI yn dangos y broses dryloyw a chadarn o wneud penderfyniadau, a fabwysiadwyd wrth ddatblygu SDC. Mae datblygiad cydredol yr ACI a SDC wedi bod yn ailadroddol, a chynhaliwyd trafodaethau rheolaidd rhwng timau’r ACI a SDC. Gwnaed argymhellion ar gyfer gwelliannau neu ddewisiadau amgen trwy arfarnu fersiwn gynnar o SDC. Yr Adroddiad ACI hwn yw trydydd cam yr asesiad llawn. Mae’r broses gydweithredol o weithio wedi cynnwys cyfarfodydd gydag amrywiaeth eang o adrannau yn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chamau adolygu anffurfiol, i drafod y materion datblygol. Felly mae proses yr ACI wedi gallu darparu gwybodaeth gywir, gadarn a thryloyw i Lywodraeth Cymru am gynaliadwyedd yr opsiynau (gan gynnwys yn unigol ac yn gyfunol), sydd wedi chwarae rhan fawr ym mhroses gwneud penderfyniadau’r Llywodraeth am yr hyn i’w gynnwys yn SDC. Fodd bynnag, nodir na chyflwynir unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol ffurfiol yn yr Adroddiad ACI hwn. Trafodwyd datblygiad ‘dewisiadau amgen rhesymol’ yn faith gyda thîm SDC, gan ystyried gwahanol gyfeiriadau a phosibiliadau. Ar hyn o bryd, ni roddwyd ystyriaeth i ‘ddewisiadau amgen’ i’r dulliau yn y cynllun, am resymau sy’n cynnwys y diffyg elfennau gofodol yn SDC. Esbonnir hyn ymhellach yn adran 2.4 yr adroddiad hwn.

*Ffigur 1-1: Camau yn y Broses ACI (addaswyd o ODPM 2005[14]) a Chamau Datblygu SDC*

| Asesiadau sydd wedi'u hintegreiddio | Camau'r ACI | Camau SDC |
|---|---|---|
| Sgrinio Asesiadau Iechyd, Cydraddoldeb, y Gymraeg, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid Hinsawdd a Datblygu Economaidd | **Sgrinio AC/AAS**<br><br>A oes angen ACI ffurfiol sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau AAS? | Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid |
| Cwmpasu a Chasglu Tystiolaeth ar gyfer pob un o'r canlynol wedi eu hymgorffori ym mhob cam Cwmpasu'r ACI:<br><br>Asesiadau Iechyd, Cydraddoldeb, y Gymraeg, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid Hinsawdd a Datblygu Economaidd | **Cam A: Cwmpasu**<br><br>A1. Nodi cynlluniau, rhaglenni, ac amcanion diogelu'r amgylchedd perthnasol eraill<br>A2. Casglu gwybodaeth sylfaenol<br>A3. Nodi problemau cynaliadwyedd<br>A4. Datblygu amcanion AC<br>A5. Ymgynghori ar y cwmpas **(Adroddiad Cwmpasu a Gweithdy Cwmpasu)** | |
| Mewnbwn i ddatblygu opsiynau amgen ac asesu effeithiau ar gyfer pob un o'r canlynol wedi ei ymgorffori i bob cam o Gam B yr ACI hyd at Fframwaith yr ACI a mewnbwn arbenigol:<br><br>Asesiadau Iechyd, Cydraddoldeb, y Gymraeg, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid Hinsawdd a Datblygu Economaidd<br><br>Mewnbwn i weithdy dewisiadau rhanddeiliaid ac Adroddiad Drafft yr ACI | **Cam B: Datblygu a mireinio opsiynau amgen ac asesu effeithiau**<br><br>B1. Profi amcanion SDC yn erbyn amcanion yr ACI<br>B2. Datblygu opsiynau amgen strategol<br>B3. Darogan effeithiau'r SDC Ddrafft gan gynnwys opsiynau eraill<br>B4. Arfarnu effeithiau'r SDC Ddrafft gan gynnwys opsiynau eraill<br>B5. Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau andwyol a sicrhau'r manteision mwyaf posibl<br>B6. Cynnig mesurau i fonitro effeithiau gweithrediad SDC<br>**(Gweithdy Dewisiadau Rhanddeiliaid Adroddiad Interim yr ACI ar Broblemau ac Opsiynau)** | Datblygu ac ymgynghori ar y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir<br><br>Paratoi SDC Ddrafft ac ymgynghori |
| Adrodd ar yr asesiad o'r uchod yn Adroddiad yr ACI: | **Cam C: Paratoi Adroddiad Drafft yr ACI**<br><br>Paratoi Adroddiad ffurfiol yr ACI a Chrynodeb Annhechnegol i adrodd ar ganfyddiadau'r ACI o'r SDC Ddraft. | |
| Ymgynghori ar yr asesiadau uchod yn rhan o Adroddiad Drafft yr ACI.<br><br>Diweddaru'r asesiad o'r uchod yn rhan o'r ACI o'r SDC Derfynol ac adrodd yn yr Adroddiad ACI Terfynol. | **Cam Ch: Ymgynghori ar Adroddiad Drafft yr ACI ac asesu newidiadau arwyddocaol**<br><br>Ch1. Ymgynghori ar Adroddiad yr ACI<br>Ch2. Asesu newidiadau arwyddocaol a wnaed i'r SDC Derfynol a diweddaru Adroddiad yr ACI<br>Ch3. Darparu Datganiad Ôl-fabwysiadu a Datganiad o Fanylion | Paratoi SDC Derfynol ar gyfer ystyriaeth y Cynulliad |
| Monitro effeithiau arwyddocaol yr asesiadau uchod yn rhan o fonitro'r ACI. | **Cam D: Monitro Effeithiau Arwyddocaol SDC** | Cyhoeddi SDC |

[14] ODPM (2005) Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ar gymhwyso Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd Ar gael yn; https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/7657/practicalguidesea.pdf [Gwelwyd: 22.02.21]

*Ffigur 1-2: Asesiadau effaith i'w hintegreiddio ochr yn ochr â'r AC/AAS*



## 1.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

1.4.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2015, yn ceisio gosod Cymru ar lwybr cynaliadwy i wella llesiant. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal datblygiadau cynaliadwy, fel y diffinnir isod:

***"y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5), gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant."***

1.4.2 Mae Adran 2 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi diffiniad datblygu cynaliadwy ar gyfer y system gynllunio ac mae'n cyfeirio'n uniongyrchol at y diffiniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1.4.3 Ffordd o wneud pethau yw datblygu cynaliadwy, yn hytrach na diben ynddo'i hun; mae'r Ddeddf yn cyfarwyddo cyrff cyhoeddus ar sut y dylent weithredu i'w sicrhau. Datblygu cynaliadwy yw'r broses y gellir ei defnyddio i wella llesiant. Mae'n cydnabod bod llawer o bethau sy'n penderfynu ansawdd bywyd unigolyn (ei lesiant), ac y gellir categoreiddio'r rhain i gyd yn fras yn ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y nodau llesiant. Felly gall gwella ansawdd ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant wella llesiant unigolion a llesiant Cymru yn ei chyfanrwydd. Ni ellir gwahanu'r nodau llesiant hyn oddi wrth ei gilydd (gweler Tabl 1.1).

1.4.4 Bydd gan SDC ran bwysig i'w chwarae o ran cyfrannu at gyflawni nodau llesiant dros y cyfnod o 20 mlynedd, a bydd yr ACI yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall lle gall SDC sicrhau bod y cyfraniad hwnnw mor fawr â phosibl. Mae'r nodau llesiant wedi bod yn rhan annatod o baratoad yr ACI, gan gynnwys yr adolygiad o dystiolaeth, gwybodaeth sylfaenol, nodi materion cynaliadwyedd allweddol a strwythur y Fframwaith ACI.

*Tabl 1-1: Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*

| Nod Llesiant | Disgrifiad |
|---|---|
| Cymru lewyrchus. | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth. | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru iachach. | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal. | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). |
| Cymru o gymunedau cydlynus. | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |

| Nod Llesiant | Disgrifiad |
|---|---|
| Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang. | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## 1.5 Dulliau o Weithio

1.5.1 Mae’r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a ddiffiniwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn rhan annatod o sut y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus - gan gynnwys Llywodraeth Cymru - weithredu bellach. Mae’n rhaid iddynt weithredu mewn ffordd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae’r egwyddor hon wedi’i chyfansoddi o bump ‘dull o weithio’ y mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu dilyn er mwyn sicrhau’r cyfraniad mwyaf posibl at ddatblygu cynaliadwy. Dyma’r pum dull o weithio:

- Edrych i’r **hirdymor** fel nad yw Llywodraeth Cymru yn peryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Mabwysiadu dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- **Cynnwys** amrywiaeth o’r boblogaeth yn y penderfyniadau sy’n effeithio arnynt;
- **Cydweithio** ag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy cyffredin;
- Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau i’w **hatal** rhag digwydd.

1.5.2 Mae’r pum dull o weithio yn rhan annatod o’r broses o baratoi SDC ac felly, trwy gysylltiad, yr ACI. Yn ystod y gwaith a wnaed gan Arcadis a Llywodraeth Cymru, rydym wedi ystyried sut y mae’r dulliau o weithio yn llunio’r hyn yr ydym yn ei wneud. Mae Tabl 1.2 yn cynnig trosolwg o’n dull ni.

*Tabl 1.2: Dulliau o Weithio a’r ACI*

| Edrych i’r hirdymor | |
|---|---|
| Datblygiad SDC | I sicrhau ein bod yn ystyried yr hirdymor, bydd SDC yn cael ei datblygu i ddarparu gweledigaeth 25 mlynedd ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Yn bwysig iawn, bydd SDC hefyd yn cefnogi syniadau y tu hwnt i 2040 pan fo’n bosibl, gan ddefnyddio tystiolaeth a thueddiadau a cheisio deall canlyniadau dros yr amserlenni hiraf sydd ar gael. Er bod polisïau mwy byrdymor o ddiddordeb i SDC ac y gallent hysbysu ei dull mewn rhai meysydd, yn y pen draw mae SDC yn cefnogi dull nad yw wedi’i gyfyngu gan anghenion byrdymor yn unig. |
| Swyddogaeth yr ACI | Swyddogaeth yr ACI yw cefnogi gwaith llunio polisi hirdymor yn SDC. Mae’n nodi ac yn ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae’r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni sylfaenol, a’r broses o nodi materion a chyfleoedd yn manteisio ar gorff manwl o dystiolaeth sy’n ystyried y byrdymor, y tymor canolig a’r hirdymor. Profodd y fframwaith brofi bolisi sy’n dod i’r amlwg ac asesodd ei allu i gyflawni’r amcanion hirdymor. Mae’r opsiynau a ddatblygwyd ac a brofwyd drwy’r ACI yn ystyried yn benodol y ddarpariaeth o newid strategol hirdymor. Mae Atodiad B yr ACI yn nodi’r dystiolaeth sylfaenol sy’n ystyried tueddiadau byrdymor, tymor canolig a hirdymor. Mae Adran 4, er enghraifft, yn dangos y tueddiadau hirdymor o ran amcanestyniadau poblogaeth. Mae hyn yn cyfrannu at y broses o nodi materion a chyfleoedd allweddol i SDC roi sylw iddynt a llunio Fframwaith yr ACI. |
| **Cymryd dull integredig** | |
| Datblygiad SDC | Bydd SDC yn darparu strategaeth genedlaethol sy’n rhoi sylw i faterion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd SDC yn gyson â’r ddarpariaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ac yn cefnogi’r ddarpariaeth hon. Bydd SDC yn darparu’r fframwaith strategol y bydd angen gwneud penderfyniadau am opsiynau buddsoddi yn y dyfodol yn |

| | |
|---|---|
| | unol ag ef. Ni fydd yn nodi nac yn cyflwyno prosiectau, cynlluniau, mentrau nac ymyriadau penodol; bydd y rhain yn cael eu nodi yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Genedlaethol manwl 5 mlynedd a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol Cyffredin.<br><br>Bydd ei pholisïau yn integredig, gan sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant, ac yn cael eu datblygu trwy broses asesu fanwl yn seiliedig ar dystiolaeth. Yr ACI fydd yr offeryn y byddwn yn ei ddefnyddio i brofi'r integreiddio hwn a sicrhau bod y cyfraniad at fodloni'r nodau llesiant mor fawr â phosibl. |
| Swyddogaeth yr ACI | Yr ACI yw'r dull integredig o ddatblygu SDC ac asesu ei pholisïau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n sicrhau y dilynir dull cyfannol, gan rannu gwybodaeth a chydnabod cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd pwnc ac felly'r nodau. Mae proses yr ACI yn cynnwys adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol perthnasol ar raddfa genedlaethol i ryngwladol. Mae hyn wedi galluogi Llywodraeth Cymru fanteisio ar synergeddau posibl, i nodi cyfleoedd ac i ymdrin ag unrhyw anghysondebau a chyfyngiadau. Yn rhan o'r ACI, cynhaliwyd asesiad cydweddoldeb o'r Fframwaith asesu i sicrhau bod unrhyw achosion o wrthdaro yn cael eu hamlygu, eu datrys a'u rheoli fel sy'n angenrheidiol.<br><br>Sicrhaodd yr ymgynghoriad a'r gweithdy ACI ategol gyda rhanddeiliaid allweddol fod amrywiaeth o safbwyntiau ar Adroddiad Cwmpasu drafft yr ACI wedi'u casglu, gan gynnwys y Fframwaith drafft a dull integredig arfaethedig. Sicrhaodd hyn hefyd bod synergeddau ac achosion o wrthdaro yn cael eu nodi'n gynnar, a dull cadarn o gynnal yr asesiad.<br><br>Defnyddiwyd dull trawslywodraethol o ran sefydlu Gweithgor ACI. Mae hwn yn cynnwys arweinwyr polisi arbenigol ar gyfer datgarboneiddio, trafnidiaeth, cynllunio morol, adnoddau naturiol, cadwraeth natur, tueddiadau'r dyfodol ac ystadegau. Cefnogodd y Gweithgor broses yr ACI trwy gydol datblygiad SDC.<br><br>Bwriedir y bydd dull cydweithredol yn esblygu i lenwi bylchau data, i wneud gwaith monitro ac i gynyddu'r ymgysylltiad â grwpiau fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| **Cynnwys pobl** | |
| Datblygiad SDC | Rydym wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn natblygiad SDC.<br><br>Mae ymgysylltu ar y strategaeth ddrafft wedi cynnwys:<br>• Mewnbwn rhanddeiliaid i'r strategaeth ddrafft, gan gynnwys ymgynghori mewnol ac allanol gyda rhanddeiliaid allweddol yn ogystal â swyddfeydd y Comisiynwyr.<br>• Ymgynghori ac ymgysylltu ar ddogfen y strategaeth ddrafft.<br>• Cofnodi allbynnau o'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid.<br>• Dadansoddi adborth a llunio adroddiad ymgynghori.<br>• Mewnbwn rhanddeiliaid i fireinio SDC.<br>Amcanion yr ymgysylltu oedd:<br>1. Gwneud cynulleidfaoedd yn ymwybodol o ddatblygiad Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Newydd Cymru 2021, blaenoriaethau a chanlyniadau, a cheisio eu safbwyntiau ar y rhain.<br>2. Sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael cyfle i gynnig sylwadau ar gynigion ar gyfer newid, fel y gellir defnyddio adborth i hysbysu'r broses gwneud penderfyniadau.<br>3. Gwneud yn siŵr bod yr ymgynghoriad yn gynhwysol ac yn cynnig cyfleoedd i amrywiaeth eang o randdeiliaid a'r cyhoedd gymryd rhan.<br>4. Sicrhau lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ran pam mae newidiadau yn cael eu cynnig. |
| Swyddogaeth yr ACI | Mae'r ACI wedi cynnig cyfle pwysig i bobl gymryd rhan yn y broses o lunio SDC wrth iddi ddatblygu. Mae'n broses sy'n adrodd hanes y cynllun gan gynorthwyo dealltwriaeth o'i ddatblygiad.<br><br>Mae gwaith yr ACI wedi cynnwys gwahanol sefydliadau ac unigolion i sicrhau bod amrywiaeth eang o safbwyntiau yn dal i gael eu casglu ac yn cyfrannu at ddatblygiad SDC. Mae'r ACI yn ymgorffori gwaith o hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg. |
| **Cydweithio ag eraill** | |

| | |
|---|---|
| Datblygiad SDC | Ni fydd SDC yn gallu mynd i'r afael â'r heriau trafnidiaeth allweddol ar ei phen ei hun. Ei swyddogaeth yw cyflwyno'r blaenoriaethau strategol a'r canlyniadau dymunol gan ddarparu cysylltiad â blaenoriaethau ehangach yn ogystal â chynlluniau ar lefel awdurdodau lleol a rhai rhanddeiliaid trafnidiaeth eraill. Ei swyddogaeth yw nodi'r hyn y gall ei wneud yn uniongyrchol ac mewn cydweithrediad ag eraill. Ceir cyfle i SDC hwyluso camau gan eraill ac i sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl i gefnogi cyflawniad nodau cyffredin, i sicrhau cymaint o ganlyniadau cadarnhaol â phosibl ac i helpu i fodloni'r nodau llesiant.<br><br>Yn bwysig, mae gan SDC ddiddordeb mewn cefnogi darpariaeth ar bob lefel drwy'r system gynllunio. Yn ogystal â chynlluniau mawr ac untro, bydd SDC yn ceisio hwyluso darpariaeth sawl prosiect llai, a all helpu gyda'i gilydd i sicrhau newid dros yr hirdymor.<br><br>Bydd gan SDC swyddogaeth o ran cydgysylltu'r ddarpariaeth o fuddsoddiad a strategaethau ar draws y Llywodraeth; bydd yn gweithio gyda llunwyr cynlluniau rhanbarthol a lleol; busnesau; rhanddeiliaid; ac amrywiaeth eang o fuddiannau. |
| Swyddogaeth ACI | Mae'r ACI, trwy adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion amgylcheddol a thystiolaeth sylfaenol wedi helpu i nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol ac yn nodi cyfleoedd i SDC (Tabl 2.2); ar ôl ymgysylltu ac ymgynghori, mae'r dystiolaeth, y cynlluniau a'r rhaglenni wedi'u diweddaru a'u diwygio. Mae hyn wedi arwain at ddatblygiad Fframwaith yr ACI, y cafodd polisïau a chynigion SDC eu profi yn ei erbyn er mwyn helpu i sicrhau cymaint o gyfleoedd i gydweithredu â phosibl a sicrhau bod SDC mor gynaliadwy â phosibl. |
| **Atal** | |
| Datblygiad SDC | Y strategaeth drafnidiaeth yw un o ysgogiadau'r Llywodraeth i nodi canlyniadau'r dyfodol a mesurau i fonitro llwyddiant. Mae SDC yn nodi gweledigaeth strategol hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth wedi'i hategu gan gyfres o ganlyniadau i wireddu'r weledigaeth honno, yn ogystal â mesurau i olrhain cynnydd. Mae hyn yn cynnig sail eglur ar gyfer cynllunio buddsoddiad a datblygiad y rhwydwaith yn y ffordd sy'n cyd-fynd orau â gwireddu blaenoriaethau cyfunol, ac i leihau effeithiau trafnidiaeth. Mae SDC yn darparu ar gyfer diogelu ac amddiffyn grwpiau difreintiedig a lleiafrifol yng Nghymru.<br><br>Mae SDC yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yn destun rhaglen o fonitro ac adolygu, i ddarganfod cynnydd tuag at gyflawni ei chanlyniadau. |
| Swyddogaeth yr ACI | Mae'r ACI yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n bwydo drwy'r Adroddiad Cwmpasu ac yn llunio Fframwaith yr ACI. Nododd yr adolygiad o'r dystiolaeth hon faterion allweddol a chyfleoedd i SDC roi sylw iddynt a sicrhaodd bod SDC yn lleihau canlyniadau negyddol ac yn gwella canlyniadau cadarnhaol pan fo'n bosibl (Tabl 2.2). Mae nodi'r materion a'r tueddiadau hyn ar gam cynnar wedi helpu datblygiad SDC trwy lunio amcanion a chwestiynau Fframwaith yr ACI. Mae proses yr ACI wedi sicrhau y bydd SDC yn cael ei monitro i sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus ac yn cyflawni ei hamcanion. Bydd unrhyw faterion a amlygir yn cyfrannu at yr adolygiad o SDC. |

## 1.6 Asesiadau o'r Effaith Ddeddfwriaethol

### Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.6.1 Proses strwythuredig a systematig o gefnogi penderfyniadau yw'r AAS, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau AAS. Bwriedir iddi helpu i sicrhau bod agweddau amgylcheddol yn cael eu hystyried yn effeithiol yn ystod y broses o lunio cynllun. Diffinnir y broses gan gamau a thasgau penodol i'w cwblhau er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau AAS. Mae Tabl 1.3 yn nodi lle mae'r gofynion amrywiol hyn wedi'u bodloni yn yr ACI.

*Tabl 1.3: Gofynion ar gyfer Adroddiad Amgylcheddol AAS ac a yw'r rhain wedi'u bodloni*

| Cwestiwn | Do/Naddo/Ble |
|---|---|
| Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.<br>Atodlen 2, Gwybodaeth ar gyfer Adroddiadau Amgylcheddol, Rheoliad 12(3) | |
| 1. Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu'r rhaglen a'i berthynas (os oes un) â chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. | Adroddiad Cwmpasu yr ACI, Adrannau 1.1, 2.1 ac Atodiad A yn yr adroddiad hwn |
| 2. Yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol heb weithredu'r cynllun neu'r rhaglen. | Adroddiad Cwmpasu yr ACI ac Adran 2.2 ac Atodiad B yn yr adroddiad hwn |
| 3. Nodweddion amgylcheddol ardaloedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt. | Adroddiad Cwmpasu yr ACI a Thabl 2.2 ac Atodiad B yr adroddiad hwn |
| 4. Unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn benodol, y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw ardal o bwys amgylcheddol penodol, megis ardaloedd sydd wedi eu dynodi yn unol â Chyfarwyddeb Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. | Adroddiad Cwmpasu yr ACI ac Atodiad B yr adroddiad hwn |
| 5. Amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlir ar lefel ryngwladol, Gymunedol neu Aelod-wladwriaeth, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a'r modd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi'u cynnwys wrth ei baratoi. | Adroddiad Cwmpasu yr ACI ac Atodiad A yr adroddiad hwn |
| 6. Yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor, effeithiau parhaol a dros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, cronnol a synergyddol ar faterion fel yn cynnwys bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd pobl, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, y dirwedd a'r rhyngberthynas rhwng y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) i (l). | Pennod 3 ac Atodiad D yr adroddiad hwn |
| 7. Y camau a ragwelir i atal, lleihau a gwrthbwyso cymaint â phosibl unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu'r cynllun neu raglen. | Pennod 3 ac Atodiad D yr adroddiad hwn a Thabl 3.5 |
| 8. Amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis yr opsiynau amgen yr ymdriniwyd â nhw, a disgrifiad o sut y cynhaliwyd yr asesiad gan gynnwys unrhyw anawsterau a geir wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol ynghyd. | Adran 2.4 yn yr adroddiad hwn |
| 9. Disgrifiad o'r camau a ragwelir ynghylch monitro yn unol â rheoliad 17. | Tabl 3.6 yn yr adroddiad hwn |
| 10. Crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarperir o dan baragraffau 1-9. | Rhan gyntaf yr adroddiad hwn |

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

1.6.2 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac yn nodi fframwaith ar gyfer cyflawni hyn yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Amcan Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw *'defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n… cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny,*

*ddiwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.'* Mae Polisi Cynllunio Cymru yn trosi egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i'w defnyddio yn y system gynllunio.

1.6.3 Mae gofynion Deddf yr Amgylchedd, gan gynnwys y blaenoriaethau a nodwyd gan y Polisi Adnoddau Naturiol, wedi'u cynnwys yn fframwaith yr ACI a llywiodd ddatblygiad SDC. Mae'r rhain yn rhoi pwyslais ar adnoddau naturiol Cymru, ac mae SoNaRR[15] yn darparu asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn ceisio nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

1.6.4 Mae SDC, trwy fynd i'r afael â materion a chyfleoedd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, yn defnyddio dull hollgynhwysol o sicrhau datblygu cynaliadwy pan fo penderfyniadau ar anghenion byrdymor a hirdymor a chost a buddion yn dod at ei gilydd. Mae'r ACI yn helpu i sicrhau'r canlyniadau hyn drwy nodi lle gellir darparu buddion lluosog yn rhan o'r cynllun ac osgoi neu leihau effeithiau negyddol cymaint â phosibl.

1.6.5 Dyma nodweddion allweddol y dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, y gall y system gynllunio gyfrannu atynt:

- Gwella cydnerthedd ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol;
- Cynnal a gwella bioamrywiaeth;
- Cynnal a gwella seilwaith gwyrdd ar sail ceisio buddion i'r ecosystem ac atebion lluosog;
- Sicrhau dewisiadau cydnerth ar sail lleoliad ar gyfer seilwaith a datblygu adeiledig, gan ystyried, pan fo hynny'n bosibl, gyflenwadau dŵr, ansawdd dŵr a lleihau llygredd aer a sŵn a risgiau amgylcheddol fel y rhai a achosir gan risg o lifogydd, newid arfordirol, halogi tir ac ansefydlogrwydd;
- Cymryd camau tuag at economi fwy cylchol yng Nghymru; a
- Hwyluso'r symudiad i ddatgarboneiddio'r economi.

1.6.6 Cydnabyddir sut y mae trosi Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i'r system gynllunio yn rhan annatod o gydrannau hanfodol lleoedd cynaliadwy, trwy annog dulliau sy'n seiliedig ar nodi a sicrhau canlyniadau sy'n cyflawni buddion lluosog i ecosystemau. Mae SDC yn ceisio mynd i'r afael â'r nodweddion allweddol hyn ac mae'r ACI yn nodi sut y cyflawnir hyn.

## Cydraddoldebau

1.6.7 Mae'n bosibl y gallai SDC gael effaith ar gydraddoldebau a hawliau dynol. Mae Fframwaith yr ACI a chwestiynau cynorthwyo penderfyniad cysylltiedig wedi sicrhau y rhoddwyd sylw i'r dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac y byddant yn parhau i gael sylw drwy'r ACI a SDC.

1.6.8 O dan y ddyletswydd cydraddoldeb (a nodir yn Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010), mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru, roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth) a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

1.6.9 Rhoddir sylw i'r gofyniad ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau trwy Amcanion 1 a 2 yr ACI yn bennaf.

| Asesiad Effaith | Amcanion yr ACI |
|---|---|

[15] Cyfoeth Naturiol Cymru. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/?lang=cy [Gwelwyd 22.02.21]

| | |
|---|---|
| Cydraddoldebau | 1, 2 |

## Y Gymraeg

1.6.10 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol ystyried yr effeithiau canlynol:

- Pa effaith, os o gwbl, y byddai SDC yn ei chael ar gyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Sut y gallai SDC arwain at effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- Sut y gellid datblygu SDC fel bod effeithiau negyddol y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cael eu lleihau.

1.6.11 Mae'n bosibl y gallai SDC gael effaith ar y Gymraeg. Felly mae Amcan 5 yr ACI yn cwmpasu'r Gymraeg i sicrhau ei bod yn cael ei chynnwys yn Fframwaith yr ACI. Mae hyn yn sicrhau bod cyfleoedd i hybu'r Gymraeg, i hwyluso ei defnydd, i ddiogelu ei dyfodol a gweld yr iaith yn ffynnu, yn cael eu hystyried a'u nodi pan fo'n bosibl. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ei gwaith ar y Gymraeg. Mae'n rhaid i ddatblygiad pob polisi, prosiect, darn o waith ymchwil, deddfwriaeth, grant a gwasanaeth gael ei ategu gan ystyriaeth briodol o'r Gymraeg, pobl sy'n siarad Cymraeg a chymunedau Cymraeg; mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc.

1.6.12 Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru chwilio am gyfleoedd i hybu'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd i ddiogelu ei dyfodol a gweld yr iaith yn ffynnu. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i ymgorffori yn yr ACI i sicrhau y cyflawnir y dyletswyddau hyn. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ystyried sut y bydd SDC yn effeithio ar bob aelod o gymdeithas wrth ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys plant a phobl ifanc..

1.6.13 Mae Fframwaith yr ACI a'r cwestiynau cysylltiedig sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn sicrhau bod yr effeithiau ar y Gymraeg wedi cael sylw wrth i SDC gael ei hasesu, gan gydnabod effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

1.6.14 Rhoddir sylw i'r gofynion ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg trwy Amcan 5 yr ACI yn bennaf:

| Asesiad Effaith | Amcan yr ACI |
|---|---|
| Y Gymraeg | 5 |

## Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

1.6.15 Rhoddir dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn offeryn sy'n helpu i ddangos sut y mae Gweinidogion Cymru yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol.

1.6.16 Daeth y gwaith cwmpasu i'r casgliad y bydd SDC yn cael effaith bosibl ar hawliau plant. Adolygwyd yr Erthyglau yn y Confensiwn a nodwyd yr erthyglau canlynol fel y rhai mwyaf perthnasol ar y cam hwn – 1, 3, 4, 6, 12, 13, 15, 22, 23, 24, 26, 27, 28, 31, 34 a 36. Ar gyfer yr Erthyglau hyn ac argymhellion 2016 a wnaed gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae Fframwaith yr ACI yn cynnwys amcanion sy'n cwmpasu'r meysydd hyn. Mae'r Datganiad o Gyfranogiad Cyhoeddus yn amlinellu manylion yr ymgynghoriad ar SDC a'r dull o ymgysylltu. Bydd plant a phobl ifanc yn parhau i gael eu cynnwys i sicrhau y clywir eu llais wrth ddatblygu SDC.

1.6.17 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i integreiddio yn yr ACI. Mae Fframwaith yr ACI a'r cwestiynau cysylltiedig sy'n cynorthwyo eu penderfyniadau yn sicrhau bod yr erthyglau perthnasol yn y Confensiwn yn cael sylw wrth asesu SDC; mae hyn yn cydnabod yr effeithiau uniongyrchol ac

anuniongyrchol y gall y system gynllunio eu cael ar blant a phobl ifanc. Bydd yn helpu i sicrhau bod SDC yn effeithio'n gadarnhaol ar blant trwy, er enghraifft, y gallu i gael addysg; creu cyfleoedd sy'n golygu y gellir lleihau anghydraddoldeb ar sail oedran; creu cyfleoedd i sicrhau y gall plant ymlacio a chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau; a chreu cyfleoedd i'r amgylchedd adeiledig gael ei gynllunio mewn modd sy'n hygyrch i bawb.

1.6.18 Mae'r ACI yn ystyried hawliau plant mewn llawer o ffyrdd drwy'r arfarniad cyfan, gan gynnwys agweddau agored i niwed posibl y system drafnidiaeth i blant, y ddibyniaeth bosibl ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r rhai nad ydynt yn gallu gyrru, ond hefyd pwysigrwydd trafnidiaeth o ran galluogi pob plentyn i gael mynediad at addysg, lle gall plant a phobl ifanc ddysgu am fanteision teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â dysgu'r sgiliau i ddod yn hyrwyddwyr yr opsiynau trafnidiaeth amgen hyn yn y dyfodol.

1.6.19 Rhoddir sylw i'r gofynion ar gyfer yr asesiadau Hawliau Plant trwy Amcanion 1, 2, 3, 4, a 5 yr ACI yn bennaf:

| Asesiad Effaith | Amcanion yr ACI |
|---|---|
| Hawliau Plant | 1, 2, 3, 4, a 5 |

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.6.20 O dan Erthygl 6 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 102 y Rheoliadau Cynefinoedd), mae asesiad yn ofynnol pan allai cynllun arwain at effeithiau sylweddol ar safle sy'n rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, a adnabuwyd yn flaenorol fel 'safle Ewropeaidd' yn y DU neu 'safle Natura 2000' yn Ewrop. Oherwydd i'r newid hwn gael ei gyflwyno gan lywodraeth y DU ym mis Ionawr 2021 ar ôl cwblhau'r adroddiad hwn a mapiau cysylltiedig, cyfeirir at safleoedd fel safleoedd "Ewropeaidd" yn y ddogfen hon o hyd. Mae'r safleoedd dynodedig hyn yn rhan o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, sy'n rhwydwaith o ardaloedd a ddynodwyd i warchod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau sy'n brin, mewn perygl, yn agored i niwed neu'n endemig yn y Gymuned Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar sail eu cynefinoedd a/neu rywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), a ddosberthir o dan Gyfarwyddeb 2009/147/EC ar Gadwraeth Adar Gwyllt (y fersiwn wedi'i chodeiddio o Gyfarwyddeb 79/409/EEC fel y'i diwygiwyd) ar sail rhywogaethau adar mudol prin, agored i niwed neu sy'n ymddangos yn rheolaidd a gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol.

1.6.21 Hefyd, mae'n fater o gyfraith bod ymgeiswyr ACA (yACAau) a Safleoedd o Bwys i'r Gymuned yn cael eu hystyried yn y broses hon; hefyd, polisi'r Llywodraeth yw bod safleoedd sydd wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 ar sail eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (safleoedd Ramsar) ac AGAau posibl (AGaup) yn cael eu hystyried hefyd

1.6.22 Nid yw'r adroddiad ACI hwn yn bodloni gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r Asesiad yn broses ar wahân, ac mae adroddiadau ar gael i'r cyhoedd. Caiff arfarniadau a gynhelir yn yr ACI eu llywio gan ganlyniadau proses Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi dod i'r casgliad *'na ystyriwyd y bydd yr un o'r polisïau na'r Cynlluniau Cryno Cysylltiedig yn cael effaith sylweddol debygol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd/Ramsar ar eu pen eu hunain, nac yn gyfunol. Os caiff unrhyw fanylion pellach, gan gynnwys manylion gofodol eu cadarnhau o ran y Cynlluniau Cryno, yna bydd yn ofynnol i bob cynllun fod yn destun gwaith sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r cynlluniau lefel nesaf.'*

## 1.7 Asesiadau Effaith Anneddfwriaethol

### Prawfesur Gwledig

1.7.1 Bydd SDC yn cael effaith bosibl ar gymunedau gwledig, ac felly mae'r amcanion sy'n ymwneud ag agweddau ar fywyd gwledig fel y gallu i gael gafael ar wasanaethau a'r economi wedi'u cynnwys yn Fframwaith yr ACI. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y rhoddir sylw i'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl y gall y system drafnidiaeth eu cael ar ardaloedd a chymunedau gwledig.

1.7.2 Mae sut a lle yn yr ACI y bodlonwyd gwahanol ofynion ar gyfer prawfesur gwledig yn bennaf fel a ganlyn:

| Asesiad Effaith | Amcanion yr ACI |
|---|---|
| Prawfesur Gwledig | 1, 2, 3, 4, 5, 9, a 13 |

## Newid yn yr Hinsawdd

1.7.3 Bydd SDC yn cael effaith bosibl ar y newid yn yr hinsawdd. Felly mae amcanion perthnasol wedi'u cynnwys yn Fframwaith yr ACI, i sicrhau bod achosion a chanlyniadau newid hinsawdd yn cael eu hystyried a'u nodi pan fo'n bosibl.

1.7.4 Mae Fframwaith yr ACI a'r cwestiynau cysylltiedig sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn sicrhau y rhoddir sylw i'r effeithiau ar newid hinsawdd, gan gynnwys addasu, lliniaru a chydnerthedd wrth i SDC gael ei hasesu, gan gydnabod yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall y system gynllunio eu cael ar y meysydd hyn.

1.7.5 Mae'r asesiadau sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd wedi'u hymgorffori yn bennaf trwy:

| Asesiad Effaith | Amcanion yr ACI |
|---|---|
| Newid yn yr Hinsawdd | 6, 7, ac 11 |

## Iechyd

1.7.6 Mae'n bosibl y gallai SDC gael effaith ar iechyd pobl, gan gynnwys iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Seiliwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar y dull bras, cyfranogol a chynhwysol a hyrwyddir yng Nghymru ac a ddisgrifir yn 'Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol' (WHIASU, 2012) ac mae wedi defnyddio'r penderfynyddion iechyd ehangach fel fframwaith ar gyfer trafodaeth. Mae Fframwaith yr ACI yn cynnwys amcanion iechyd sy'n adlewyrchu dangosyddion Iechyd Cyhoeddus Cymru.

1.7.7 Mae Fframwaith yr ACI a'r cwestiynau cysylltiedig sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn sicrhau y rhoddir sylw i'r effeithiau ar iechyd, gan gynnwys llesiant, iechyd corfforol a meddyliol a phenderfynyddion iechyd ehangach wrth i SDC gael ei hasesu, gan gydnabod effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall y system gynllunio eu cael ar y meysydd hyn.

1.7.8 Mae sut a lle yn yr ACI y bodlonwyd gwahanol ofynion Asesu'r Effaith ar Iechyd yn bennaf fel a ganlyn:

| Asesiad Effaith | Amcanion yr ACI |
|---|---|
| Iechyd | 1 a 2 |

## Datblygu Economaidd

1.7.9 Bydd SDC yn cael effaith bosibl ar yr economi. Mae amcanion economaidd wedi'u cynnwys yn Fframwaith yr ACI i sicrhau bod materion a chyfleoedd yn cael eu hystyried a'u nodi pan fo'n bosibl.

1.7.10 Mae Fframwaith yr ACI a'r cwestiynau cysylltiedig sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn sicrhau y rhoddir sylw i'r effeithiau ar ddatblygu economaidd, gan gynnwys cynyddu cyfleoedd cyflogaeth, hybu cynhwysiant economaidd a thwf, amrywiaeth a chystadleurwydd economaidd, yn ogystal â chyfleoedd trydydd sector wrth i SDC gael ei hasesu, gan gydnabod yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gall y system gynllunio eu cael ar y meysydd hyn.

1.7.11 Mae sut a lle yn yr ACI y bodlonwyd y gwahanol ofynion ar gyfer asesiadau o'r effeithiau ar yr economi yn bennaf fel a ganlyn:

| Asesiad Effaith | Amcan yr ACI |
|---|---|
| Datblygu Economaidd | 3 |

## 1.8 Prosesau'r ACI a SDC

1.8.1 Fel y disgrifiwyd yn gynharach, nodir proses yr ACI yn Ffigur 1-1. Yr adroddiad hwn yw Cam D y broses hon, Adroddiad yr ACI.

### Casglu Tystiolaeth, Cwmpasu'r ACI ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

1.8.2 Dechreuodd Cam A yr ACI (Cwmpasu) ddechrau 2020, ac roedd yn cynnwys mwy o gasglu tystiolaeth a dadansoddi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd, a gyd-blethwyd â thystiolaeth SDC. Yr Adroddiad Cwmpasu drafft ar gyfer yr ACI o SDC oedd un o'r camau cyntaf o ran ymgysylltu a chydweithio ar gyfer SDC. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu drafft rhwng 05 Mai a 31 Gorffennaf 2020. Hefyd, cynhaliwyd gweithdy ddechrau mis Mai 2020 gyda rhanddeiliaid yn cynrychioli'r amrywiaeth o brosesau asesu sydd i'w cynnwys yn yr ACI. Cyflwynwyd Adroddiad Cwmpasu yr ACI i randdeiliaid statudol i gael eu sylwadau, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill perthnasol neu rai â buddiant.

1.8.3 Roedd Cam A, 'Pennu'r Cyd-destun a'r Amcanion, Nodi'r Llinell Sylfaen a Phenderfynu ar y Cwmpas' yn cynnwys y bum dasg ganlynol (ac fe'u nodir yn y blychau isod):

- A1: Nodi polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill ac Amcanion yr ACI;
- A2: Casglu gwybodaeth sylfaenol;
- A3: Nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd;
- A4: Datblygu Fframwaith yr ACI; ac
- A5: Ymgynghori ar gwmpas yr ACI.

**Tasg A1: Nodi polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill ac Amcanion yr ACI**
Mae'r Rheoliadau AAS (Atodlen 2(1)) yn nodi:
*"(1) an outline of the contents, main objectives of the plan or programme and relationship with other relevant plans and programmes; … (5) the environmental protection objectives, established at international (European) community or national level, which are relevant to the plan or programme…and the way those objectives and any environmental considerations have been taken into account during its preparation".*

**Tasgau A2 ac A3: Casglu gwybodaeth sylfaenol a nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd**
Mae'r Rheoliadau AAS (Atodlen 2) yn nodi:
*"(2) the relevant aspects of the current state of the environment and the likely evolution thereof without implementation of the plan or programme; (3) the environmental characteristics of areas likely to be significantly affected; (4) any existing environmental problems which are relevant to the plan or programme including, in particular, those relating to any areas of a particular environmental importance, such as areas designated pursuant to Directives 79/409/EEC… and the Habitats Directive."*

**Tasg A4: Datblygu Fframwaith yr ACI**
Yn seiliedig ar y data sylfaenol a materion a chyfleoedd allweddol ar gyfer ardal y Cynllun, dylid paratoi Fframwaith ACI sy'n cynnwys Amcanion sydd wedi'u cysylltu yn eu hanfod i'r data sylfaenol a materion a chyfleoedd. Mae'n bwysig bod Amcanion yr ACI a fydd yn cael eu defnyddio yn gyfredol ac yn berthnasol ar gyfer ardal y cynllun. Mae Fframwaith yr ACI yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried effeithiau ac opsiynau amgen cynlluniau, rhaglenni a pholisïau.
Mae Fframwaith yr ACI a ddeilliodd o Adroddiad Cwmpasu'r ACI yn ystyried y llinell sylfaen cynaliadwyedd presennol yng Nghymru a'r materion cynaliadwyedd allweddol. Bydd pob cynnig yn SDC yn cael ei asesu yn erbyn pob un o amcanion y Fframwaith hwn i nodi eu heffeithiau tebygol ar gynaliadwyedd o ran esblygiad tebygol y llinell sylfaen yn absenoldeb y cynllun.

**Tasg A5: Ymgynghori ar gwmpas yr ACI**
Dylid ymgynghori ar ganlyniadau Tasgau A1, A2, A3 ac A4 ymgyngoreion statudol Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw, o leiaf.

1.8.4 Yr Adroddiad Cwmpasu Terfynol (Hydref 2020)[16] yw cam cychwynnol yr ACI. Mae'n dilyn dull integredig a luniwyd trwy ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid ac yn dilyn y dull a nodir yn y canllawiau cyhoeddedig[17], sy'n:

- Pennu cwmpas a lefel manylder yr ACI;
- Nodi cynlluniau, polisïau, rhaglenni a mentrau perthnasol a fydd yn hysbysu proses yr ACI a SDC;
- Nodi gwybodaeth berthnasol am amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, ac amgylcheddol presennol ac a ragwelir yn y dyfodol yng Nghymru ar raddfa genedlaethol;
- Nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol; a
- Chyflwyno fframwaith ar gyfer yr ACI, yr arfarnwyd SDC yn ei erbyn.

1.8.5 Mae ymatebion i'r sylwadau a gafwyd a sut y maent wedi dylanwadu ar y diwygiadau i'r ACI, wedi eu nodi yn Atodiad C.

## 1.9 Sut y cynhaliwyd yr ACI

### Cwmpas Daearyddol

1.9.1 Ysgogwyd cwmpas daearyddol yr ACI gan gwmpas daearyddol SDC h.y. Cymru gyfan a hyd at bwynt isaf cymedrig y gorllanw. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn gosod y cyd-destun polisi o bwynt uchaf cymedrig y gorllanw. Mae'r berthynas rhwng cynlluniau morol a chynlluniau defnydd tir o dan Ddeddf y Môr[18] yn dangos gorgyffwrdd cyffredin yn y parth rhynglanwol. Mae maint daearyddol materion sylfaenol penodol yn golygu y bydd cysylltiad agos rhyngddynt ag ardaloedd cyfagos o Loegr ac o bosibl ag Iwerddon yn ogystal â'r amgylchedd morol. Mae hyn hefyd yn golygu bod effeithiau daearol a morol yn bosibl a bod angen eu hystyried.

[16]Arcadis (2020 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Ar gael yn: https://llyw.cymru/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-adroddiad-cwmpasu [Gwelwyd 12.02.21]
[17]ODPM (2005) Canllaw Ymarferol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gymhwyso Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC "ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd". Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/7657/practicalguidesea.pdf [Gwelwyd: 22.02.21]
[18] Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf y Môr). Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/contents [Gwelwyd: 12.02.21)

## Cwmpas Amser yr ACI

1.9.2 Bwriedir i SDC bennu gweledigaeth 20 mlynedd mwy hirdymor ar ôl ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Adlewyrchir yr amserlen hon yn yr ACI. Os yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau cynaliadwyedd o SDC a fyddai'n para yn hwy na hyn, mae'r rhain wedi'u hystyried.

## Fframwaith yr ACI

1.9.3 Un o allbynnau allweddol Cam Cwmpasu'r ACI oedd Fframwaith yr ACI. Er nad yw'r Rheoliadau AAS yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio amcanion cynaliadwyedd, maent yn offeryn cydnabyddedig ar gyfer cynnal ACI. Fframwaith yr ACI (Tabl 2.3) yw'r prif offeryn asesu a ddefnyddiwyd yn ystod yr ACI ac mae'n cynnwys cyfres o 13 o Amcanion sy'n rhoi sylw i faterion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Defnyddiwyd yr Amcanion hyn i brofi perfformiad SDC o ran cynaliadwyedd. Mae pob Amcan yn cysylltu â'r wybodaeth sylfaenol, materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol yng Nghymru, a chynlluniau, rhaglenni a strategaethau perthnasol eraill syn berthnasol i SDC. Sefydlwyd y rhain yn ystod y cam cwmpas a dyma sail yr asesiad ers hynny. Mae Fframwaith yr ACI hefyd yn ymgorffori gofynion yr holl asesiadau integredig eraill.

1.9.4 Mae Atodlen 2 y Rheoliadau AAS yn rhestru'r deuddeg pwnc canlynol y mae angen eu hystyried mewn unrhyw AAS, yn ogystal â'r rhyngberthynas rhwng y pynciau hyn.

| *Y Rheoliadau AAS (Atodlen 1) Gofynion i ystyried problemau a phynciau amgylcheddol yn ystod AAS* |
|---|
| Mae'r wybodaeth i'w darparu mewn AAS yn cynnwys:<br>*"4. Any existing environmental problems which are relevant to the plan or programme including, in particular, those relating to any areas of a particular environmental importance, such as areas designated pursuant to Council Directive 79/409/EEC on the conservation of wild birds (8) and the Habitats Directive; …*<br>*6. The likely significant effects on the environment, including short, medium and long term effects, permanent and temporary effects, positive and negative effects, and secondary, cumulative and synergistic effects, on issues including biodiversity, population, human health, fauna, flora, soil, water, air, climatic factors, material assets, cultural heritage including architectural and archaeological heritage, landscape and the interrelationship between the above factors;…"* |

1.9.5 Cafodd y pynciau a restrir yn Atodlen 2(6) eu cynnwys yn Amcanion yr ACI a nodir yn Fframwaith yr ACI (gweler Tabl 2.3). Mewn rhai achosion, caiff sawl pwnc eu cynnwys mewn un Amcan ACI, fel cynnwys pynciau bioamrywiaeth, ffawna a fflora yn Amcan 11 yr ACI 'Hyrwyddo cadwraeth a gwelliant bioamrywiaeth, geoamrywiaeth ac ecosystemau'. Mewn achosion eraill, mae Amcanion yr ACI yn canolbwyntio mwy ar un pwnc AAS penodol, fel Amcan 8 yr ACI 'Diogelu a gwella ansawdd aer', sy'n canolbwyntio ar bwnc ansawdd aer. Mae'r pwnc 'asedau perthnasol' yn amrywiol ac ystyrir ei fod yn cynnwys yr holl asedau naturiol ac adeiledig yng Nghymru, fel seilwaith trafnidiaeth, seilwaith adeiledig ac adeiladau. Mae elfennau amrywiol asedau perthnasol yn bresennol ym mhob un, bron â bod, o Amcanion yr ACI. Pan fo Atodlen 2(6) yn gwneud y 'rhyngberthynas rhwng y ffactorau uchod' yn ofynnol, caiff hyn ei gynnwys yn yr asesiad o'r effeithiau cyfunol a synergyddol ym Mhennod 2 yn ogystal ag yn fwy cyffredinol yn yr holl asesiadau, fel pan fo asesiadau yn nodi effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil datblygu a goblygiadau hyn i iechyd pobl neu fioamrywiaeth (e.e. gallai datblygiad newydd arwain at gynnydd yn y traffig ar y ffyrdd, a allai waethygu ansawdd yr aer, a gallai hyn gael effaith andwyol bosibl ar iechyd pobl ac unrhyw gynefinoedd cyfagos sy'n sensitif i waddodi nitrogen atmosfferig).

1.9.6 Mae Amcanion yr ACI yn mynd y tu hwnt i bynciau AAS ac yn cymryd i ystyriaeth hefyd elfennau cymdeithasol ac economaidd nad ydynt yn cael sylw o bwys yn y Rheoliadau AAS ond sy'n elfen allweddol o'r AC ac asesiadau effaith deddfwriaethol ac anneddfwriaethol eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr ACI.

1.9.7 Bwriad yr ACI yw galluogi egwyddorion datblygu cynaliadwy i gael eu hymwreiddio yn SDC o'r cychwyn cyntaf. Bwriedir bod y fframwaith arfarnu amcanion a'r cwestiynau sy'n cynorthwyo penderfyniadau yn ymwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun yr hyn y gallai

SDC ei gyflawni o bosibl. Cyflawnwyd pob cam o’r ACI gan ddefnyddio proses ailadroddol, gydag adborth a chyfathrebu rhwng timau SDC a’r ACI. Mae’r broses hon yn ei gwneud yn bosibl i SDC ddilyn cyfeiriad mwy cynaliadwy o ran ei datblygiad. Mae’r arfarniadau yn feintiol yn bennaf ac fe’u cynhelir gan ymarferwyr ACI proffesiynol.

1.9.8 Mae’r dull yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau AAS ac AC, yn ogystal â gofynion yr asesiadau effaith statudol ac anneddfwriaethol eraill sydd wedi’u cynnwys yn yr ACI (fel y disgrifir uchod yn Adrannau 1.4 a 1.5).

## Dull

1.9.9 Mae’r dull wedi cynnwys y camau canlynol (gweler Ffigur 1-1 a’r blychau isod):

- B1: Profi amcanion y cynllun yn ôl amcanion yr ACI;
- B2: Datblygu opsiynau'r cynllun;
- B3: Darogan effeithiau (gan gynnwys effeithiau cyfunol ac eilaidd) opsiynau ac opsiynau amgen y cynllun;
- B4: Arfarnu effeithiau (gan gynnwys effeithiau cyfunol ac eilaidd) opsiynau ac opsiynau amgen y cynllun;
- B5: Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau negyddol a sicrhau’r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl; a
- B6: Cynnig mesurau i fonitro effeithiau arwyddocaol gweithredu’r cynllun.

**Tasg B1: Profi amcanion y cynllun yn ôl Amcanion yr ACI**
Dylid profi Amcanion SDC i wirio eu bod yn cyd-fynd â phob Amcan yr ACI, a’u heffeithiau tebygol arnynt, a nodir opsiynau neu gyfleoedd eraill i fireinio opsiynau.

**Tasg B2: Datblygu’r opsiynau**
Mae Tasg B2 yn cynnwys nodi ac ystyried gwahanol opsiynau a fyddai’n helpu i gyfrannu at Amcanion yr ACI. Gellir ystyried hyn fel proses o nodi ac ystyried opsiynau a ffefrir, a dewisiadau yn hytrach na’r opsiynau hynny, yn y Cynllun. Yng ngoleuni effeithiau tebygol pob opsiwn, fel sy’n cael ei nodi a’i ddisgrifio drwy’r broses ACI ailadroddol, mae Llywodraeth Cymru wedi ei pharatoi i fireinio a dewis opsiynau ar gyfer y Cynllun er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy.

**Tasgau B3 a 4: Darogan ac arfarnu effeithiau’r Cynllun**
Mae Tasgau B3 a B4 proses yr ACI yn cynnwys helpu i ddatblygu’r Cynllun trwy ddarogan ac arfarnu ei effeithiau ar gynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ardal y Cynllun. Mae canllawiau Llywodraeth yn nodi y dylid mesur effeithiau posibl, neu wneud dyfarniad pan nad yw hyn yn bosibl.
Caiff effeithiau cynaliadwyedd eu darogan, gyda phwyslais ar eu tebygolrwydd, eu maint, eu hyd, eu hamseriad a pha un a ydynt yn gadarnhaol neu’n niweidiol. Caiff y rhagfynegiadau hyn eu harfarnu wedyn gan ddefnyddio barn broffesiynol i nodi effeithiau cyfunol, synergyddol ac eilaidd, yn ogystal â gwrthdrawiadau a chyfyngiadau polisïau’r Cynllun.

**Tasg B5: Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau negyddol a sicrhau’r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl**
Mae lliniaru yn golygu rhoi mesurau ar waith i atal, lleihau neu fantoli unrhyw effeithiau cynaliadwyedd niweidiol a nodir. Gallai mesurau lliniaru hefyd gynnwys argymhellion ar gyfer cynyddu effeithiau cadarnhaol. Fodd bynnag, osgoi effeithiau niweidiol ddylai fod y flaenoriaeth gyntaf. Dim ond pan fydd pob opsiwn amgen a allai osgoi effaith niweidiol gael ei ystyried dylid ceisio lliniaru i leihau’r effaith niweidiol.

**Tasg B6: Cynnig mesurau i fonitro effeithiau arwyddocaol gweithredu'r cynllun**
Dylid paratoi a chynnig system fonitro a fyddai, pe bai'n cael ei mabwysiadu a'i dilyn, yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod SDC yn arwain at yr effeithiau a ragwelwyd a bod mesurau osgoi, lliniaru neu wneud iawn a fabwysiadwyd yn gweithio fel y bwriadwyd. Mae hyn yn cynnig y cyfle i ddiwygio mesurau i'w gwneud yn fwy effeithiol.

1.9.10 Profwyd Gweledigaeth ac Uchelgeisiau SDC i ganfod a ydynt yn cyd-fynd â Fframwaith yr ACI er mwyn nodi bylchau posibl neu achosion posibl o wrthdaro (B1). Aseswyd y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno yn SDC yn fanwl (B3 a B4) ar gyfer eu heffeithiau posibl ar bob un o Amcanion yr ACI.

1.9.11 Mae Tabl 1.4 a Thabl 1.5 yn nodi'r dull sgorio ar gyfer pob un o'r asesiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

1.9.12 Mae asesiadau yn yr ACI yn dilyn dull integredig. Mae'n dibynnu'n bennaf ar Fframwaith yr ACI, sy'n nodi 13 o Amcanion yr ACI sydd, gyda'i gilydd, yn dod â'r gwahanol asesiadau effaith ynghyd. Mae'r asesiadau yn darogan ac yn arfarnu effeithiau cadarnhaol a negyddol mân a sylweddol (gan gynnwys effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a chronnol) pob un o Amcanion yr ACI. O'u rhoi yng nghyd-destun y saith nod llesiant, mae'r gwahanol feysydd i'w hystyried yn rhoi sylw i agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y dyfodol.

*Tabl 1.4: Allwedd Asesu ar gyfer ACI*

| Sgorio Asesiad | |
|---|---|
| ++ | Cadarnhaol cryf – yn debygol o arwain at gynnydd tuag at yr amcan (arwyddocaol) |
| + | Cadarnhaol mân – yn debygol o arwain at gynnydd cyfyngedig iawn tuag at yr amcan |
| O | Canlyniad niwtral |
| +/- | Ystod o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol posibl |
| ? | Canlyniad ansicr |
| - | Negyddol mân – yn debygol o fod yn niweidiol iawn i gyflawni'r amcan |
| -- | Negyddol cryf – yn debygol o fod yn niweidiol iawn i gyflawni'r amcan (arwyddocaol) |

*Tabl 1.5: Diffiniadau o Effeithiau Eilaidd, Cyfunol a Synergyddol*

| Math o Effaith | Diffiniad |
|---|---|
| Eilaidd (neu anuniongyrchol) | Effeithiau nad ydynt yn ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun (SDC) ond sy'n digwydd i ffwrdd o'r effaith wreiddiol neu o ganlyniad i lwybr cymhleth. |
| Cyfunol | Effeithiau sy'n codi, er enghraifft, pan fo sawl datblygiad i gyd yn cael effeithiau ansylweddol ond yn cael effeithiau sylweddol gyda'i gilydd; neu pan fo sawl effaith unigol y cynllun (e.e. sŵn, llwch a gweledol) yn cael effaith gyfunol. |
| Synergyddol | Effeithiau yn rhyngweithio i gynhyrchu cyfanswm effaith sy'n fwy na swm yr effeithiau unigol. |

*Ffynhonnell: Canllaw Ymarferol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, ODPM*

# 2 Cam Cwmpasu'r ACI

## 2.1 Y berthynas rhwng SDC a Chynlluniau a Rhaglenni eraill

2.1.1 Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau a rhaglenni eraill a allai effeithio ar baratoad SDC er mwyn cyfrannu at ddatblygiad yr ACI a SDC. Cyflwynir y canlyniadau llawn yn Atodiad A. Mae SDC yn ddogfen genedlaethol felly bydd y cynlluniau a'r rhaglenni eraill sy'n berthnasol yn canolbwyntio ar lefel genedlaethol, y DU neu ryngwladol yn bennaf. Bydd SDC, yn ei thro, yn ceisio dylanwadu ar gynllunio lefel is-genedlaethol yng Nghymru. Nododd Adroddiad Cwmpasu'r ACI (Mai 2020)[19] restr helaeth o gynlluniau a rhaglenni perthnasol a sut y dylai SDC a'r ACI gymryd y rhain i ystyriaeth.

2.1.2 Roedd hyn yn cynnwys:

- Nodi unrhyw amcanion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol neu economaidd y dylid eu hadlewyrchu ym mhroses yr ACI;
- Nodi unrhyw ddata sylfaenol sy'n berthnasol i'r ACI;
- Nodi unrhyw ffactorau a allai ddylanwadu ar baratoi'r ddogfen, er enghraifft materion cynaliadwyedd;
- Nodi unrhyw amcanion neu nodau a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad SDC; a
- Phenderfynu a oes achosion posibl o wrthdaro neu heriau eglur rhwng cynlluniau, rhaglenni neu amcanion amgylcheddol eraill a'r SDC newydd.

2.1.3 Mae llawer o'r cynlluniau, y polisïau a'r rhaglenni a nodwyd yn berthnasol i SDC a'r ACI. Mae'r dogfennau canlynol, y mae SDC yn rhannu nodau ac amcanion cyffredin â nhw, o bwysigrwydd arbennig yn genedlaethol:

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040[20];
- Symud Cymru Ymlaen 2016-2021;
- Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol;
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel;
- Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd.
- Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11;
- Llywodraeth Cymru (2020): Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru[21]
- Polisi Adnoddau Naturiol Cymru, sy'n cynnwys egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
- Y Cynllun Gweithredu Adfer Natur; a
- Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru[22].

2.1.4 Mae natur ailadroddol yr ACI yn caniatáu i gynlluniau, polisïau a rhaglenni newydd a gyhoeddir wrth i SDC ddatblygu gael eu cymryd i ystyriaeth, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040.

2.1.5 Ceir crynodeb o'r dogfennau a adolygwyd, a'r prif ganfyddiadau, yn Nhabl 2.1.

---

[19] Arcadis (2020) Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Ar gael yn: https://llyw.cymru/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-adroddiad-cwmpasu [Gwelwyd 12.02.21]
[20] Llywodraeth Cymru (2021) Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040 [Gwelwyd: 26.02.21]
[21] Llywodraeth Cymru (2020) Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yng Nghymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cynllun-hyrwyddo-cydraddoldeb-rhwng-y-rhywiau.pdf [Gwelwyd: 12.02.21]
[22] Llywodraeth Cymru (2021) Cynllunio Morol. Ar gael yn: https://llyw.cymru/cynllunio-morol [Gwelwyd: 12.02.21]

*Tabl 2.1: Crynodeb o'r mathau o ddogfennau a adolygwyd. Cyflwynir y canlyniadau llawn yn Atodiad A.*

| Lefel | Crynodeb |
|---|---|
| Cynlluniau a Rhaglenni Rhyngwladol ac Ewropeaidd | Cynhaliwyd adolygiad o Gonfensiynau Rhyngwladol a Chyfarwyddebau Ewropeaidd allweddol a allai ddylanwadu ar ddatblygiad SDC a'r ACI. Caiff Cyfarwyddebau Ewropeaidd eu trosi i ddeddfwriaeth genedlaethol ym mhob Aelod-wladwriaeth unigol ac, felly, dylai fod effaith ddiferu o'r egwyddorion allweddol a chymhwysiad i'r dogfennau cynllunio cenedlaethol perthnasol. |
| Cynlluniau a Rhaglennu DU Gyfan | Cynhaliwyd adolygiad o gyhoeddiadau perthnasol gan sefydliadau sy'n cynnwys, er enghraifft, yr Adran Drafnidiaeth, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn amlinellu'r cynlluniau gweithredu a'r strategaethau ar draws ystod o feysydd pwnc, er enghraifft y Strategaeth Ansawdd Aer ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a Chynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol y DU yn ogystal â dogfen *UK Climate Change Risk Assessment 2017 Evidence Report* y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (2017) (yn enwedig y Crynodeb i Gymru). Mae angen ystyried amcanion y cynlluniau hyn, yn ogystal â rhai o'r heriau y maent yn eu codi, fel sy'n briodol. |
| Cynlluniau a Rhaglenni Cymru | Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau a luniwyd ar y lefel genedlaethol yng Nghymru. Caiff llawer o'r rhain eu llunio gan Lywodraeth Cymru ac maent yn rhoi sylw penodol i faterion strategol fel yr economi; trafnidiaeth; iechyd; diogelwch; cymunedau cynaliadwy; tai; cyflogaeth; y Gymraeg; a diogelwch amgylcheddol.<br><br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn nodi saith nod llesiant i Gymru. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hamcanion llesiant cychwynnol, y bwriedir iddynt sicrhau bod ei chyfraniad at y saith nod llesiant mor fawr â phosibl. Mae cyrff cyhoeddus penodedig eraill hefyd wedi cyflwyno eu hamcanion llesiant ar gyfer cyfrannu at y nodau llesiant.<br><br>• Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2016, ynghyd â'r Polisi Adnoddau Naturiol, wedi'u cynnwys. Mae'r ddau'n canolbwyntio ar adnoddau naturiol Cymru, ac mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn cynnig asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r Polisi Adnoddau Naturiol yn ceisio cyflwyno'r blaenoriaethau cenedlaethol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae'r dogfennau hyn, yn arbennig, yn ddogfennau graddfa genedlaethol allweddol y bydd SDC yn eu defnyddio. Maent yn cynnwys nodau cyffredin a rhennir amrywiaeth o dystiolaeth rhyngddynt. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys prif ddylanwadau cynlluniau lefel ryngwladol a'r DU gyfan drwy'r 'effaith ddiferu'. Dylent hefyd gynnig pwyslais strategol i Gymru. Trwy nodi'r themâu hyn a'u cynnwys yn SDC gellir sicrhau synergeddau gyda dogfennau perthnasol eraill. Nodir y cyhoeddwyd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol interim yn 2019, sy'n nodi sut y bydd yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn datblygu yn 2020.<br><br>• Mae'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru (2020) yn gwneud ymrwymiad i gydnabod y ffyrdd presennol y mae strwythurau pŵer, ar sail ffactorau fel rhywedd, hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oedran a ffydd yn rhyngweithio â'i gilydd, ac yn creu anghydraddoldeb, camwahaniaethu a gormes. Bydd angen i SDC sicrhau bod trafnidiaeth yng Nghymru yn hwyluso annibyniaeth economaidd pawb gan gynnwys menywod a phobl anneuaidd, gan gydnabod pob math o waith di-dâl ac â thâl; yn hwyluso rhyddid menywod i fyw eu bywydau fel y maent yn dewis; yn herio unrhyw strwythurau pŵer presennol a allai fod yn rhoi menywod dan anfantais; wedi ymrwymo i ganlyniadau cyfartal i bob menyw, dyn a pherson anneuaidd; yn gwneud safbwynt rhywedd yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau; yn agored, yn dryloyw ac yn croesawu craffu trwy lens rhywedd; yn monitro cynnydd tuag at gydraddoldeb; ac yn arwain drwy esiampl i sicrhau cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi sut y bydd Cymru yn rhoi sylw i Gynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r targedau bioamrywiaeth Aichi[23] cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi camau y gellir eu cymryd yn y byrdymor ac yn pennu trywydd i gyflawni ymrwymiadau tymor hwy y tu hwnt i 2020. Mae'r ymrwymiadau a'r camau hyn yn berthnasol i Arfarniad Cynaliadwy Integredig SDC ac wedi hysbysu Amcanion Fframwaith yr ACI. |

[23] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. *Nature Recovery Action Plan*. https://www.biodiversitywales.org.uk/Nature-Recovery-Action-Plan [Gwelwyd: 12.02.21]

## 2.2 Amodau Sylfaenol a Materion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol

2.2.1 Mae adolygu a dadansoddi'r amodau sylfaenol (gan gynnwys amodau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) yn nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol. Mae deall amodau sylfaenol hefyd yn hanfodol er mwyn gallu darogan, arfarnu a monitro effeithiau SDC yn gywir. Er enghraifft, mae'n bosibl darogan ac arfarnu effeithiau SDC ar yr amgylcheddol naturiol dim ond pan fo dealltwriaeth eglur o gyflwr presennol yr amgylchedd naturiol.

2.2.2 Gan fod SDC yn ddogfen ar raddfa genedlaethol, mae gwaith casglu tystiolaeth sylfaenol wedi canolbwyntio ar ddata ar raddfa genedlaethol gyda rhai data ar raddfa is-genedlaethol ychwanegol pan fo'n briodol. Mae'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Disgrifio cyflwr presennol llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru;
- Deall tueddiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol a allai effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru; a
- Defnyddio'r wybodaeth hon i nodi problemau a chyfleoedd presennol y gallai SDC ddylanwadu arnynt.

2.2.3 Disgrifiwyd y llinell sylfaen amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol drwy'r dulliau canlynol:

- Adolygiad o gynlluniau, strategaethau a rhaglenni rhyngwladol, DU a chenedlaethol (Cymru) perthnasol;
- Ymchwil data yn seiliedig ar gyfres o setiau data sylfaenol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, canllawiau, argymhellion ymgynghori blaenorol o ACau tebyg a'r data sydd ar gael ar gyfer Cymru; a
- Dangosyddion Cenedlaethol Cymru[24], sy'n darparu data ar raddfa genedlaethol ar draws 44 o ddangosyddion o gynnydd yn erbyn y saith nod llesiant.

2.2.4 Un ffynhonnell allweddol o wybodaeth yw'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2016. Cyhoeddwyd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol interim yn 2019, sy'n nodi sut y bydd yr ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn datblygu. Mae ffynonellau eraill yn cynnwys, er enghraifft, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Stats Cymru. Cyflwynir canlyniadau llawn yr adolygiad o ddata sylfaenol a nodi'r materion cynaliadwyedd allweddol yn Atodiad B ac fe'u crynhoir yn Nhabl 2.2.

[24] Llywodraeth Cymru (2019) Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol. Ar gael yn: https://llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol [Gwelwyd: 12.02.21]

*Tabl 2.2: Materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol yng Nghymru a nodwyd yn ystod yr adolygiad o amodau sylfaenol. Diweddarwyd y rhain yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd wrth ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu yr ACI (Mai - Gorffennaf 2020)*

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt |
|---|---|---|
| 1. Cymru lewyrchus | Mae economi Cymru wedi'i halinio'n agos ag economi gweddill y DU. Bu rhywfaint o symudiad at gyflogaeth sector gwasanaethu a dirywiad i ddiwydiant trwm; mae gan Gymru sector gweithgynhyrchu amrywiol o hyd.<br>Ceir gwahaniaethau daearyddol eglur mewn gweithgarwch cyflogaeth yng Nghymru gyda phocedi o amddifadedd uwch na'r cyfartaledd yng nghymoedd y de ac yn rhai o drefi arfordirol y gogledd.<br>Ymysg y rhesymau allweddol am berfformiad economaidd gymharol wael mae:<br>• Lefelau sgiliau cymharol isel a lefelau cyrhaeddiad addysgol gwael (er eu bod yn gwella), yn enwedig yn yr ardaloedd mwy difreintiedig o'r wlad.<br>• Mae natur wledig y wlad i raddau helaeth yn arwain at ardaloedd trefol cymharol fach y byddai ganddynt gysylltiad cryfach ag effeithiau cydgrynhoi fel arall.<br>• Ceir cyfran gymharol uchel o bobl hŷn sydd o oedran ymddeol.<br>• Ceir lefelau uchel o dagfeydd sy'n cael effeithiau economaidd negyddol gan gynnwys yr effaith ar gynhyrchiant a chludo nwyddau.<br>Mae'r ddogfen *UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report* yn tynnu sylw at nifer o risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru o ran busnes. Gallai'r rhain gael effeithiau ar nifer o ffactorau gan gynnwys iechyd a llesiant, cyflogaeth a'r economi. Gellir crynhoi materion o'r fath sy'n wynebu Cymru fel risgiau i fusnesau o lifogydd, colli lleoliadau arfordirol, prinder dŵr, llai o fynediad at gyfalaf, llai o gynhyrchiant oherwydd tarfu ar seilwaith, tarfu ar gadwyni cyflenwi a newidiadau i'r galw am nwyddau a gwasanaethau. Dylid cymryd y rhain i gyd i ystyriaeth yn SDC gan y byddant i gyd yn dylanwadu ar arferion defnyddwyr trafnidiaeth.<br>Mae'r cynllun addasu i newid hinsawdd, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd, yn nodi ymrwymiadau i ymateb i effeithiau newid hinsawdd yr ydym eisoes yn eu gweld a'r rhai yr ydym yn disgwyl eu gweld yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn ategu'r camau sy'n cael eu cymryd i ddatgarboneiddio economi Cymru a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth baratoi SDC a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.<br>Ceir problemau o ran darparu mynediad at ysgolion a chyflogaeth, yn enwedig gan fod y cyfleusterau hyn yn llawer mwy anodd eu cyrraedd trwy unrhyw fodd ac eithrio | Mae gan SDC ran i'w chwarae wrth sicrhau twf cytbwys a chynaliadwy, a'r newid i economi defnydd adnodd isel (gan gynnwys carbon isel) i ganiatáu i'r boblogaeth fyw o fewn terfynau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i hybu trafnidiaeth nwyddau gynaliadwy.<br>Mae SDC yn cynnig cyfle i'r economi gael ei llywio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Gall hyn fod trwy hybu seilwaith teithio cynaliadwy a gwella mynediad at ganolfannau cyflogaeth. Gall hefyd gynnig fframwaith sy'n fwy ymatebol i anghenion yr economi a chefnogi sectorau newydd sy'n dod i'r amlwg a chefnogi newid rhai presennol trwy greu a gwella rhwydweithiau. Hefyd, gall helpu i lywio'r broses o greu amgylchedd sy'n ddeniadol i fewnfuddsoddiad ac yn annog mynediad cynaliadwy at swyddi. Yn yr un modd, gall SDC hwyluso gwelliannau i fynediad at addysg.<br>Gallai SDC geisio helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi ac anghydraddoldeb trwy fynediad at well addysg, gwell cysylltedd rhwng cymunedau a mynediad at swyddi a'r farchnad swyddi.<br>Ar y cyfan, gallai SDC helpu i sicrhau'r cydbwysedd pwysig o welliant economaidd a chymdeithasol sydd hefyd yn gynaliadwy ac yn parchu amgylchedd naturiol a diwylliannol gwerthfawr y wlad.<br>Ceir cyfle i SDC gefnogi cyflogaeth trwy hyrwyddo a chefnogi twristiaeth gweithgareddau, gan gynnwys dynodi'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol fel cyfleuster trafnidiaeth strategol i annog twristiaeth gweithgareddau.<br>Ceir cyfle i hybu'r defnydd o deithio llesol i ysgolion cynradd ac uwchradd trwy gynlluniau cerdded i'r ysgol.<br>Ceir cyfle hefyd trwy well cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus i alluogi pobl i gael mynediad at amrywiaeth ehangach o opsiynau cyflogaeth ac addysg. |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt |
|---|---|---|
| | car preifat yng Nghymru wledig. Dylid nodi, yn unol ag Atodiad B, bod bylchau data o ran gwybodaeth fanwl am fynediad at ysgolion. | Ceir cyfle i SDC leihau tagfeydd trwy hybu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus trwy ail-neilltuo lle ar y ffyrdd a dulliau trafnidiaeth cynaliadwy integredig. |
| 2. Cymru gydnerth | **Ansawdd Aer**<br>• Mae ansawdd aer yng Nghymru yn dda iawn yn gyffredinol, gan adlewyrchu i raddau helaeth ei natur wledig a'i hamgylchedd naturiol o ansawdd uchel. Fodd bynnag, ceir diffyg cydymffurfiad â thargedau ar gyfer nifer o lygryddion allweddol sy'n peri risg i iechyd pobl ac i'r amgylchedd naturiol. Mae hyn yn digwydd yn fwyaf amlwg mewn ardaloedd trefol sy'n agos i ffyrdd prysur.<br>• Mae 90% o gynefinoedd lled naturiol yng Nghymru sy'n sensitif o ran nitrogen yn destun gwaddodi nitrogen ar lefel sy'n uwch na chyfyngiadau llwyth critigol; mae trafnidiaeth yn ffynhonnell sylweddol o lygredd nitrogen.<br>• Mae trafnidiaeth ar y ffyrdd yn gyfrifol am bron un rhan o dair o'r holl allyriadau $NO_2$ yn y DU a thrafnidiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o lygredd aer yn y DU (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018).<br>**Llygredd Sŵn**<br>• Mae sŵn ffyrdd wedi'i ganolbwyntio o gwmpas yr M4 yn y de a'r ffyrdd 'A' cyfagos. Mae'r A55 a'r ffyrdd 'A' cyfagos yn y gogledd, a'r A483 yn y canolbarth, hefyd yn cyfrannu at lefelau uchel o lygredd sŵn. Mae llygredd sŵn o reilffyrdd yn bresennol yn y de o gwmpas Caerdydd yn bennaf (data o 2018).<br>**Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna a Chydnerthedd Ecosystemau**<br>• Mae gan Gymru amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol gan gynnwys cynrychiolaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Fodd bynnag, mae cyflwr nodweddion rhywogaeth mewn safleoedd dynodedig Ewropeaidd yng Nghymru a chyflwr cynefinoedd â blaenoriaeth yng Nghymru yn dal i fod yn anffafriol ar y cyfan.<br>• Mae bioamrywiaeth ddaearol, dŵr croyw a morol dan fygythiad o ddatblygiad seilwaith trafnidiaeth, llygredd a newid hinsawdd, ac mae pob un o'r rhain yn effeithiau a all ddod o'r rhwydwaith trafnidiaeth.<br>• Gall hyd yn oed colled cynefin cymharol fach, darnio ac effeithiau uniongyrchol prosiect ffordd unigol, o'u hychwanegu at effeithiau prosiectau a gweithgareddau eraill o'r gorffennol, y presennol ac yn y dyfodol y gellir eu rhagweld yn rhesymol, gyfrannu at effeithiau sylweddol mewn ardal. Dylid | **Ansawdd Aer**<br>• Mae'r system drafnidiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at lygredd aer ar hyn o bryd. Mae cyfle i leihau'r effaith negyddol hon ar ansawdd aer o bosibl drwy leihau'r pellter sy'n cael ei deithio ac annog moddau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Gallai polisïau dylunio a thirweddu cynaliadwy hefyd helpu i gynnig cyfleoedd ar gyfer amsugno rhai llygryddion.<br>**Llygredd Sŵn**<br>• Gall SDC gael effaith ar lygredd sŵn trwy sicrhau bod penderfyniadau yn seiliedig ar yr egwyddor o leihau allyriadau trwy newid i weithredu'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy. Gallai polisïau dylunio a thirweddu cynaliadwy helpu i leihau effaith sŵn ac effaith bosibl trafnidiaeth ar ardaloedd tawel.<br>**Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna a Chydnerthedd Ecosystemau**<br>• Gall SDC fod o fudd i fioamrywiaeth a'i gwella trwy lywio lleoliad datblygiad seilwaith trafnidiaeth newydd a'r modd y mae'n digwydd. Mae'n cynnig cyfleoedd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella drwy'r system drafnidiaeth, nid yn unig o ran safleoedd gwarchodedig ond hefyd o ran bioamrywiaeth a chysylltedd yn gyffredinol. Gallai manteision eraill gynnwys rheoli cynefinoedd yn well; strwythurau newydd (e.e. gallai pontydd a thwnelau ddarparu cynefinoedd i rai rhywogaethau, fel ystlumod); a chreu cynefin.<br>• Ceir cyfle i SDC hybu seilwaith gwyrdd ychwanegol yn rhan o gynigion trafnidiaeth yn y dyfodol i gynorthwyo gwaith creu lleoedd yn ogystal â bioamrywiaeth, fflora a ffawna.<br>**Hinsawdd, Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol** |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt |
|---|---|---|
| | ystyried pob math perthnasol o brosiect a gweithgaredd yn y dyfodol (h.y. nid prosiectau ffyrdd eraill yn unig) gan gynnwys datblygiad a ysgogir.<br>**Hinsawdd, Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**<br>• Mae effeithiau newid hinsawdd yn cynyddu ac mae addasu a sicrhau cydnerthedd yn erbyn ei effeithiau yn rheidrwydd cynyddol. Yn nodedig, mae perygl llifogydd yn broblem sylweddol yng Nghymru gan gynnwys llifogydd arfordirol, afonol a dŵr wyneb a allai effeithio ar seilwaith trafnidiaeth. Caiff hyn ei waethygu gan gynnydd yn nifer y digwyddiadau tywydd eithafol, sy'n golygu bod eiddo a busnesau mewn perygl cynyddol. Gall tarfu effeithio'n anghymesur ar gymunedau â llai o opsiynau trafnidiaeth ac sy'n llai cydnerth.<br>• Bydd newid hinsawdd yn effeithio ar Gymru mewn ffyrdd eraill, nid llifogydd yn unig, fel digwyddiadau tywydd mwy eithafol, cynnydd mewn tywydd stormus, tymereddau uchaf ac isaf uwch ac is, sychderau mwy difrifol a chyfraddau gwaeth o erydu arfordirol. Bydd newid hinsawdd hefyd yn effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau ledled Cymru.<br>**Daeareg a Phriddoedd**<br>• Yn y dyfodol, gallai peryglon daearegol newid fel ymateb i newid hinsawdd. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, erydu arfordirol, tirlithriadau a llygredd o hen safleoedd cloddio. Mae hyn yn peri risgiau sylweddol i'r system drafnidiaeth.<br>• Mae'r priddoedd o'r ansawdd gorau a mwyaf cynhyrchiol yn adnodd prin a chyfyngedig yng Nghymru ac mae ansawdd pridd wedi dirywio dros amser ym mhob cynefin. Dim ond 30% o arwynebedd pridd mawn Cymru a ystyrir i fod mewn 'cyflwr da'. Mae hyn yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, cymeriad tirwedd, twristiaeth, cynhyrchiant amaethyddol a chydnerthedd yn erbyn newid hinsawdd. Mae uwchbridd, yn enwedig priddoedd mawnog yng Nghymru yn ddalfa garbon fawr y mae angen eu diogelu.<br>**Amgylchedd Dŵr**<br>• Nid yw ansawdd cyrff dŵr Cymru yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o hyd, a dim ond 42% oedd o statws ecolegol da yn 2014. Gall gweithgareddau trafnidiaeth gyfrannu at ansawdd dŵr gwael.<br>• Yn llawer o afonydd Cymru, mae llifoedd yn arbennig o agored i newid hinsawdd gan eu bod yn tueddu i godi a gostwng yn gyflym mewn ymateb i'r glaw. Gallai llifoedd cynyddol yn ystod y gaeaf hefyd roi mwy o bwysau ar | • Mae gan SDC ran sylweddol i'w chwarae o ran addasu i newid hinsawdd a chydnerthedd yn ei erbyn. Mae llifogydd ac erydu arfordirol yn feysydd allweddol lle caiff effeithiau newid hinsawdd eu teimlo'n lleol a gall SDC helpu i gynnig cyfarwyddyd ar leoliad a dyluniad datblygiad seilwaith i helpu i sicrhau bod y risg mor isel â phosibl. Mae hefyd yn gyfle i weithio ymhellach gyda phartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau rheoli ac amddiffyn rhag llifogydd fel rhan o annog rheolaeth gynaliadwy o dir ac ecosystemau, gan gynnwys y cyfle i gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) i leihau effaith cynlluniau newydd ar berygl llifogydd.<br>**Daeareg a Phriddoedd**<br>• Ceir cyfle i SDC lywio'r defnydd cynaliadwy o ddaeareg a phriddoedd Cymru yn y system drafnidiaeth o ran eu defnydd i adeiladu seilwaith trafnidiaeth.<br>• Gallai SDC hefyd helpu i osgoi risgiau yn y dyfodol trwy reoli neu osgoi peryglon daearegol trwy gynllunio'r system drafnidiaeth. Mae chwilio am ffynonellau confensiynol ac anghonfensiynol o olew a nwy yn dal i fod yn bosibilrwydd yng Nghymru hefyd a bydd ystyried hynny yn rhan o Strategaeth Ynni newydd Llywodraeth Cymru.<br>**Amgylchedd Dŵr**<br>• Gall SDC helpu i lywio datblygiad newydd o seilwaith trafnidiaeth a llwybrau trafnidiaeth mewn modd sy'n ceisio osgoi llygru cyrff dŵr. Dylai hefyd fod yn ymwybodol o gyfyngiadau posibl y cyflenwad dŵr a dylai hybu mesurau i leihau'r defnydd o ddŵr mewn datblygiadau.<br>**Mwynau a Gwastraff**<br>• Mae gan SDC ran i'w chwarae o ran y galw am fwynau (trwy eu defnydd i adeiladu seilwaith trafnidiaeth), eu cynllunio a'u rheoli. Gall helpu i lywio'r defnydd cynaliadwy o adnoddau o'r fath trwy ei pholisïau.<br>**COVID-19** |

<table>
<tr><th>Nodau Llesiant</th><th>Crynodeb o Faterion Allweddol</th><th>Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt</th></tr>
<tr><td></td><td>systemau carthffosiaeth a draenio a llygredd gwasgaredig (a allai ddod o ddŵr ffo arwyneb ffyrdd).<br>• Er y tybir bod Cymru yn gyfoethog o ran dŵr, mae eisoes yn wynebu heriau o ran cyflenwad a gall adnoddau dŵr fod yn gymharol brin yn ystod tywydd cynnes a sych estynedig.<br>• Gall dŵr ffo o ffyrdd a gollyngiadau ar ffyrdd ac wrth adeiladu i gyd arwain at lygredd mewn dyfroedd wyneb, dyfroedd daear ac amgylcheddau morol (o gwmpas porthladdoedd).<br>Mwynau a Gwastraff<br>• Mae gan Gymru adnoddau sylweddol. Fodd bynnag, mae angen rheoli gwaith cloddio yn gynaliadwy ar gyfer gweithgarwch parhaus neu yn y dyfodol. Weithiau hefyd gall diogelu mwynau wrthdaro â mathau eraill o ddatblygiad e.e. ffyrdd newydd.<br>• Efallai y bydd gofynion deunydd uchel ar gyfer adeiladu seilwaith trafnidiaeth sy'n rhoi straen pellach ar yr adnoddau cyfyngedig.<br>COVID-19<br>• Mae pandemig COVID-19 wedi cael yr effaith fwyaf ar yr unigolion mwyaf agored i niwed a'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Nid yw effeithiau hirdymor y pandemig yn hysbys ar hyn o bryd, ac er y bu rhai effeithiau buddiol anuniongyrchol, gan gynnwys gwell ansawdd aer a mwy o ddibyniaeth ar deithio llesol, dylai'r dull adfer hybu cydraddoldeb cymdeithasol, iechyd ac economaidd.</td><td>• Mae gan SDC ran i'w chwarae yn yr adferiad yn sgil COVID-19, yn enwedig o ran mynd i'r afael â newidiadau i symudedd. Dylai SDC fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi'u gwaethygu gan COVID-19 a dylai hybu adferiad estynedig a chyfartal.</td></tr>
<tr><td>3. Cymru iachach a Chymru sy'n fwy cyfartal</td><td>• Yn gyffredinol, mae ystadegau iechyd ar gyfer Cymru yn gwella wrth i ddisgwyliad oes gynyddu a llai o bobl yn adrodd am iechyd gwael dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw enillion iechyd wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y wlad ac yn benodol mae mynediad at wasanaethau yn amrywiol, gan ei fod yn well mewn ardaloedd mwy trefol, a'r de yn arbennig, ond yn gymharol wael ar draws llawer o Gymru wledig. Er gwaethaf hyn, mae iechyd y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn gyffredinol dda o'i gymharu ag iechyd y rhai sy'n byw mewn amgylcheddau trefol.<br>• Mae'r ffactorau sy'n benodol i amgylchedd gwledig o'u cymharu â rhai amgylchedd trefol a all effeithio ar iechyd yn fwy sylweddol ac arwain at anghydraddoldebau ac iechyd gwaeth yn cynnwys pellter o wasanaethau cyhoeddus a chymorth, y drafnidiaeth sydd ar gael, a'r boblogaeth sy'n heneiddio. Gall mynediad at ofal iechyd yn benodol fod yn gyfyngedig mewn</td><td>• Yn gyffredinol, gallai SDC helpu i gyflawni'r cydbwysedd pwysig o welliant economaidd a chymdeithasol sy'n parchu amgylchedd naturiol a diwylliannol gwerthfawr y wlad.<br>• Gallai SDC gydnabod y potensial i fannau gwyrdd naturiol fel lleoedd ar gyfer iechyd a hamdden, gan gysylltu cynefinoedd a chefnogi rhyngweithio cymunedol. Gallai gwella'r mynediad at fannau gwyrdd ac agored, gan gynnwys parciau cenedlaethol, annog ffyrdd llawer mwy iach o fyw a gallai poblogaeth iachach alluogi pobl (gan gynnwys plant) i wireddu eu potensial a gwneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal.</td></tr>
</table>

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt |
|---|---|---|
| | llawer rhan o Gymru wledig. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig i gynaliadwyedd ac annibyniaeth cymunedau gwledig.<br>• Er bod pobl yn byw'n hirach a bod cyfraddau rhai clefydau yn lleihau, gall heriau fel yr amgylchedd byw a'r dulliau cyfoes o fyw gyfrannu at lefelau cynyddol o glefydau cronig fel diabetes, problemau cymalau, clefyd y galon a rhai mathau o ganser a all arwain wedyn at anabledd a mwy o alw am y gwasanaethau iechyd. Hefyd, gall iechyd meddwl gwael fod yn ffactor sy'n sail i nifer o glefydau corfforol a ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach. Gall ansawdd aer gwael, sŵn a llygredd golau yn ogystal â damweiniau traffig ffordd gael effaith uniongyrchol ar iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth.<br>• Gallai'r system drafnidiaeth gael ei rhoi o dan straen oherwydd y cynnydd a ragwelir i fudo net yn bennaf o'r tu mewn i'r DU, a rhagwelir y bydd y cynnydd mwyaf mewn ardaloedd trefol.<br>• Gallai lefelau cynyddol o bobl 65 oed a hŷn greu pwysau ar draws y wlad (yn dibynnu ar a yw disgwyliad oes iach yn parhau i olrhain disgwyliad oes cyffredinol). Gallai'r problemau gynnwys darparu gwasanaethau priodol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, a all gynnwys trafnidiaeth.<br>• Mae problemau i bobl ifanc yn ymwneud â'u symudiad o ddibyniaeth i annibyniaeth, gan fod trafnidiaeth yn chwarae rhan bwysig ar adegau pwysig fel symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac yna symud o addysg i gyflogaeth.<br>• Mae anghydraddoldebau iechyd yn adlewyrchu anghydraddoldebau gofodol yn y dosbarthiad o ffactorau fel mynediad at drafnidiaeth, addysg a chyfleoedd gwaith, a gall pob un o'r rhain effeithio ar iechyd.<br>• Gall anableddau a/neu namau symudedd fod yn rhwystrau corfforol a meddyliol i ddefnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth ar draws bob modd. Mae'n bwysig bod y system drafnidiaeth yn cydymffurfio â'r Model Cymdeithasol o Anabledd lle mae dylunio gwael sy'n rhwystr i fynediad pobl at drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei osgoi a'i waredu.<br>• Gall trafnidiaeth ar y ffyrdd arwain at bum maes effaith ar iechyd y cyhoedd: llygredd aer, anweithgarwch corfforol, diogelwch ar y ffyrdd, sŵn a'r ynysigrwydd a wynebir gan bobl agored i niwed oherwydd ofnau ynghylch perygl ar y ffyrdd (sy'n eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth neu addysgol, rhwydweithiau cymdeithasol, amwynderau lleol a gwasanaethau (gan gynnwys gofal iechyd) ac felly yn ychwanegu at y perygl o salwch meddyliol a chorfforol). | • Mae diogelu a gwella seilwaith gwyrdd ledled Cymru gyfan yn gyfle i wella mynediad pobl at fannau gwyrdd ac agored. Mae mynediad at amrywiaeth eang o gynefinoedd lled naturiol a naturiol, yn ogystal â darparu lle ar gyfer ymarfer corff ac ymgysylltu cymunedol awyr agored, yn hanfodol i lesiant corfforol a meddyliol.<br>• Mae gan SDC gyfraniad pwysig i'w wneud at wella iechyd pobl trwy well mynediad at gyfleusterau iechyd, pwyslais ar leihau allyriadau llygredd aer, diogelwch ar y ffyrdd ac annog teithio llesol er mwyn gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau. (Dylid nodi bod llawer o deithio llesol yn digwydd yng nghyd-destun cadwyno teithiau, pan allai pobl wneud trefniadau i stopio sawl gwaith ar daith, fel mynd â'r plant i'r ysgol, yna mynd i'r siopau, ac yna mynd i'r gwaith ac ati).<br>• Yn gyffredinol, gall SDC helpu i fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â phoblogaeth sy'n heneiddio trwy hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau trafnidiaeth hygyrch wedi eu cefnogi gan seilwaith cysylltiol i ddiwallu anghenion twf poblogaeth lleol ac anghenion grwpiau unigol.<br>• Gall Cymru gyfartal alluogi pobl i wireddu eu potensial llawn gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Gallai SDC gynnig cyfle i leihau ynysigrwydd ac annog datblygiad cymunedau integredig y gellir byw ynddynt trwy ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus gynhwysol.<br>• Dylai'r system drafnidiaeth sicrhau y gall pob grŵp gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith trafnidiaeth yn gyfartal heb ofn na rhagfarn.<br>• Gellir sicrhau llai o anghydraddoldeb trwy gynyddu mynediad i'r mwyaf difreintiedig yn hytrach na'r lleiaf difreintiedig a chadw'r lleiaf difreintiedig yn gyson; byddai unrhyw ffurf arall yn golygu lleihau mynediad i'r naill grŵp neu'r llall neu'r ddau, felly ni ddylai fod yn nod i SDC.<br>• Gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy bolisïau a seilwaith i hybu teithio llesol, gan gynyddu gweithgarwch corfforol a lleihau llygredd a sŵn. Dylid |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt |
|---|---|---|
| | • Gall materion sy'n ymwneud â menywod yn benodol fod yn gysylltiedig ag ofni trosedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â dibyniaeth wahaniaethol ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer symudedd.<br>• Gall hygyrchedd corfforol trafnidiaeth gael effaith ar allu pobl anabl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Mae rhwystrau eraill a allai fod yn atal mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys rhai sy'n seiliedig ar iaith (gan gynnwys i ddefnyddwyr y tair iaith swyddogol yng Nghymru: Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain).<br>• Ceir perygl uchel o hyd o anafiadau ar y ffyrdd ymhlith pobl iau.<br>• Ceir gwahaniaeth mawr o hyd rhwng nifer y trwyddedau gyrru y mae menywod a dynion yn meddu arnynt. Mae gan fenywod lawer llai ac mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i fenywod gael yr un mynediad at gyfleusterau ac amwynderau â dynion.<br>• Mae pobl â salwch cronig neu bobl anabl yn eithriadol o sensitif i lygredd sŵn neu aer yn eu hamgylchedd lleol, ac mae'r effeithiau yn amrywio o darfu ar gwsg i bwysedd gwaed uchel.<br>• Mae pobl ag incwm isel (defnyddir byw mewn ardal o amddifadedd fel procsi ar gyfer incwm isel) nad oes ganddynt gar yn debygol o gerdded ymhellach. Gall eu diffyg opsiynau trafnidiaeth, a allai gynnwys fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus, gyfyngu ar gyfleoedd bywyd a gwaith. Gall pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd fod yn arbennig o agored i niwed o ddigwyddiadau traffig ffordd. Gall y grŵp hwn hefyd ddioddef lefelau uwch o straen a gellir ystyried bod amgylchedd ffisegol gwael yn rhwystr i deithio llesol.<br>• Mae grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn cartref heb gar ac felly byddant yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae tystiolaeth yn dangos y bu 77 o droseddau ar sail hiliol ar reilffyrdd Prydain dros dair blynedd.<br>• Mae menywod a grwpiau lleiafrifol yn fwy tebygol o deithio ar fws, ond mae mwy o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn rheilffyrdd fel dull trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n rhaid i SDC ddarparu ar gyfer Cymru sy'n fwy cyfartal trwy wneud y buddsoddiad angenrheidiol yn y drafnidiaeth gyhoeddus a ddefnyddir fwyaf gan y grwpiau hyn neu gael gwared ar unrhyw rwystrau posibl i fathau eraill o drafnidiaeth i'r grwpiau hyn. | canolbwyntio mesurau teithio llesol ar ardaloedd o amddifadedd i leihau anghydraddoldebau.<br>• Gall yr ACI helpu i sicrhau bod SDC yn cymryd y Model Cymdeithasol o Anabledd i ystyriaeth.<br>• Gall yr ACI helpu i sicrhau bod SDC yn helpu i osgoi neu ddileu rhwystrau i fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys i ddefnyddwyr y tair iaith swyddogol yng Nghymru (Cymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain).<br>• Gall SDC helpu i sicrhau bod dynion a menywod sy'n gweithio i'r system drafnidiaeth yn cael eu talu'n gyfartal am wneud yr un swydd. |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt |
|---|---|---|
| | • Mae lefelau llygredd sŵn o gwmpas ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn gael effeithiau hynod amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd pobl.<br>• Mae'r bwlch cyflog cyffredinol rhwng y rhywiau yn cynyddu yng Nghymru. | |
| 4. Cymru o gymunedau cydlynus | • Mae prisiau tocynnau bws yn cynyddu ar gyfradd uwch na chwyddiant; gallai fforddiadwyedd eithrio rhai pobl neu gymunedau o'r math hwn o drafnidiaeth.<br>• Mae nifer y marwolaethau ar y ffyrdd yn parhau'n gyson o un flwyddyn i'r llall pan ddylai fod yn gwella; dylid gwneud mwy o ymdrech i sicrhau diogelwch gyrwyr a defnyddwyr eraill y ffyrdd cymaint â phosibl.<br>• Mae lefelau llygredd sŵn o gwmpas ffyrdd allweddol yng Nghymru yn uchel. Gall sŵn gael effeithiau hynod amrywiol, gan gynnwys ar dderbynyddion tirwedd, adnoddau ecolegol ac iechyd pobl.<br>• Gall ynysigrwydd ac unigrwydd gwledig arwain at broblemau iechyd meddwl. Gall y rhain gael eu hachosi gan system drafnidiaeth lai hygyrch yn lleihau mynediad at gymunedau, ond gall traffig sy'n gwahanu cymunedau o bobtu'r ffordd gynyddu ynysigrwydd hefyd.<br>• Pan fydd pobl yn teithio, dylent allu gwneud hynny yn ddi-ofn a heb deimlo dan fygythiad trosedd. | Gallai SDC gynorthwyo'r broses o greu cysylltiadau rhwng ac o fewn cymunedau diogel sydd wedi eu cynnal yn dda trwy gyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol gan gynnwys llwybrau troed a beicio. Gallai SDC gynllunio ar gyfer lleihau'r angen i deithio a chynnig cyfleoedd i gael mynediad at ddatblygiad a gwasanaethau newydd a phresennol trwy amrywiaeth o foddau teithio cynaliadwy a / neu welliannau i gysylltedd digidol. Trwy leihau nifer y teithiau mewn ceir sydd â'r gyrrwr ynddynt yn unig, gellid lleihau'r perygl i ddefnyddwyr anfodurol a lleihau'r broblem o ynysigrwydd.<br><br>Gallai SDC ystyried cynigion trafnidiaeth strategol o ran y cyfleoedd y maent yn eu cynnig i annog cydraddoldeb rhanbarthol yn ogystal â gwella iechyd pobl, tirwedd a chadwraeth natur trwy leihau llygredd sŵn a golau. |
| 5. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **Y Gymraeg**<br>• Bu tuedd ar i fyny ers yr 1990au o ran nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan nodi amrywiadau rhanbarthol mawr; ceir cyfleoedd i gynyddu lefelau rhuglder.<br>• Mewn rhai achosion, mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn brin, er enghraifft oherwydd y ffaith nad yw staff gwasanaeth cwsmeriaid yn siarad Cymraeg.<br>**Cymeriad Tirwedd a Threflun**<br>• Mae Cymru yn adnabyddus am ei thirweddau o ansawdd uchel ac mae dros 50% o'r arwynebedd tir yn cael ei werthfawrogi'n genedlaethol am ansawdd a chymeriad ei olygfeydd. Mae parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau) yn Dirweddau Dynodedig a gydnabyddir yn rhyngwladol ac yn gorchuddio 25% o Gymru. Mae gan hyn oblygiadau i ddatblygiad seilwaith trafnidiaeth newydd yn yr ardaloedd hyn, gydag un o heriau allweddol rheoli cynaliadwy i alluogi lefelau priodol o dwf gan gadw | **Y Gymraeg**<br>• Mae gan SDC y cyfle i ddiogelu'r Gymraeg a hybu'r defnydd ohoni drwy annog ei defnydd ar arwyddion ac ymhlith cyflogeion gorsafoedd bysiau a rheilffordd. Gallai SDC geisio sicrhau bod mynediad at gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei dargedu yn rhan o'r nod hwn, i gefnogi'r strategaeth sy'n ceisio ehangu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Gallai SDC geisio cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy ei pholisïau. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r nod o ddatblygu pwyslais rhanbarthol newydd i ddatblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i elwa o ffyniant a chynorthwyo pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth unigryw ei hun. Bydd cyfleoedd yn SDC i hybu'r Gymraeg trwy ei defnyddio mewn cyhoeddiadau mewn gorsafoedd, ar arwyddion |

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt |
| --- | --- | --- |
| | nodweddion unigryw lleoedd a thirweddau. Mae'n rhaid i hyn gydnabod hefyd bod elfennau naturiol a hanesyddol tirwedd yn bwysig i le a gwerth diwylliannol tirwedd.<br>• Gallai colli amwynder a chymeriad gweledol gael effeithiau ar bobl leol a thwristiaid.<br>• Gall traffig modurol, parcio ac effeithiau cysylltiedig ddifetha cymeriad tirweddau a threfluniau.<br>**Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth Ddiwylliannol ac Asedau**<br>• Mae gan Gymru gyfoeth o asedau hanesyddol a diwylliannol sy'n elfennau pwysig o hunaniaeth ddiwylliannol genedlaethol. Mae llawer o asedau o'r fath mewn perygl, er enghraifft, o ddirywiad, ffactorau hinsoddol, esgeulustod a datblygiad amhriodol. Yn yr un modd â ffactorau amgylcheddol eraill, mae diogelu a darparu mynediad teg at asedau treftadaeth ddiwylliannol yn her allweddol ar gyfer cynllunio'r system drafnidiaeth yn gynaliadwy.<br>• Gall datblygiad newydd gael amrywiaeth o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar asedau treftadaeth y mae angen eu hosgoi neu eu lliniaru. Mae hyn yn cynnwys effeithiau o lygredd sŵn ac aer o adeiladu llwybrau traffig prysur yn agos at ardaloedd o arwyddocâd diwylliannol a allai eu gwneud yn llai deniadol i ymweld â nhw neu leihau eu hamwynder gweledol (effeithiau anuniongyrchol); mae hefyd yn cynnwys cael gwared ar asedau treftadaeth yn ffisegol gan y gallai hyn fod yn ofynnol ar gyfer datblygu seilwaith teithio newydd. Gall effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol gynnwys dwysáu traffig presennol neu adeiladu ffyrdd neu reilffyrdd newydd. Gall lefelau cynyddol o dagfeydd effeithio ar drefi a dinasoedd hanesyddol a chefn gwlad, a gall datblygu seilwaith trafnidiaeth newydd effeithio ar dirweddau hanesyddol a gallai achosi difrod uniongyrchol i asedau treftadaeth. | ffordd ac ar arwyddion mewn gorsafoedd rheilffordd a bysiau.<br>**Cymeriad Tirwedd a Threflun**<br>• Mae gan y system drafnidiaeth ran fawr i'w chwarae o ran sut y bydd datblygiad seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol yn effeithio ar dirwedd, treflun, a synnwyr o le yn gyffredinol.<br>• Ceir cyfle ar gyfer gwella mynediad at dirweddau, trefluniau a safbwyntiau a werthfawrogir, gan gynnwys trwy foddau teithio cynaliadwy a llesol i leihau effaith traffig modurol.<br>• Mae gan SDC y cyfle i ddarparu cysylltiadau trafnidiaeth o ansawdd uchel i barciau cenedlaethol ac AHNEau i dwristiaid/ymwelwyr ac i ddefnyddwyr hamdden lleol, yn ogystal â gwella'r rheolaeth o deithio mewn ardaloedd twristiaeth.<br>**Amgylchedd Hanesyddol, Treftadaeth Ddiwylliannol ac Asedau**<br>• Yn yr un modd â thirwedd, mae gan SDC ran fawr i'w chwarae o ran diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol, yn ogystal â hygyrchedd asedau treftadaeth, trwy ganllawiau i'r system drafnidiaeth. Gallai hyn gynnwys cydnabod bod asedau treftadaeth heb eu dynodi hefyd yn rhan bwysig o gyfansoddiad hunaniaeth ddiwylliannol a synnwyr o le a bod effeithiau anuniongyrchol ar leoliad asedau hefyd yn ystyriaethau pwysig e.e. llygredd sŵn ac aer o draffig.<br>• Mae cyfleoedd yn bodoli i SDC hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol ac annog gwell mynediad at ganolfannau addysg diwylliannol.<br>• Dylai SDC geisio nodi a diogelu seilwaith trafnidiaeth a allai fod o werth treftadaeth ynddo'i hun.<br>• Mae gan SDC y cyfle i gyfrannu at reolaeth effeithlon y system drafnidiaeth yn ystod digwyddiadau mawr, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon a hamdden a digwyddiadau diwylliannol. |

<table>
<tr><th>Nodau Llesiant</th><th>Crynodeb o Faterion Allweddol</th><th>Cyfleoedd i SDC Roi Sylw Iddynt</th></tr>
<tr><td>6. Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang</td><td><ul><li>Mae’n rhaid lleihau ôl-troed ecolegol Cymru a pheidio â’i beryglu trwy ddatblygiadau trafnidiaeth.</li><li>Mae’n rhaid cymryd mesurau i sicrhau diogelwch cerddwyr a beicwyr ar y ffordd er mwyn eu hybu fel modd ymarferol o deithio.</li></ul>Allyriadau carbon<ul><li>Cafodd argyfwng newid hinsawdd ei ddatgan gan Lywodraeth Cymru yn 2019.</li><li>Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi bod yn gostwng yn raddol yng Nghymru; mae llawer i’w wneud o hyd i fodloni’r targedau allyriadau. Mae’r gostyngiad hwn yn rhannol o ganlyniad i’r symudiad graddol o ran cynhyrchu ynni i danwyddau adnewyddadwy a glanach ynghyd â gwelliannau technolegol ac effeithlonrwydd mewn diwydiant. Fodd bynnag, mae heriau eto i gynnal y tueddiadau cadarnhaol hyn.</li><li>Mae’r ddogfen UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report yn tynnu sylw at nifer o risgiau a chyfleoedd allweddol sy’n wynebu Cymru o ran trafnidiaeth, gan gynnwys yr angen i symud tuag at gerbydau allyriadau isel a gwell opsiynau teithio llesol.</li><li>Mae ôl-troed byd-eang amcangyfrifedig Cymru yn uchel o’i gymharu â gwledydd datblygedig eraill. Ceir her i leihau hyn a hefyd i hwyluso datblygiad newydd a thwf economaidd.</li></ul></td><td>Allyriadau carbon<ul><li>Mae SDC yn canolbwyntio ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth yn sylweddol, trwy hybu moddau trafnidiaeth mwy cynaliadwy fel trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.</li><li>Mae gan SDC gyfle i helpu i hybu moddau trafnidiaeth carbon isel a gwell safonau o effeithlonrwydd ynni mewn seilwaith trafnidiaeth.</li><li>Dylai SDC geisio lleihau twf traffig modurol.</li><li>Mae’n rhaid i SDC hybu moddau trafnidiaeth cynaliadwy (gan gynnwys teithio llesol a Cherbydau Allyriadau Isel Iawn, fel dewis yn hytrach na phetrol/diesel).</li><li>Mae SDC yn cynnig cyfle i leihau’r angen i deithio yn anghynaliadwy:<ul><li>Trwy ehangu a hybu dewisiadau teithio mwy cynaliadwy, a</li><li>Thrwy wneud gwell defnydd o’r rhwydwaith trafnidiaeth presennol.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

## 2.3 Fframwaith yr ACI

2.3.1 I brofi perfformiad SDC, sefydlwyd Fframwaith yr ACI sy'n cynnwys 13 o amcanion ACI (yn rhoi sylw i faterion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol). Cafodd SDC ei harfarnu yn erbyn holl Amcanion yr ACI yn unigol ac yn gyfannol. Grwpiwyd meysydd pwnc yn seiliedig ar ddyfarniad proffesiynol at ddibenion eglurder, ond yn ymarferol roedd yr asesiad yn cwmpasu'r rhyng-gysylltiadau rhwng pob un o'r amcanion ac yn llywio cwestiynau, pan fyddant yn berthnasol i'r asesiad.

2.3.2 Er mwyn helpu i fesur perfformiad elfennau SDC yn erbyn Amcanion yr ACI, caiff y rhain eu hategu gan gyfres o gwestiynau. Crynhowyd data sylfaenol ar y raddfa genedlaethol ac is-genedlaethol (gweler Atodiad B), gan fod y rhain yn cynnig modd o ddarganfod perfformiad cyfredol ledled Cymru a mesur faint o ymyrraeth neu faint o waith sydd ei angen i sicrhau cyfeiriad cadarnhaol o ran cyflawni datblygu mwy cynaliadwy.

2.3.3 I grynhoi, nododd yr adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion yn Atodiad A amrywiaeth o themâu allweddol. Fel man cychwyn, cynlluniwyd Amcanion yr ACI i adlewyrchu'r themâu allweddol hyn. Yn dilyn yr adolygiad o ddata amgylcheddol sylfaenol yn Atodiad B lle nodwyd materion cynaliadwyedd allweddol (gweler Tabl 2.2), mireiniwyd Amcanion yr ACI i sicrhau eu bod yn cymryd y materion cynaliadwyedd allweddol hyn i ystyriaeth h.y. i sicrhau y byddai bodloni Amcanion yr ACI yn helpu i fynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd allweddol yng Nghymru.

2.3.4 Mae Tabl 2.3 yn cyflwyno Amcanion yr ACI a'r cwestiynau a ddefnyddiwyd. Nodir y nodau llesiant cyfatebol yn y tabl. Datblygwyd Amcanion yr ACI gan ddefnyddio'r canlynol:

- Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni ac amcanion perthnasol, gan gynnwys, er enghraifft, y nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru;
- Adolygiad o wybodaeth sylfaenol, problemau a chyfleoedd;
- Mewnbwn o'r ffrydiau arfarnu eraill a nodir yn Adran 1 yr adroddiad hwn, ac yn nodedig: Iechyd, Cydraddoldebau, y Gymraeg, Prawfesur Gwledig, Hawliau Plant, Newid yn yr Hinsawdd a Datblygu Economaidd;
- Profiad o ddatblygu Amcanion ACI eraill yng Nghymru a thu hwnt; a
- Diwygiadau a wnaed yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod ymgynghoriad Mai - Gorffennaf 2020 ar Adroddiad Cwmpasu yr ACI.

2.3.5 Mae'r cwestiynau cynorthwyo penderfyniadau a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad yn erbyn pob amcan yn seiliedig ar brofiad ACI arbenigol ac arfer gorau. Ni ddefnyddiwyd yr holl gwestiynau llywio yn rhan o'r asesiad ar bob cam; roedd hyn yn dibynnu ar yr hyn a oedd yn cael ei asesu a'r perthnasedd ar yr adeg honno.

2.3.6 Nid yw Amcanion yr ACI mewn unrhyw drefn benodol ac nid yw eu lleoliad a'u rhif o fewn Fframwaith yr ACI yn ddynodiad o drefn pwysigrwydd neu ffafriaeth. Aseswyd SDC yn erbyn holl Amcanion yr ACI i'r un lefel o fanylder.

*Tabl 2.3 Amcanion a Chwestiynau yr ACI*

| **Fframwaith yr ACI ar gyfer asesu SDC** | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr ACI** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad**<br>**A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn….?** | **Nod llesiant** |
| 1. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol pawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru | • Cyfrannu at welliant i fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig mewn ardaloedd ynysig/gwledig?<br>• Cyfrannu at wella hygyrchedd gwasanaethau iechyd a lles cyfrwng Cymraeg?<br>• Cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned gan gynnwys plant a phobl hŷn yn benodol?<br>• Hybu ffyrdd iach o fyw trwy fentrau cynllunio trafnidiaeth a hybu teithio llesol?<br>• Lleihau effaith seilwaith trafnidiaeth ar gyfyngu cysylltedd o fewn cymunedau trwy eu gwahanu o bobtu'r ffordd?<br>• Lleihau perygl o draffig ar y ffyrdd, yn enwedig i grwpiau agored i niwed a blaenoriaeth?<br>• Lleihau straen i yrwyr a straen posibl i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd?<br>• Lleihau effeithiau iechyd trafnidiaeth, gan gynnwys effeithiau ansawdd aer a sŵn, fel iechyd a straen anadlol a chardiofasgwlaidd?<br>• Cyfrannu at wella mynediad at fannau agored gan gynnwys cyfleoedd i chwarae a mynediad at barciau cenedlaethol trwy fodd trafnidiaeth hygyrch nad yw'n ddrud?<br>• Sicrhau y gall plant ddatblygu'n iach, a chael mynediad at ofal iechyd o ansawdd da?<br>• Cyfrannu at leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol? | Cymru lewyrchus<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus |
| 2. Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | • Creu amodau i leihau lefelau trosedd a'r ofn o drosedd?<br>• Gwella hygyrchedd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, fel bod mynediad yn deg?<br>• Gwella hygyrchedd llwybrau cerdded a beicio, fel bod mynediad yn deg?<br>• Gwella diogelwch, hwylustod a hygyrchedd llwybrau cerdded a beicio fel bod cerdded a beicio yn cael eu hystyried yn opsiynau realistig, diogel a deniadol i bobl o bob oedran, cefndir a gallu?<br>• Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i foddhad pobl gyda'u cymdogaethau fel lleoedd i fyw?<br>• Creu'r amodau lle gellir gwella cydraddoldebau yn seiliedig ar gefndir neu amgylchiadau?<br>• Creu'r amodau lle gellir lleihau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau?<br>• Creu'r amodau lle gellir lleihau anghydraddoldeb ar sail oedran?<br>• Creu'r amodau lle gellir gwella anghydraddoldebau yn seiliedig ar anabledd, yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd?<br>• Annog a chefnogi cynnydd i lefelau cyfranogiad a chyrhaeddiad mewn addysg i bob aelod o gymdeithas trwy fwy o hygyrchedd?<br>• Cefnogi'r darparwyr trafnidiaeth trydydd sector a chymunedol a nodi cyfleoedd ar gyfer twf er mwyn lleihau anghydraddoldeb rhwng cymunedau trefol, gwledig a lled-wledig? | Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru lewyrchus<br>Cymru iachach |
| 3. Cefnogi twf economaidd | • Cefnogi mynediad teg at gyfleoedd gwaith, addysg a hyfforddiant?<br>• Annog mynediad cynaliadwy at gyfleusterau ac atyniadau i dwristiaid? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal |

| Fframwaith yr ACI ar gyfer asesu SDC | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr ACI** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad<br>A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn….?** | **Nod llesiant** |
| cynaliadwy ac amrywiaeth | • Annog mesurau i hybu cysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol gwell a chydnerth, gan gynnwys yn yr awyr, ar y môr, ar ffyrdd ac ar reilffyrdd?<br>• Cefnogi adfywiad ardaloedd sy'n tanberfformio?<br>• Cefnogi cludiant nwyddau a gwella dibynadwyedd a chydnerthedd y rhwydweithiau cludo nwyddau ar ffyrdd, ar reilffyrdd ac yn yr awyr?<br>• Annog mewnfuddsoddiad?<br>• Annog gwell cynhyrchiant trwy well cysylltedd?<br>• Cefnogi gwelliannau i'r economi wledig ac arallgyfeirio gwledig?<br>• Cefnogi ac annog gweithgareddau trydydd sector, gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol?<br>• Cefnogi camau i leihau'r angen i deithio ar gyfer gwaith?<br>• A fyddai'n helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol? | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 4. Annog camau i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden | • Hybu mynediad cynaliadwy a chydnerth at asedau a gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth Cymru?<br>• Annog mesurau i wella asedau treftadaeth ddiwylliannol, mannau hamdden a'u lleoliad?<br>• Cyfrannu at reoli'r system drafnidiaeth yn effeithlon yn ystod digwyddiadau mawr, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon a hamdden a digwyddiadau diwylliannol?<br>• Cyfrannu at reoli teithio yn effeithlon mewn ardaloedd twristiaeth yn ystod cyfnodau brig? | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| 5. Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg | • Annog darparwyr trafnidiaeth i fodloni safonau'r Gymraeg?<br>• Ceisio cefnogi gwell mynediad trwy foddau cynaliadwy at gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg?<br>• Ceisio cefnogi cynnydd i'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg?<br>• Ceisio cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy fentrau trafnidiaeth?<br>• Creu'r amodau y mae'r Gymraeg yn ffynnu ynddynt?<br>• Ceisio hybu'r Gymraeg trwy ei defnyddio mewn cyhoeddiadau gorsafoedd, ar arwyddion ffyrdd ac ar arwyddion mewn gorsafoedd rheilffordd a bysiau? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 6. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth | • Annog lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r seilwaith trafnidiaeth presennol?<br>• Cyfrannu at leihau allyriadau $CO_2$ o'r sector trafnidiaeth?<br>• Annog technoleg lanach ar gyfer trafnidiaeth?<br>• Creu'r amodau lle mae'n ofynnol i ddylunio cynaliadwy fod yn rhan annatod o ddatblygiad newydd?<br>• Annog lleihad i'r galw am ynni a chynyddu effeithlonrwydd ynni?<br>• Cynyddu'r potensial ar gyfer defnyddio ffynonellau ynni carbon isel neu ddi-garbon<br>• Lleihau cyfanswm y traffig ar y ffyrdd trwy leihau'r angen i deithio, lleihau pellteroedd teithio a chynyddu'r opsiynau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Fframwaith yr ACI ar gyfer asesu SDC | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr ACI** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad<br>A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn….?** | **Nod llesiant** |
| 7. Galluogi cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd | • Cyfrannu at leihau a rheoli perygl llifogydd?<br>• Annog pob datblygiad trafnidiaeth newydd i fod yn gydnerth yn wyneb newid yn yr hinsawdd?<br>• Lleihau'r anghydraddoldebau o ran mynediad at drafnidiaeth yn ystod llifogydd?<br>• Lleihau'r perygl cynyddol o lifogydd a/neu lifogydd arfordirol a hybu mesurau i ddiogelu gorlifdiroedd neu ardaloedd o berygl llifogydd a reolir?<br>• Sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i wella cydnerthedd ecosystemau a swyddogaethau sy'n helpu i leihau pa mor agored i niwed yw'r hinsawdd?<br>• Cyfrannu at weithrediad addasiadau arfordirol oherwydd erydu arfordirol? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 8. Diogelu a gwella ansawdd aer | • Creu'r amodau i wella a diogelu ansawdd aer?<br>• Lleihau effeithiau negyddol trafnidiaeth ar ansawdd aer lleol?<br>• Gwella ansawdd aer er mwyn cael gwared ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer presennol a lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd trwy fentrau trafnidiaeth?<br>• Creu'r amodau lle gellir lleihau'r allyriadau posibl o draffig a diwydiant?<br>• Lleihau effaith anghymesur ansawdd aer gwael ar y cymunedau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 9. Diogelu a gwella nodweddion unigryw lleol ein tirweddau a'n trefluniau | • Annog camau i warchod a gwella ardaloedd o gymeriad, nodweddion unigryw, amrywiaeth ac ansawdd tirweddau?<br>• Annog camau i warchod a gwella cymeriad ac ansawdd trefluniau?<br>• Hybu dylunio sensitif wrth ddatblygu seilwaith trafnidiaeth?<br>• Lleihau effeithiau niweidiol traffig ar y ffyrdd a pharcio (e.e. amhariad gweledol a sŵn) ar y tirweddau a'r trefluniau a werthfawrogir yng Nghymru? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 10. Hybu camau i warchod a gwella asedau treftadaeth | • Annog camau i warchod a gwella asedau treftadaeth a'u lleoliadau, a all gynnwys rhai asedau trafnidiaeth eu hunain?<br>• Annog gwaith i uwchraddio asedau treftadaeth presennol, fel pontydd hanesyddol, i fodloni'r safonau gweithredu diweddaraf?<br>• Annog camau i warchod a gwella'r dirwedd hanesyddol? | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Fframwaith yr ACI ar gyfer asesu SDC | | |
|---|---|---|
| **Amcanion yr ACI** | **Cwestiynau cynorthwyo penderfyniad<br>A fydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn….?** | **Nod llesiant** |
| 11. Hybu camau i warchod a gwella bioamrywiaeth, geoamrywiaeth ac ecosystemau | • Hybu camau i sefydlu rhwydweithiau ecolegol mwy cydlynol a chydnerth ar dir sy'n diogelu gwasanaethau ecosystem er budd bywyd gwyllt a phobl?<br>• Annog camau i warchod a gwella safleoedd cadwraeth natur, cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig gan gynnwys eu cysylltedd yn y dirwedd?<br>• Annog camau i warchod a gwella cynefinoedd a rhywogaethau heb eu dynodi, gan gynnwys eu cysylltedd yn y dirwedd?<br>• Sicrhau gwelliant i gyfleoedd i bobl gael mynediad at fywyd gwyllt a mannau gwyrdd agored?<br>• Hybu gwaith dylunio seilwaith trafnidiaeth da i sicrhau manteision bioamrywiaeth?<br>• Diogelu geoamrywiaeth? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 12. Sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | • Cyfrannu at ddiogelu a gwella ansawdd dŵr daear a dŵr wyneb?<br>• Annog y defnydd o ddeunyddiau ailgylchu a chynaliadwy wrth ddatblygu seilwaith trafnidiaeth, gyda phwyslais ar leihau'r carbon ymgorfforedig mewn seilwaith trafnidiaeth newydd?<br>• Lleihau cyfanswm gwastraff cyffredinol trwy fentrau trafnidiaeth?<br>• Annog camau i warchod pridd, gan gynnwys osgoi llygredd pridd?<br>• Cynyddu cyfleoedd i fwynhau amgylchedd naturiol a rhwydwaith hawliau tramwy Cymru trwy bob math o deithio llesol? | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
| 13. Galluogi camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau | • Annog camau i osgoi cynefinoedd ac aneddiadau sy'n sensitif i lygredd sŵn?<br>• Annog camau i gynnal ac ehangu ardaloedd tawel?<br>• Hybu camau i leihau a lliniaru llygredd golau, yn enwedig yn y nos?<br>• Hybu'r defnydd o gamau lliniaru a gwelliannau i ardaloedd a effeithir gan lygredd sŵn?<br>• Lleihau nifer yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio'n negyddol gan lygredd sŵn? | Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru o gymunedau cydlynus |

2.3.7 Mae Tabl 2.4 yn nodi lle y cymerir pob un o’r pynciau amgylcheddol a restrir yn Atodlen 2(6) y Rheoliadau AAS, yn ogystal â phob un o’r gwahanol asesiadau effaith sy’n rhan o’r ACI, i ystyriaeth yn Amcanion yr ACI. Sgriniwyd yr holl bynciau ac asesiadau effaith hyn i mewn i’r asesiad.

*Tabl 2.4 Pynciau’r Rheoliadau AAS a phrif amcanion perthnasol yr ACI*

| Pwnc AAS/Asesiad Integredig | Prif Amcan(ion) yr yr ACI | Sgriniwyd i mewn? |
|---|---|---|
| **AAS: Bioamrywiaeth** | 11 | Do |
| **AAS: Poblogaeth** | 1, 2, 3, 4, 5, 7 | Do |
| **AAS: Iechyd Pobl** | 1, 2, 3, 4, 5, 7 | Do |
| **AAS: Ffawna** | 9, 11 | Do |
| **AAS: Fflora** | 9, 11 | Do |
| **AAS: Pridd** | 11, 12 | Do |
| **AAS: Dŵr** | 7, 11, 12 | Do |
| **AAS: Aer** | 6, 8, 12 | Do |
| **AAS: Ffactorau Hinsoddol** | 6, 7, 12 | Do |
| **AAS: Asedau Perthnasol** | 12 | Do |
| **AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol** | 9, 10 | Do |
| **AAS: Tirwedd** | 9, 10, 11 | Do |
| **Iechyd** | 1, 2 | Do |
| **Cydraddoldebau** | 1, 2 | Do |
| **Y Gymraeg** | 5 | Do |
| **Prawfesur Gwledig** | 1, 2, 3, 4, 5 | Do |
| **Hawliau Plant** | 1, 2 | Do |
| **Newid yn yr Hinsawdd** | 6, 7, 12 | Do |
| **Datblygu Economaidd** | 2, 3 | Do |

## 2.4 Opsiynau Amgen Rhesymol SDC (Tasg B.2)

2.4.1 At ddiben bodloni gofynion Adroddiad Amgylcheddol yr AAS, mae angen i adroddiad yr ACI nodi ac arfarnu effeithiau amgylcheddol y cynigion yn SDC, yn ogystal â nodi ac arfarnu effeithiau amgylcheddol opsiynau amgen rhesymol i'r cynigion hyn. Diben defnyddio opsiynau amgen rhesymol yw dangos mai tystiolaeth sydd wedi creu'r Cynllun arfaethedig yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

2.4.2 Mae penderfynu a yw opsiwn amgen yn rhesymol fel arfer yn asesiad arfarnol ac ansoddol i'r awdurdod cynllunio. Mae Canllawiau AAS yn nodi mai opsiynau amgen rhesymol, realistig a pherthnasol yn unig y mae angen eu cyflwyno. Nid yw'r Rheoliadau AAS yn diffinio beth yw opsiwn amgen, na faint o opsiynau amgen y mae'n rhaid eu hystyried.

2.4.3 Trafodwyd datblygiad 'opsiynau amgen rhesymol' yn drwyadl gyda thîm SDC, gan ystyried gwahanol gyfeiriadau a phosibiliadau. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, ni ystyriwyd bod 'opsiynau amgen' i'r dulliau yn y cynllun yn rhesymol, yn enwedig gan nad oes unrhyw elfennau gofodol i'w hystyried. Gan fod paratoi SDC yn broses ailadroddol a bod yr ACI wedi arfarnu tair fersiwn ar wahân o SDC, mae opsiynau amgen yn hytrach na phob agwedd ar SDC wedi'u hystyried yn eu hanfod wrth i'r ddogfen esblygu, yn dilyn awgrymiadau o'r ACI ac ymgynghoriadau.

2.4.4 Mae SDC yn cyflwyno Gweledigaeth ar gyfer y sector trafnidiaeth yng Nghymru. Dilynir hyn gan Uchelgeisiau a Blaenoriaethau a fyddai'n sicrhau, o'u cyflawni, bod y Weledigaeth ddymunol yn cael ei gwireddu. Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth, yr Uchelgeisiau a'r Blaenoriaethau yn llwyddiannus, mae SDC wedyn yn cyflwyno Cynlluniau Cryno manwl ar gyfer pob sector trafnidiaeth, sy'n disgrifio yn fanwl y dull y bydd Llywodraeth Cymru yn ei fabwysiadu.

2.4.5 Bwriedir i'r Weledigaeth, yr Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol, gan gynnwys â'r gwahanol gynlluniau a rhaglenni perthnasol a nodwyd wrth Gwmpasu. Bwriedir hefyd iddynt sicrhau bod sector trafnidiaeth Cymru yn dod yn gynyddol gynaliadwy (o ran ei effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol) yn ystod oes SDC. Mae'n amlwg na fyddai dull amgen yn hytrach na'r un yma h.y. un nad yw'n cydymffurfio â'r gyfraith neu nad yw'n gwella cynaliadwyedd y sector trafnidiaeth yng Nghymru, yn 'rhesymol'.

2.4.6 Ysgrifennwyd y Cynlluniau Cryno yn rhan o'r cynllun fel proses foddol ar wahân, wedi'u grwpio i osgoi ailadrodd.

## 2.5 Fersiynau o'r ACI

2.5.1 Darparwyd drafft cychwynnol a chynnar o SDC i Arcadis ym mis Medi 2020 ac aseswyd hwn gan ddefnyddio Fframwaith yr ACI. Rhannwyd canlyniadau ac argymhellion asesiad yr ACI gyda llunwyr y cynllun, gan roi gwybodaeth iddynt am berfformiad y gwahanol opsiynau yn erbyn pob un o'r asesiadau effaith deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Mireiniwyd SDC yn dilyn hyn. Roedd hon yn elfen hollbwysig yn natblygiad SDC a chynorthwyodd gyda chynhyrchiad drafft mis Hydref 2020 a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad.

2.5.2 Nododd yr asesiad i'r drafft cynnar cychwynnol o SDC ym mis Medi 2020 effeithiau cadarnhaol yn bennaf. Ystyriwyd bod SDC yn mynd i'r afael yn gynhwysfawr â'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol sy'n gysylltiedig â sector trafnidiaeth Cymru ac yn ceisio rhoi sylw i'r rhain. Gwnaed argymhellion i sicrhau bod yr effeithiau cadarnhaol hyn mor fawr â phosibl er mwyn cyflawni mwy o effeithiau cadarnhaol mawr, yn ogystal â llenwi unrhyw fylchau posibl.

2.5.3 Ym mis Hydref 2020, paratowyd drafft diwygiedig o SDC ac fe'i harfarnwyd, fel y cyflwynwyd yn Adroddiad Interim yr ACI. Cyhoeddwyd SDC ar gyfer ymgynghoriad rhwng mis Tachwedd 2020 a

mis Ionawr 2021, wedi'i hategu gan Adroddiad Interim yr ACI[25]. Mae asesiad mis Hydref 2020 sydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Interim yr ACI yn seiliedig ar fersiwn o SDC a ddisodlwyd wedyn gan fersiwn ymgynghori SDC.

2.5.4 Mae sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ac ymatebion i'r rhain, ar gael yn Atodiad C. Cynhaliwyd gweithdy gyda phenaethiaid adrannau Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn hefyd. Adlewyrchir canlyniadau'r broses hon yn fersiwn asesu'r ymgynghoriad yr asesiad. Mae'r arfarniad o'r SDC Ddrafft ar gyfer Ymgynghori ar gael yn Atodiad D yr Adroddiad ACI hwn. Cynhaliwyd hwn ar ôl cyhoeddi Adroddiad Interim yr ACI.

2.5.5 Ym mis Chwefror 2021, ar ôl derbyn y sylwadau ymgynghori, diwygiwyd SDC ymhellach a lluniwyd y fersiwn derfynol. Mae'r Adroddiad ACI hwn yn arfarnu'r SDC derfynol (a gyflwynir yn Atodiad E) ac yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r argymhellion.

## 2.6 Cymhariaeth rhwng canfyddiadau fersiwn Ymgynghori SDC (Hydref 2020) a'r SDC Derfynol (Mawrth 2021)

2.6.1 Wrth gymharu canlyniadau ACI y SDC Ddrafft ar gyfer Ymgynghori (Atodiad D) â'r SDC derfynol (Atodiad E), mae nifer o sgoriau wedi newid.

2.6.2 Diweddarwyd y Weledigaeth i gynnwys systemau trafnidiaeth 'effeithlon'. O ran y Weledigaeth, mae'r sgôr ar gyfer Amcan 4 yr ACI wedi newid o gydweddu i ansicr, ac ar gyfer Amcanion 7, 9, 10, 11, 12 a 13 yr ACI, o gydweddu i niwtral. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod rhai manylion wedi'u dileu o'r Weledigaeth. Er enghraifft, roedd y Weledigaeth Ddrafft ar gyfer Ymgynghori yn nodi y byddai system drafnidiaeth gynaliadwy o ddaioni i bobl a chymunedau, o ddaioni i'r amgylchedd, o ddaioni i'r economi a lleoedd ac o ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg; diwygiwyd hyn i nodi ei bod yn diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol gan ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

2.6.3 Symudwyd y bennod ar y Blaenoriaethau ymlaen yn y ddogfen ac fe'i newidiwyd o bum blaenoriaeth i dair blaenoriaeth. Ar y cyfan, ystyrir bod yr effeithiau cynaliadwyedd a ragwelir yn llai sylweddol, oherwydd llai o fanylion ynghylch gweithrediad posibl mesurau.

2.6.4 O ran yr Uchelgeisiau, ystyrir bod y diwygiadau i SDC wedi cryfhau eu cydweddoldeb ag Amcanion yr ACI.

2.6.5 Diwygiwyd y Cynlluniau Cryno rhyw fymryn mewn ymateb i'r sylwadau ymgynghori ac argymhellion yr ACI. Diwygiwyd y Cynllun Cryno ar Deithio Llesol o gadarnhaol mân i gadarnhaol arwyddocaol yn yr ACI. Mae hyn oherwydd bod yr ACI wedi argymell bod SDC yn darparu mwy o fanylion ynghylch sut y byddai'n targedu lleihau anghydraddoldebau iechyd penodol.

2.6.6 O ran y Cynllun Cryno ar Deithio Llesol, mae'r sgôr ar gyfer Amcan 11 yr ACI wedi aros yr un fath, ond mae'r ACI yn nodi y cymerwyd camau yn sgil yr argymhellion blaenorol i gyfeirio at lwybrau teithio llesol yn y Cynllun Cryno.

2.6.7 Mae gan y Cynllun Cryno ar gyfer Bysiau ddau sgôr Amcan ACI sydd wedi newid. Mae Amcanion 1 a 2 yr ACI wedi codi o gadarnhaol mân i gadarnhaol arwyddocaol gan fod y Cynllun Cryno wedi'i ehangu i nodi y bydd hyfforddiant ar waith i sicrhau bod gyrwyr yn gwneud i bawb deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn ddiogel, ac i gadw'r hyfforddiant hwnnw yn gyfredol, a allai gael manteision uniongyrchol ar gyfer iechyd a chydraddoldeb.

---

[25] Arcadis (2020) Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Llwybr Newydd – Strategateh Drafnidiaeth Newydd Cymru – Drafft Ymgynghori. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-11/arfarniad-cynaliadwyedd-integredig-isa-o-llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-newydd-cymru-drafft-ymgynghori-ar-strategaeth.pdf [Gwelwyd 15.02.21]

2.6.8 Ar gyfer y Cynllun Cryno ar Reilffyrdd, o ran Amcan 1 yr ACI, mabwysiadodd SDC argymhellion yr ACI i gyfeirio at newid tybiaethau presennol pobl o deithio ar y rheilffyrdd (er enghraifft, rhwystrau yn ymwneud â chost neu hygyrchedd), ac felly mae'r sgôr wedi newid o gadarnhaol mân i gadarnhaol arwyddocaol. Mae'r sgoriau ar gyfer Amcanion 2, 3 a 6 yr ACI hefyd wedi newid o gadarnhaol mân i gadarnhaol arwyddocaol oherwydd diwygiadau a wnaed i'r Cynllun Cryno. Mae'r Cynllun Cryno bellach yn nodi y bydd gwaith uwchraddio yn cael ei wneud i seilwaith presennol i wella cydnerthedd seilwaith rheilffyrdd yn erbyn llifogydd a thywydd eithafol yn dilyn argymhelliad yr ACI. Mae hyn wedi newid y sgôr ar gyfer Amcan 7 yr ACI o ansicr i gadarnhaol mân.

2.6.9 O ran y Cynllun Cryno ar Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio, mae'r sgoriau wedi newid ar gyfer Amcanion 1 a 2 yr ACI, y ddau i gadarnhaol arwyddocaol oherwydd diwygiadau i'r Cynllun Cryno sy'n ceisio pennu terfynau cyflymder ac atal parcio ar balmentydd i wneud ffyrdd yn fwy diogel.

2.6.10 Ar gyfer y Cynllun Cryno ar y Trydydd Sector, mae'r sgôr ar gyfer Amcan 13 yr ACI wedi newid o niwtral i gadarnhaol mân gan fod y Cynllun Cryno yn hybu mwy o ddefnydd o dechnolegau cerbyd amgen a mwy o rannu cerbydau, a allai leihau llygredd sŵn a golau.

2.6.11 Diwygiwyd y Cynllun Cryno ar Hedfanaeth ac mae bellach yn nodi y bydd yn cynnwys defnyddwyr gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn y gwaith o ddylunio ac uwchraddio cyfleusterau ar gyfer teithwyr. Felly, mae'r sgôr ar gyfer Amcan 2 yr ACI wedi newid o negyddol mân i gadarnhaol/ negyddol.

# 3 Asesiad o’r SDC Derfynol (Mawrth 2021)

## 3.1 Crynodeb o Ganlyniadau Asesu’r SDC Derfynol

3.1.1 Mae SDC yn strategaeth genedlaethol ac felly mae’r arfarniadau yn nodi tueddiadau eang a chyffredinol o effeithiau posibl ar y lefel genedlaethol. Bwriedir i’r arfarniadau fod yn strategol ac maent wedi’u dylunio i sicrhau bod ystyriaethau cynaliadwyedd yn cael sylw yn y broses o lunio cynllun o’r cychwyn cyntaf.

3.1.2 Mae’r arfarniad yn yr ACI wedi canolbwyntio ar Benodau 1 (gweledigaeth), 2 (Blaenoriaethau), 3 Uchelgeisiau Llesiant), a 7 (Cynlluniau Cryno). Paratowyd Symudedd yng Nghymru fel adroddiad cefndirol ar gyfer SDC. Adolygwyd y ddogfen hon ac mae’n cynnig gwybodaeth ategol a ddefnyddiwyd yn yr arfarniad o SDC.

3.1.3 Mae Gweledigaeth ac Uchelgeisiau SDC wedi bod yn destun asesiad B1 ar gyfer eu cydweddoldeb ag Amcanion yr ACI. Arfarniad ansoddol oedd hwn yn seiliedig ar farn arbenigol ac wedi’i lywio gan y cwestiynau cynorthwyo penderfyniadau yn Fframwaith yr ACI. Mae Tabl 3.1 yn grynodeb o ganlyniadau prawf cydweddoldeb B1.

3.1.4 Aseswyd y Blaenoriaethau a phob un o’r Cynlluniau Cryno yn fwy manwl yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI. Mae Tabl 3.2 yn crynhoi canlyniadau’r broses hon. Gan nad yw SDC yn cynnwys unrhyw elfennau gofodol/defnydd tir, ni fu’n bosibl darogan yr effeithiau â sicrwydd a manylder uchel.

3.1.5 Cyflwynir yr asesiad hwn yn llawn yn Atodiad E.

*Tabl 3.1: Cydweddoldeb rhwng Amcanion yr ACI a Gweledigaeth ac Uchelgeisiau’r SDC Derfynol*

| SDC | 1. Iechyd | 2. Cydlyniant a chydraddoldeb | 3. Datblygu economaidd | 4. Diwylliant Cymru | 5. Y Gymraeg | 6. Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | 7. Cydnerthedd yn erbyn newid hinsawdd | 8. Ansawdd aer | 9. Tirwedd a threfluniau | 10. Treftadaeth | 11. Ecosystemau | 12. Adnoddau Naturiol | 13. Tawelwch |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ? | ✓ | ✓ | ● | ✓ | ● | ● | ● | ● | ● |
| Uchelgeisiau | | | | | | | | | | | | | |
| 1. O ddaioni i bobl a chymunedau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ● | ✓ | ● | ● | ✓ | ✓ | ✓ |
| 2. O ddaioni i’r amgylchedd | ✓ | ● | ✓ | ✓ | ● | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3. O ddaioni i’r economi a lleoedd yng Nghymru | ✓ | ✓ | ✓ | ● | ● | ✓ | ● | ✓ | ● | ● | ● | ✓ | ● |
| 4. O ddaioni i ddiwylliant a’r Gymraeg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ● | ● | ● | ✓ | ✓ | ● | ● | ● |

*Allwedd:*

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Yn cydweddu* | ✓ | *Niwtral* | ● |
| *Ddim yn cydweddu* | ✗ | *Ansicr* | ? |

*Tabl 3.2: Sgoriau effaith a gofnodwyd ar gyfer y Blaenoriaethau Pum Mlynedd a’r Cynlluniau Cryno yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI.*

| SDC | Amcan yr ACI | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1. Iechyd | 2. Cydlyniant a chydraddoldeb | 3. Datblygu economaidd | 4. Diwylliant Cymru | 5. Y Gymraeg | 6. Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | 7. Cydnerthedd yn erbyn y newid | 8. Ansawdd aer | 9. Tirwedd a threfluniau | 10. Treftadaeth | 11. Ecosystemau | 12. Adnoddau Naturiol | 13. Tawelwch |
| Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau’r angen i deithio | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Blaenoriaeth 2: Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws trwy drafnidiaeth gynaliadwy | ++ | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Blaenoriaeth 3: Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | + | ++ | + | + | + | + | O | + | + | + | + | + | + |
| Cynllun Cryno: Teithio Llesol | ++ | + | + | + | + | ++ | + | ++ | + | + | + | + | + |
| Cynllun Cryno: Bysiau | ++ | ++ | + | + | + | + | ? | + | + | + | + | + | + |
| Cynllun Cryno: Rheilffyrdd | ++ | ++ | ++ | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + |
| Cynllun Cryno: Ffyrdd, Strydoedd, a Pharcio | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Cynllun Cryno: Y Trydydd Sector | ++ | ++ | + | + | + | + | O | + | O | + | + | + | + |
| Cynllun Cryno: Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat | + | +/- | + | + | + | + | O | + | O | O | + | + | + |
| Cynllun Cryno: Cludo Nwyddau a Logisteg | + | + | + | O | + | + | O | + | - | O | + | + | + |
| Cynllun Cryno: Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol | + | + | ++ | ++ | + | + | - | + | O | + | + | + | O |
| Cynllun Cryno: Hedfanaeth | - | +/- | ++ | + | + | -- | O | -- | - | O | - | + | -- |

Allwedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Cadarnhaol cryf (arwyddocaol)* | ++ | *Canlyniad ansicr* | ? |
| *Cadarnhaol mân* | + | *Negyddol mân* | - |
| *Canlyniad niwtral* | O | *Negyddol cryf (arwyddocaol)* | -- |
| *Ystod o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol* | +/- | | |

## 3.2 Crynodeb o Asesiadau Effaith Deddfwriaethol

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

3.2.1 Cynhaliwyd ystyriaeth o'r tebygolrwydd o effeithiau sylweddol (a adnabyddir hefyd fel Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) i benderfynu a fyddai SDC (naill ai ar ben ei hun a/ neu o'i gyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Natura 2000 o ran ei amcanion cadwraeth a'i fuddiannau cymhwyso. Mae canlyniadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u hintegreiddio i'r ACI pan fo'n briodol (yn yr asesiad o Amcan 11 yr ACI), yn rhan o broses ailadroddol.

3.2.2 Sgriniwyd holl benodau SDC allan o dan Gategori A gan eu bod yn cynnwys testun cyflwyniadol a datganiadau cyffredinol o bolisi / dyheadau cyffredinol na fyddai ynddynt eu hunain yn arwain at unrhyw newid neu ddatblygiad, ac felly nid yw'n bosibl y byddent yn cael unrhyw effeithiau ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.

3.2.3 Os caiff unrhyw fanylion pellach, gan gynnwys manylion gofodol eu cadarnhaol o ran y Cynlluniau Cryno, yna bydd yn ofynnol i bob cynllun fod yn destun proses sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r cynlluniau lefel nesaf (Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol).

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

3.2.4 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ceisio asesu SDC ar gyfer ei heffaith ar naw o nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Cynllun Cryno ar Reilffyrdd yn nodi y bydd yn cynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau, trwy banel cynghori Trafnidiaeth Cymru, a hefyd yn cynnwys cymunedau yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau rheilffyrdd cymunedol newydd.

3.2.5 Byddai SDC yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd trwy ddatblygu system sy'n hygyrch i bob aelod o gymdeithas ac yn cael ei defnyddio ganddynt, ac sydd â'r nod o gymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd defnyddwyr o wahanol gefndiroedd, rhyweddau, oedran, ac anabledd. Trwy wneud hynny, byddai'n gwella cyfle cyfartal o ran mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a chyfleusterau hamdden ac addysg.

3.2.6 Byddai defnyddio arloesiadau digidol, yn unol â'r Blaenoriaethau, yr Uchelgeisiau a'r Cynllun Cryno ar gyfer Rheilffyrdd, a sicrhau bod safbwyntiau defnyddwyr y system drafnidiaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth, yn helpu i sicrhau bod anghenion amrywiol poblogaeth gynyddol Cymru yn cael eu diwallu ac y darperir ar eu cyfer. Byddai trafnidiaeth gyhoeddus a all gael ei defnyddio gan bawb, ac sy'n cael ei defnyddio gan bawb, beth bynnag fo'u cefndir, yn helpu i wella cydlyniant cymdeithasol.

3.2.7 Mae SDC yn cydnabod y rhwystr y gall iaith ei achosi, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg (gweler yr Uchelgais 'O ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg'), ac mae'n debygol, o ganlyniad i SDC, y bydd y rhwystrau hynny yn cael eu herydu yn gynyddol ac y byddai defnyddwyr tair iaith swyddogol Cymru (Cymraeg, Iaith Arwyddion Prydain a Saesneg) yn gallu gwneud defnydd cyfartal o'r system drafnidiaeth (gan gynnwys teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith ffyrdd).

3.2.8 Mae SDC yn cydnabod pwysigrwydd gwella diogelwch y system drafnidiaeth, i bob defnyddiwr, a sicrhau ei bod yn groesawgar i bawb. Mae nodau SDC yn ceisio sicrhau bod y rhai a oedd efallai yn teimlo yn anghyfforddus yn defnyddio rhai gwasanaethau trafnidiaeth yn y gorffennol oherwydd ofnau ynghylch trosedd neu aflonyddwch, yn teimlo yn hyderus i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael. Byddai gwelliannau i'r rhwydweithiau cerddwyr a beicwyr hefyd yn ceisio bod yn briodol ac yn hygyrch i'r holl ddefnyddwyr ac yn cymryd i ystyriaeth y rhai sy'n defnyddio cadair olwyn neu sydd â phramiau, yn ogystal â phobl hŷn a theuluoedd â phlant ifanc.

## Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

3.2.9 Mae Mesur a Safonau’r Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad effaith ystyried: pa effaith fyddai SDC yn ei chael ar y cyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio’r Gymraeg; sut y gallai SDC gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; a sut y gellid datblygu SDC fel bod effeithiau negyddol y byddai’r penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bobl eraill ddefnyddio’r Gymraeg cyn lleied â phosibl. Ystyriwyd hyn yn yr ACI.

3.2.10 Mae SDC yn ceisio sicrhau bod y system drafnidiaeth yn annog y defnydd rheolaidd o’r Gymraeg yn rhan o system sy’n ‘hygyrch i bawb’. Byddai’r defnydd o’r Gymraeg ar arwyddion (sy’n ofyniad cyfreithiol) ac yn cael ei siarad gan weithredwyr gwasanaethau trafnidiaeth yn helpu i hybu’r defnydd o’r Gymraeg, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i’r rhai sy’n dysgu’r iaith ymarfer mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

3.2.11 Byddai gwella cysylltiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru yn debygol o arwain at fynediad tecach at gyfleoedd addysg i bawb. Byddai gwneud hynny yn hwyluso mynediad tecach at gyfleoedd dysgu’r Gymraeg, er enghraifft yn rhan o ddysgu mewn ysgolion. Gallai gwella mynediad at ardaloedd gwledig wella bywiogrwydd a hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

3.2.12 Nid yw’r ACI wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol posibl o SDC o ran y Gymraeg.

## Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

3.2.13 Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn offeryn hawliau dynol craidd a dyma’r cytuniad rhyngwladol a gadarnhawyd yn fwyaf eang o bob un. Yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yw un o fesurau gweithredu cyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. Nod yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant yw nodi a fydd SDC yn effeithio ar blant hyd at 18 oed, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, a sut.

3.2.14 Mae SDC yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth yng Nghymru yn hygyrch ac yn ddiogel i bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae llawer o blant yn cerdded i’r ysgol, ac felly mae llwybrau diogel i gerddwyr a beicwyr yn hanfodol. Nod y Cynllun Cryno ar Deithio Llesol yw gwella llwybrau troed presennol a phan fo’n briodol, datblygu mwy o seilwaith llwybrau troed. Hefyd, byddai diogelwch y llwybrau troed hyn yn cael ei wella i gynnwys goleuadau. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gall plant deithio yn ddiogel rhwng eu cartrefi a’r ysgol, er enghraifft.

3.2.15 Mae gan blant hŷn a phobl ifanc yn gyffredinol fwy o ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig ar gyfer cael mynediad at gyfleusterau ysgol a hamdden. Byddai gwell diogelwch tybiedig bysiau, yn ogystal â mwy o wasanaethau bysiau o fudd i’r grwpiau hyn. Hefyd, nod SDC yw gwella cysylltedd rhwng gwahanol lwybrau trafnidiaeth, gan ganiatáu i blant fod yn fwy annibynnol yn eu dewisiadau trafnidiaeth.

3.2.16 Mae SDC yn ceisio gwella a chynnal amrywiaeth o wahanol opsiynau trafnidiaeth, gan arwain o bosibl at fwy o gysylltedd rhwng cymunedau. Gallai’r cysylltedd gwell hwn hefyd fod yn berthnasol i fannau gwyrdd ac agored, gan alluogi mwy o opsiynau ymarfer corff, yn enwedig i’r teuluoedd hynny â phlant ifanc efallai nad oes ganddynt fynediad at gerbydau preifat. Byddai hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc, sy’n elwa o fynediad at ganolfannau chwaraeon, mannau hamdden a chyfleoedd i gymdeithasu. Mae gan bobl ifanc yn gyffredinol ddymuniad i helpu i ddiogelu’r amgylchedd ac felly byddant yn fwy tebygol o gefnogi lleihau allyriadau a chynyddu defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus pe bai’r gwasanaethau yn ddiogel, wedi’u cynnal a’u cadw yn dda ac yn hygyrch.

## 3.3 Crynodeb o Asesiadau Effaith Anneddfwriaethol

### Prawfesur Gwledig

3.3.1 Mae ychydig dros un rhan o dair o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig ac er mwyn iddynt gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, mae angen iddynt deithio pellteroedd hwy yn nodweddiadol na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Byddai SDC yn annhebygol o ddatrys y broblem hon ar ei phen ei hun. Er y byddai rhai gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd yn caniatáu teithiau mwy effeithlon, mwy o gefnogaeth i gerbydau trydan, a gwelliannau i wasanaethau trafnidiaeth cymunedol sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig, byddai'n annhebygol o alluogi pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig i deithio mor effeithlon neu gynaliadwy â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Nid yw'n eglur i ba raddau y byddai'r allyriadau sy'n gysylltiedig â'r symudiadau trafnidiaeth o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael ei lleihau yn bendant o ganlyniad i SDC.

3.3.2 Mae mynediad at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn arbennig o gyfyngedig i gymunedau gwledig. Er y gallai fod mynediad da at lwybrau troed cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, mae'r rhain yn annhebygol o fod yn opsiynau ymarferol ar gyfer teithio i wasanaethau a chyfleusterau ac yn ôl. Mae SDC yn cydnabod bod ffyrdd a gyrru yn hanfodol i gymunedau gwledig a'i nod fyddai cynnal a gwella'r rhwydwaith ffyrdd i gadw cysylltedd cymunedau gwledig a mynd i'r afael â'r ynysigrwydd cymdeithasol a all fod yn gyffredin yma, yn enwedig i grwpiau fel pobl iau a hŷn.

3.3.3 Ar y llaw arall, gallai SDC helpu i ychwanegu amrywiaeth at y farchnad gyflogeion a lleihau anghydraddoldeb cyflogaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol trwy hyrwyddo gweithio gartref. Gan fod mwy o bobl yn gweithio gartref yn ystod pandemig COVID-19, mae'r arferion hyn yn cael eu derbyn fwy erbyn hyn ac mae'n debygol y bydd mwy o gyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig gael mynediad at amrywiaeth o swyddi.

3.3.4 Ar y cyfan, byddai SDC yn debygol o arwain at rai manteision i gymunedau gwledig, ond ni all SDC ar ei phen ei hun helpu i fynd i'r afael â'r holl broblemau hyn.

### Newid yn yr Hinsawdd

3.3.5 Byddai SDC yn debygol o arwain at ostyngiadau sylweddol i'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â sector trafnidiaeth Cymru. Byddai hyn yn cael ei gyflawni yn bennaf o ganlyniad i annog a hwyluso cyfraddau uwch o gerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a gostyngiadau dilynol i nifer y ceir ar y ffyrdd.

3.3.6 Byddai manteision ar arloesiadau technolegol a sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau yn agos at le mae pobl yn byw yn lleihau ymhellach yr angen i bobl deithio ac yn caniatáu iddynt deithio yn fwy effeithlon pan fyddant yn gwneud hynny. Gallai teithiau mwy effeithlon, ar gyfer symudiadau nwyddau helpu i leihau ôl troed carbon sector cludo nwyddau Cymru. Byddai SDC yn gwneud bod yn berchen ar gerbyd trydan neu lanach yn opsiwn mwy ymarferol yn hytrach na cherbyd sy'n cael ei bweru gan betrol neu ddiesel trwy gefnogi technolegau fel trydaneiddio a hydrogen fel tanwydd, yn ogystal â chyflwyno mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan, a fyddai'n cyfrannu at leihau allyriadau.

3.3.7 Serch hynny, er y byddai SDC yn debygol o hwyluso gostyngiadau sylweddol i allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â symudiadau ar y rhwydwaith ffyrdd, ceir perygl y bydd hyn yn cael ei danseilio i ryw raddau gan y diwydiant hedfanaeth yn ogystal ag oherwydd y boblogaeth fawr o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae cyfleoedd teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus ar eu cyfer yn annhebygol o wella yn sylweddol. Mae SDC wedi ymrwymo i gynnal sector hedfanaeth iach yng Nghymru ar gyfer ei fuddion economaidd sylweddol. Mae'r Cynllun Cryno ar gyfer Hedfanaeth yn ceisio sicrhau, er enghraifft, bod Maes Awyr Caerdydd yn rhoi strategaeth ddatgarboneiddio

gadarn ar waith a bod pobl yn mynd i feysydd awyr ar drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach nag mewn car er mwyn helpu i fantoli'r allyriadau hyn. Fodd bynnag, byddai'r mesurau a ddisgrifir yn SDC a'r Cynllun Cryno ar gyfer Hedfanaeth yn annhebygol o fantoli'r allyriadau sy'n gysylltiedig â hedfanaeth mewn gwirionedd. Mae ceir a cherbydau nwyddau trwm yn ffynhonnell lawer mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru nag yw hedfanaeth ar hyn o bryd; ni fyddai'r ymrwymiad i sector hedfanaeth iach yn arwain at effaith niweidiol cyffredinol ar yr Amcan ACI hwn o ganlyniad i SDC, ond gallai atal, neu ei gwneud yn fwy anodd o leiaf, gostyngiad sylweddol cyffredinol i allyriadau nwyon tŷ gwydr.

## Iechyd

3.3.8 Byddai SDC yn helpu i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o bobl. Byddai gwell mynediad at opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uwch sy'n cludo pobl i le maen nhw eisiau mynd yn arwain at fanteision iechyd - er enghraifft, trwy sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at gyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol yn well; galluogi mynediad at gyfleoedd ymarfer corff a hamdden; a galluogi mynediad at fannau agored a chynefinoedd lled naturiol (o fudd i iechyd a llesiant meddwl). Mae trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r perygl o ynysigrwydd cymdeithasol trwy gynnig mwy o gyfle ar gyfer rhyngweithio cymunedol anffurfiol gyda chymdogion lleol. Gall ffyrdd, ac yn enwedig ffyrdd prysur, arwain at wahanu cymunedau o bobtu'r ffordd, gan arwain at effeithiau a allai fod yn niweidiol i iechyd.

3.3.9 Mae SDC yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynyddol hygyrch trwy sicrhau bod seilwaith trafnidiaeth wedi'i leoli yn agos at gartrefi a bod datblygiadau yn hygyrch trwy gerdded a beicio. Mae'n debygol y bydd cyfleusterau cymunedol newydd, mannau hamdden yn ogystal â chyfleusterau iechyd newydd a mannau agored, yn cynyddu mynediad effeithlon a chynaliadwy gan bobl leol.

3.3.10 Mae SDC yn ceisio annog cyfraddau sylweddol uwch o gerdded a beicio ymhlith pobl yng Nghymru. Cerdded a beicio yw'r modd mwyaf cynaliadwy o deithio, ond maent hefyd yn cynnig buddion iechyd sylweddol, er enghraifft hybu ymarfer corff a helpu i leihau'r perygl o broblemau iechyd fel clefyd cardiofasgwlaidd.

3.3.11 Mae llygredd aer yn aruthrol o niweidiol i iechyd pobl, a chredir bod deunydd gronynnol a llygredd nitrogen deuocsid yn gysylltiedig â thua 2,700 o farwolaethau yng Nghymru bob blwyddyn[26]. Y sector trafnidiaeth sy'n gyfrifol am gyfran fawr o'r mathau hyn o lygredd. Byddai SDC yn annog ac yn hwyluso cyfraddau uwch o deithio llesol a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a fyddai'n debygol o leihau nifer y cerbydau llygredd uchel ar y ffyrdd a thrwy wneud hynny, yn helpu i leihau cyfradd y marwolaethau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â llygredd aer.

## Datblygu Economaidd

3.3.12 Mae'n debygol y byddai SDC yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu economaidd ac economi Cymru. Byddai cysylltiadau teithio llesol ac opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus gwell, a fyddai'n cael eu gwneud yn gynyddol hygyrch i bob person a chymuned, yn helpu i sicrhau mynediad tecach at gyfleoedd addysg a chyflogaeth.

3.3.13 Gallai gwelliannau teithio arwain at gynnydd i nifer yr ymwelwyr â lleoliadau penodol (er enghraifft canol trefi neu bentrefi), gan roi hwb i'r economi leol. Byddai hyn yn arbennig o wir lle caiff cysylltiadau teithio llesol eu gwella gan y gallai fwy o bobl ddechrau cerdded a beicio. Yn ogystal â denu cwsmeriaid ychwanegol o bosibl, gellid darparu mynediad i fusnesau at gronfa ehangach o ddarpar gyflogeion.

---

[26] Iechyd Cyhoeddus Cymru. *Estimating the mortality burden of air pollution in Wales*. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/opendoc/317890 [Gwelwyd: 12.02.21]

3.3.14 Ceir cysylltiad rhwng defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ac economi gryfach, oherwydd gwario ar y gwasanaeth trafnidiaeth ei hun a gwasanaethau atodol (fel siopau bwyd a diod) yn yr ardal gyfagos. Felly, trwy annog defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gallai SDC arwain at dwf economaidd. Byddai hwyluso mynediad at ganol trefi a strydoedd mawr, yn ogystal â digwyddiadau diwylliannol mawr ac asedau hanesyddol ac amgylcheddol, yn helpu ymhellach i ysgogi'r economi.

3.3.15 Byddai amseroedd teithiau mwy effeithlon, trwy lwybrau mwy croesawgar a diogel, yn gwella profiad y cwsmer wrth deithio ac, i'r rhai sy'n cymudo i'r gwaith ac yn ôl, yn golygu y byddent yn cyrraedd y gwaith wedi dioddef llai o straen ac yn gallu gweithio yn fwy cynhyrchiol, gan fod o fudd i economi Cymru. Byddai amseroedd teithiau mwy effeithlon hefyd o fudd sylweddol o ran symud nwyddau a gwasanaethau ledled Cymru, yn enwedig ar gyfer cysylltiadau busnes i fusnes a symudiadau nwyddau. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy leihau nifer y ceir ar y ffyrdd, rhwydwaith ffyrdd wedi ei gynnal a'i gadw yn dda, llwybrau mwy diogel, a thrwy fanteisio ar arloesiadau technolegol.

3.3.16 Byddai Cymru fwy cysylltiedig â llwybrau mwy effeithlon, deniadol a diogel, o fudd sylweddol i'r sector twristiaeth, gan fod pobl yn gallu cyrraedd Cymru yn fwy effeithlon o dramor bellach, neu i deithio ledled Cymru. Gallai gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol yng Nghymru hefyd gynyddu pa mor ddeniadol yw'r sector twristiaeth gweithgareddau, fel heicio neu feicio mynydd.

## 3.4 Asesiad o'r Effeithiau Cyfunol

3.4.1 Yn ogystal ag arfarnu pob cynnig yn SDC ar wahân, fe'u harfarnwyd ar y cyd ar gyfer eu heffeithiau cronnol, eilaidd a synergyddol tebygol yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI. Caiff canlyniadau'r broses hon eu crynhoi yn Nhabl 3.3 a'u cyflwyno'n llawn yn Nhabl 3.4.

*Tabl 3.3: Crynodeb o sgoriau yr asesiad o'r effeithiau cyfunol (asesiad llawn yn Nhabl 3.4)*

| | Amcan yr ACI | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1. Iechyd | 2. Cydlyniant a chydraddoldeb | 3. Datblygu economaidd | 4. Diwylliant Cymru | 5. Y Gymraeg | 6. Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | 7. Cydnerthedd yn erbyn newid hinsawdd | 8. Ansawdd aer | 9. Tirwedd a threfluniau | 10. Treftadaeth | 11. Ecosystemau | 12. Adnoddau Naturiol | 13. Tawelwch |
| SDC | ++ | ++ | ++ | + | + | +/- | + | + | + | + | + | + | + |

*Allwedd*:

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Cadarnhaol cryf (arwyddocaol)* | ++ | *Canlyniad ansicr* | ? |
| *Cadarnhaol mân* | + | *Negyddol mân* | - |
| *Canlyniad niwtral* | O | *Negyddol cryf (arwyddocaol)* | -- |
| *Ystod o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol* | +/- | | |

*Tabl 3.4: Asesiad o'r effeithiau cyfunol ar gyfer yr SDC Ddrafft (Hydref 2020)*

| Effeithiau cyfunol | Sgôr effaith cyffredinol |
|---|---|
| 1. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru | ++ |
| Byddai SDC yn helpu i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o bobl, yn enwedig o ganlyniad i'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Bysiau a Rheilffyrdd. Byddai gwell mynediad at opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd uwch sy'n cludo pobl i'r lleoedd y maen nhw angen mynd iddynt, a phryd y maen nhw angen cyrraedd yno, yn helpu i sicrhau bod gan bobl well mynediad at gyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol, cyfleoedd ymarfer corff a hamdden yn ogystal ag amrywiaeth eang o gynefinoedd lled-naturiol. Mae trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r perygl o ynysigrwydd cymdeithasol trwy gynnig dull o ryngweithio cymunedol anffurfiol â chymdogion lleol. Nid yw rhyngweithio cymdeithasol yn bosibl pan fo pobl yn ddibynnol ar geir preifat ar gyfer y rhan fwyaf o'u teithiau. Gall ffyrdd, a ffyrdd prysur yn benodol, hefyd arwain at rannu cymunedau o bobtu'r ffordd.<br>Nod SDC yw sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynyddol hygyrch trwy sicrhau bod seilwaith trafnidiaeth wedi'i leoli yn agos at gartrefi a bod datblygiadau yn hygyrch trwy gerdded a beicio. Caiff hyn ei atgyfnerthu trwy gydol yr Uchelgeisiau yn SDC yn ogystal â'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector. Mae'n debygol felly y gall yr holl bobl leol gael mynediad at gyfleusterau cymunedol newydd, mannau hamdden yn ogystal â chyfleusterau iechyd newydd a mannau agored, yn effeithlon ac yn gynaliadwy.<br>Gallai'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynllun Cryno ar Deithio Llesol hwyluso cyfraddau sylweddol uwch o gerdded a beicio i bobl yng Nghymru, sydd wedi bod yn ddisymud yn y blynyddoedd diwethaf. Cerdded a beicio yw'r dull mwyaf cynaliadwy o deithio ond mae hefyd yn cynnig manteision iechyd sylweddol, er enghraifft oherwydd ymarfer corff a'r rhyngweithio cymunedol cynyddol. Gallai annog ymarfer corff helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, lleihau cyfran y boblogaeth â gordewdra, a phroblemau iechyd eraill sy'n gysylltiedig â phwysau. Gallai gwelliannau i gysylltiadau teithio llesol fod yn arbennig o fuddiol i grwpiau penodol o gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, y rhai nad oes ganddynt fynediad at gar, a phlant sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.<br>Byddai SDC yn sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd strategol yn cael ei gynnal, yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol y Llywodraeth. Ei nod fyddai sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau newydd yn agos, neu mewn lleoliadau hygyrch, ar gyfer pobl sydd angen eu defnyddio (gweler Blaenoriaeth 1). Byddai hyn yn galluogi amseroedd teithiau mwy effeithlon a chyflymach i bobl, gan roi mwy o amser rhydd iddynt y tu allan i'w teithio neu eu cymudo, i ddilyn eu diddordebau personol eu hunain. Gallai hyn fod o fudd mawr i iechyd a llesiant pobl.<br>Mae llygredd aer yn aruthrol o niweidiol i iechyd pobl, a chredir fod deunydd gronynnol a llygredd nitrogen deuocsid yn gysylltiedig â thua 2,700 o farwolaethau yng Nghymru bob blwyddyn[27]. Y sector trafnidiaeth sy'n gyfrifol am gyfran fawr o'r mathau hyn o lygredd. Byddai SDC yn annog ac yn hwyluso cyfraddau uwch o deithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a fyddai'n debygol o leihau nifer y cerbydau llygredd uchel ar y ffordd a thrwy wneud hynny, byddai'n helpu i leihau cyfradd y marwolaethau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â llygredd aer.<br>O'u cyfuno, byddai'r gwelliannau i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, ynghyd â rhoi gwasanaethau mewn lleoliadau hygyrch ac ansawdd aer gwell, yn gwneud cyfraniad sylweddol at greu effaith synergyddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac yn helpu i sicrhau bod y system drafnidiaeth yn hwyluso gwelliannau i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl.<br>Yn sgil gwelliannau i dechnoleg ddigidol, mae mwy o bobl yn gweithio gartref yn rheolaidd. Mae pandemig COVID-19 a chyfyngiadau symud cysylltiedig wedi cynyddu'n sylweddol nifer y bobl sy'n gweithio gartref ac, i lawer o bobl, efallai y bydd hyn yn dod yn arferol. Mae SDC yn cydnabod bod angen gwelliannau i seilwaith digidol er mwyn hwyluso hyn. Mae'r daith yn ôl ac ymlaen i'r gwaith yn gyfle allweddol i ymarfer corff trwy gerdded a beicio, a chan fod pobl yn cymudo llai, mae SDC yn cydnabod y bydd yn gynyddol bwysig sicrhau bod y mannau eraill y mae pobl angen mynd iddynt (e.e. siopau, gwasanaethau, amwynderau, mannau diwylliannol) yn hygyrch trwy gerdded a beicio. Dylid nodi, er bod gweithio gartref yn cynnig cyfleoedd sylweddol o ran lleihau'r angen i bobl deithio a lleihau nifer y ceir ar y ffyrdd, y gall fod yn berygl i lesiant meddyliol pobl gan eu bod yn methu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol yn ogystal â chyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol ac yn gymunedol.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel uchel o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mawr (arwyddocaol) hirdymor, yn uniongyrchol (e.e. trwy leihau llygredd aer) ac yn anuniongyrchol (e.e. trwy wella hygyrchedd cyfleusterau iechyd o ganlyniad i well gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus), ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl ledled Cymru. | |

[27] Iechyd Cyhoeddus Cymru. *Estimating the mortality burden of air pollution in Wales*. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/opendoc/317890 [Gwelwyd: 12.02.21]

| Effeithiau cyfunol | Sgôr effaith cyffredinol |
|---|---|
| 2. Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | ++ |
| Byddai Uchelgeisiau a Blaenoriaethau SDC, yn ogystal â'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector, yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd trwy ddatblygu system sy'n hygyrch i holl aelodau cymdeithas, ac yn cael ei defnyddio ganddynt, a'i nod fydd cymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd defnyddwyr o wahanol gefndiroedd, rhyweddau, oedran ac anabledd. Byddai gwneud hynny yn gwella cyfle cyfartal o ran mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a chyfleusterau hamdden ac addysg. Mae SDC hefyd yn cyfeirio at y 'llwybr cydraddoldeb' sy'n ceisio sicrhau bod cydraddoldeb wedi ei integreiddio i gynllunio trafnidiaeth ar y lefel uchaf yn hytrach na chael ei ystyried yn fater ar wahân. Bydd hyn yn helpu i ymwreiddio'r mater o gydraddoldeb yn natblygiad cynlluniau a pholisïau trafnidiaeth yn y dyfodol.<br>Byddai defnyddio dulliau digidol arloesol, yn unol â'r Blaenoriaethau, yr Uchelgeisiau a'r Cynllun Cryno ar gyfer Rheilffyrdd, a sicrhau bod safbwyntiau defnyddwyr y system drafnidiaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth, yn helpu i sicrhau bod anghenion amrywiol poblogaeth gynyddol Cymru yn cael eu diwallu. Byddai trafnidiaeth gyhoeddus sy'n gallu cael ei defnyddio gan bawb beth bynnag fo'u cefndir, ac sy'n cael ei defnyddio ganddynt, yn helpu i wella cydlyniant cymdeithasol.<br>Mae SDC yn cydnabod y rhwystr y gall iaith ei greu, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg (gweler yr Uchelgais 'O ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg'), ac mae'n debygol y bydd y rhwystrau hyn yn cael eu herydu yn gynyddol o ganlyniad i SDC ac y byddai defnyddwyr tair iaith swyddogol Cymru (Cymraeg, Iaith Arwyddion Prydain a Saesneg) yn gallu gwneud defnydd cyfartal o'r system drafnidiaeth (gan gynnwys teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith ffyrdd) i'r un graddau.<br>Mae mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau teithio llesol yn arbennig o gyfyngedig mewn cymunedau gwledig. Er y gallai fod mynediad da at lwybrau troed cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, mae'r rhain yn annhebygol o fod yn opsiynau ymarferol ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i wasanaethau a chyfleusterau. Mae SDC yn cydnabod bod y defnydd o geir preifat yn hanfodol i gymunedau gwledig a byddai'n bwriadu cynnal a gwella'r rhwydwaith ffyrdd i gynnal cysylltedd cymunedau gwledig a mynd i'r afael â'r ynysigrwydd cymdeithasol a all fod yn gyffredin yma. Mae SDC hefyd yn cyfeirio at y 'llwybr gwledig', sydd â'r nod o fonitro cynnydd o ran yr ymrwymiadau gwledig yn Llwybr Newydd, i helpu i sicrhau bod cymunedau gwledig hefyd yn elwa o welliannau i drafnidiaeth.<br>Mae SDC yn cydnabod pwysigrwydd gwella diogelwch y system drafnidiaeth i'r holl ddefnyddwyr, a sicrhau ei bod yn croesawu pawb. Byddai'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar Fysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector yn arbennig o fuddiol i aelodau cymdeithas a allai deimlo'n llai diogel, neu aelodau agored i niwed mewn cymdeithas sy'n llai diogel yn ystadegol, wrth ddefnyddio cysylltiadau teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel uchel o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mawr (arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy sicrhau mynediad tecach at drafnidiaeth gyhoeddus sydd hefyd yn cael ei gwneud yn fwy diogel) ac yn anuniongyrchol (e.e. twf economaidd sydd o fudd i bawb yng Nghymru), ar gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb. | |
| 3. Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth | ++ |
| Byddai SDC yn cael effaith gadarnhaol gyfunol ar ddatblygu economaidd ac economi Cymru. Byddai gwell cysylltiadau teithio llesol ac opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus, a fyddai'n cael eu gwneud yn gynyddol hygyrch i bawb a phob cymuned, yn helpu i sicrhau bod mynediad mwy teg at gyfleoedd addysg a chyflogaeth, yn enwedig oherwydd Blaenoriaeth 1 a'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Bysiau, Rheilffyrdd, Ffyrdd, y Trydydd Sector a Thacsis a Cherbydau Hurio Preifat.<br>Gan y byddai pobl yn gallu teithio'n fwy effeithlon ac yn fwy rhydd, gallai fod cynnydd i nifer yr ymwelwyr ag ardaloedd economaidd pwysig, a fyddai'n rhoi hwb i'r economïau lleol. Byddai hyn yn arbennig o wir lle caiff cysylltiadau teithio eu gwella gan y byddai cyfraddau uwch o gerdded a beicio, a lle mae cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth yn cael eu gwella. Byddai hyn yn rhoi mynediad i fusnesau at gronfa ehangach o ddarpar gyflogeion.<br>Gallai SDC helpu i amrywio'r farchnad gyflogeion a lleihau anghydraddoldeb o ran cyflogaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol trwy hyrwyddo gweithio gartref, yn enwedig oherwydd Blaenoriaeth 1.<br>Mae'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn mynd law yn llaw ag economi gryfach, oherwydd gwariant ar y gwasanaeth trafnidiaeth ei hun ac ar wasanaethau atodol (fel siopau bwyd a diod) yn yr ardal. Trwy annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus felly, gallai SDC arwain at dwf economaidd.<br>Byddai gwella rhwyddineb mynediad at ganol trefi a'r stryd fawr, yn ogystal â digwyddiadau diwylliannol mawr ac asedau hanesyddol ac amgylcheddol (yn unol â Blaenoriaethau 2 a 3 a'r Cynlluniau Cryno ar Fysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector), hefyd yn helpu i ysgogi'r economi.<br>Gallai SDC gael effaith gadarnhaol ar economi Cymru trwy annog datblygiad 'canolfannau aml-fodd' newydd i symud nwyddau yn fwy cynaliadwy ledled Cymru. | |

| Effeithiau cyfunol | Sgôr effaith cyffredinol |
|---|---|
| Byddai amseroedd teithiau mwy effeithlon, trwy lwybrau mwy croesawgar a diogel, yn unol â Blaenoriaethau 2 a 3 a'r Cynlluniau Cryno ar Fysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector, yn gwella profiad y cwsmer wrth deithio ac yn golygu, i'r rhai sy'n cymudo yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, eu bod yn cyrraedd y gwaith dan lai o straen ac yn gallu gweithio'n fwy cynhyrchiol, gan fod o fantais i economi Cymru drwy hynny.<br>Byddai amseroedd teithiau mwy effeithlon hefyd o fudd sylweddol i symudiad nwyddau a gwasanaethau ledled Cymru, yn enwedig i gysylltiadau busnes i fusnes a symud nwyddau. Byddai hyn yn cael ei wneud trwy leihau nifer y ceir ar y ffyrdd, darparu rhwydwaith ffyrdd wedi'i gynnal a'i gadw yn dda, llwybrau mwy diogel, a thrwy fanteisio ar ddulliau technolegol arloesol yn y sector cludo nwyddau a logisteg yn unol â'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Ffyrdd, Cludo Nwyddau a Logisteg, Hedfanaeth a Phorthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol.<br>Byddai Cymru fwy cysylltiedig sydd â llwybrau mwy effeithlon, mwy deniadol a mwy diogel, (o ganlyniad, er enghraifft, i'r Uchelgeisiau, Blaenoriaethau 2 a 3 yn ogystal â'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector wedi'u cyfuno) o fudd sylweddol i'r sector twristiaeth, gan alluogi pobl i symud yn ddiogel ac yn effeithlon ar draws Cymru o dramor, neu i deithio drwy Gymru gyfan. Gallai gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol yng Nghymru hefyd gynyddu pa mor ddeniadol yw'r sector twristiaeth gweithgareddau, fel heicio neu feicio mynydd.<br>Bydd newid hinsawdd yn cael effaith ar yr economi dros gyfnod 20 mlynedd SDC. Yn unol â Blaenoriaeth 2 a'r Cynllun Cryno ar Ffyrdd, nod SDC yw sicrhau bod y system drafnidiaeth yn barod ar gyfer y dyfodol ac yn wydn i effeithiau perygl llifogydd, digwyddiadau tywydd eithafol neu erydu arfordirol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod manteision economaidd SDC yn gynaliadwy ac yn gydnerth.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel uchel o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mawr (arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. gwella effeithlonrwydd symudiad nwyddau a gwasanaethau) ac yn anuniongyrchol (e.e. trwy fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig buddion economaidd ehangach), ar ddatblygu economaidd ac amrywiaeth. | |
| 4. Diogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden | + |
| Mae SDC yn hyrwyddo ac yn ceisio darparu mynediad mwy cynaliadwy, cydnerth a theg i bawb at fannau diwylliannol a hamdden, yn enwedig oherwydd effeithiau cyfunol yr Uchelgeisiau, Blaenoriaeth 3 a 5 a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector.<br>Byddai mynediad mwy effeithlon a chynaliadwy at y mannau hyn, gan gynnwys i bobl leol a thwristiaid, yn gwella hyfywedd a bywiogrwydd economaidd i ganiatáu manteision parhaus i bobl leol dros gyfnod SDC.<br>Mae SDC yn cydnabod y straen y gall digwyddiadau diwylliannol a thwristiaeth graddfa fawr, fel digwyddiadau chwaraeon mawr, ei rhoi ar y system drafnidiaeth. Trwy'r Uchelgais 'O ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg' a'r Cynllun Cryno ar Fysiau, mae SDC yn ceisio sicrhau y gall y digwyddiadau hyn barhau i gael eu cynnal ac felly parhau i gael effaith gadarnhaol iawn ar economi, cymdeithas a diwylliant Cymru.<br>Mae'n debygol, mewn rhai ardaloedd, y gallai'r gwelliannau i gysylltiadau teithio llesol diogel a deniadol wella amgylchedd neu gymeriad yr ardal leol. O'u cyfuno â gostyngiad i nifer y cerbydau ar y ffyrdd, a all gael effaith niweidiol ar lonyddwch mannau hamdden neu ddiwylliannol oherwydd llygredd sŵn, aer a golau, byddai gwelliannau yn helpu i wella ansawdd a natur ddeniadol mannau diwylliannol a hamdden.<br>Ar y cyfan, mae'n debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy sicrhau bod mannau cyhoeddus yn hygyrch trwy gerdded a beicio) ac yn anuniongyrchol (e.e. gwella amgylchedd mannau hamdden ac felly eu gwneud yn fwy deniadol i ymwelwyr), ar ddiwylliant Cymru. | |
| 5. Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg | + |
| Mae Uchelgeisiau SDC, yn ogystal â'r Cynlluniau Cryno, yn ceisio sicrhau bod y system drafnidiaeth yn annog defnydd rheolaidd o'r Gymraeg yn rhan o system sy'n "hygyrch i bawb". Byddai sicrhau bod pob math o drafnidiaeth yn darparu gwybodaeth yn y Gymraeg yn helpu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r gwasanaethau trafnidiaeth.<br>Byddai gwella cysylltiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru yn debygol o arwain at fynediad mwy teg at gyfleoedd addysg i bobl beth bynnag fo'u cefndir. Byddai gwneud hynny yn hwyluso mynediad mwy teg at gyfleoedd dysgu Cymraeg, naill ai yn rhan o'u dysgu yn yr ysgol neu gan fod yr ysgol yn gyfleuster.<br>Ar y cyfan, mae'n debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn annog defnydd o'r Gymraeg) ac yn anuniongyrchol (e.e. gwella hygyrchedd ysgolion cyfrwng Cymraeg, ar y Gymraeg. | |

| Effeithiau cyfunol | Sgôr effaith cyffredinol |
|---|---|
| 6. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth | +/- |
| Mae'n debygol y byddai cynigion yn SDC mewn cyfuniad yn arwain at ostyngiadau i'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â sector trafnidiaeth Cymru. Byddai hyn yn cael ei gyflawni'n bennaf o ganlyniad i annog a hwyluso cyfraddau uwch o gerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at ostyngiadau dilynol i nifer y ceir ar y ffyrdd, yn unol â'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Teithio Llesol, Bysiau a Ffyrdd.<br>Byddai manteisio ar ddulliau technolegol arloesol a sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau yn agos at y lleoedd y mae pobl yn byw ynddynt, yn unol â'r Uchelgeisiau, Blaenoriaeth 1 a'r Cynllun Cryno ar gyfer Rheilffyrdd, yn lleihau ymhellach yr angen i bobl deithio ac yn caniatáu iddynt deithio'n fwy effeithlon pan fyddant yn gwneud hynny. Gallai teithiau mwy effeithlon ar gyfer symud nwyddau helpu i leihau ôl troed carbon sector cludo nwyddau Cymru.<br>Byddai SDC yn sicrhau y byddai bod yn berchen ar gerbyd trydan neu gerbyd glanach yn opsiwn mwy ymarferol yn hytrach na cherbyd sy'n cael ei bweru gan betrol neu ddiesel trwy gefnogi technolegau fel trydaneiddio a hydrogen fel tanwydd, yn ogystal â gosod mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan, a fyddai'n cyfrannu at leihau allyriadau. Mae SDC hefyd yn hyrwyddo trydaneiddio trafnidiaeth gyhoeddus. Byddai hyn yn cael ei gyflawni yn bennaf trwy gyfuniad o'r Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau, Rheilffyrdd a Thacsis a Cherbydau Hurio Preifat.<br>Fodd bynnag, er y byddai SDC yn debygol o hwyluso gostyngiadau sylweddol i allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â symudiadau ar y rhwydwaith ffyrdd, ceir perygl y byddai hyn yn cael ei danseilio i ryw raddau gan y diwydiant hedfanaeth, a hefyd oherwydd y nifer o bobl sy'n byw yn y Gymru fwy gwledig y mae cyfleoedd teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus yn annhebygol o wella'n sylweddol ar eu cyfer.<br>Mae SDC wedi ymrwymo i gynnal sector hedfanaeth iach yng Nghymru ar gyfer ei fanteision economaidd sylweddol. Mae'r Cynllun Cryno ar gyfer Hedfanaeth yn ceisio sicrhau, er enghraifft, bod Maes Awyr Caerdydd yn cyflwyno strategaeth ddatgarboneiddio gadarn. Fodd bynnag, byddai'r mesurau a ddisgrifir yn SDC a'r Cynllun Cryno ar gyfer Hedfanaeth yn annhebygol o fantoli'r allyriadau sy'n gysylltiedig â hedfanaeth mewn gwirionedd. Mae ceir a cherbydau nwyddau trwm yn ffynhonnell llawer mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru na hedfanaeth ar hyn o bryd, ac felly ni fyddai'r ymrwymiad i sector hedfanaeth iach yn arwain at effaith niweidiol gyffredinol ar Amcan hwn yr ACI, ond byddai'n debygol o atal gostyngiad sylweddol cyffredinol i allyriadau nwyon tŷ gwydr, neu o leiaf yn gwneud hynny'n fwy anodd.<br>Mae ychydig dros un rhan o dair o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd gwledig ac er mwyn iddynt gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol mae angen iddynt deithio pellteroedd mwy na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn nodweddiadol. Er bod SDC yn ceisio gwella mynediad a chyfleoedd trafnidiaeth gyhoeddus i'r rhai mewn ardaloedd gwledig, mae'n annhebygol y byddai SDC yn gallu datrys y broblem hon ar ei phen ei hun. Er y byddai rhai gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd gan alluogi teithiau mwy effeithlon, mwy o gefnogaeth i gerbydau trydan, a gwelliannau i wasanaethau trafnidiaeth gymunedol sy'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig, byddai'n annhebygol o alluogi pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig i deithio mor effeithlon ac mor gynaliadwy â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol, neu i fanteisio i'r eithaf ar gerbydau allyriadau isel fel y rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Nid yw'n eglur i ba raddau y byddai'r allyriadau sy'n gysylltiedig â symudiadau trafnidiaeth pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael eu lleihau yn weladwy o ganlyniad i SDC.<br>Dylid ystyried unrhyw ostyngiad i allyriadau nwyon tŷ gwydr yng nghyd-destun cyllidebau carbon Cymru, sy'n ymrwymo ar hyn o bryd i sero-net erbyn y flwyddyn 2050. Bydd SDC ar waith am 20 mlynedd, ac felly byddai angen iddi helpu i sicrhau bod y cyllidebau carbon hyn yn cael eu bodloni. Mae'n annhebygol bod sector hedfanaeth iach, neu barhad o'r sefyllfa lle nad yw tua un rhan o dair o boblogaeth Cymru yn gallu dibynnu ar deithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus, wir yn cydymffurfio â'r cyllidebau carbon hyn, nac yn cyfrannu at eu bodloni'n llwyddiannus.<br>Ar y cyfan, ystyrir, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r SDC yn arwain at gyfuniad o effeithiau positif ac effeithiau andwyol hirdymor ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br>Er y byddai'r cynigion yn SDC yn debygol o arwain at ostyngiad net i allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n hynod gadarnhaol, mae'n ansicr i ba raddau y byddai hyn yn cael ei danseilio gan sector hedfanaeth iach a dibyniaeth barhaus y boblogaeth wledig ar ddefnyddio ceir personol. Mae'n ymddangos yn annhebygol y byddai'r mesurau yn SDC yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar y cyflymder sy'n ofynnol i fodloni'r targed sero-net, er y gallai'r mesurau hyn fod yn fwy amlwg yn y cynlluniau cyflawni a ddatblygir o ganlyniad i SDC. | |
| 7. Galluogi cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd | + |
| Nod SDC yw diogelu seilwaith presennol ar gyfer y dyfodol, a fydd yn helpu i wneud y system drafnidiaeth yn fwy cydnerth i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig o ganlyniad i'r Uchelgeisiau a'r Cynlluniau Cryno. Byddai Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau, Rheilffyrdd a'r Trydydd Sector yn arwain at wella trafnidiaeth gyhoeddus o ran ei hyblygrwydd a'i gweithdrefnau brys i amddiffyn rhag llifogydd a digwyddiadau annisgwyl eraill. | |

| Effeithiau cyfunol | Sgôr effaith cyffredinol |
|---|---|
| Gallai cysylltiadau cerdded a beicio newydd a gwell, a hyrwyddir drwy'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynllun Cryno ar gyfer Teithio Llesol, arwain at gynnydd i'r gorchudd seilwaith gwyrdd ar hyd y llwybrau hyn, sy'n helpu i reoli dŵr wyneb ffo ac i liniaru perygl llifogydd. Nid yw SDC yn ceisio diogelu bioamrywiaeth ac ecosystemau a all fod yn nodweddion allweddol o ran galluogi cydnerthedd yn erbyn newid yn yr hinsawdd, fel storio carbon, gan helpu i liniaru perygl llifogydd a lleihau erydiad pridd.<br>Trwy greu system drafnidiaeth sydd yr un mor hygyrch i holl aelodau cymdeithas, dylai SDC gydnabod a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o ran mynediad at drafnidiaeth mewn digwyddiadau tywydd eithafol; byddai hyn yn helpu i gynyddu cydnerthedd y system drafnidiaeth i'r newid yn yr hinsawdd ac yn lleihau anghydraddoldebau rhwng ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig sydd fwy ar wahân. Mae SDC yn annog y defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, carbon isel, fel teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn hytrach na cherbydau preifat, a fyddai'n helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth ac yn sgil hynny yn lleihau cyfraniad Cymru at newid hinsawdd.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy wella cydnerthedd seilwaith trafnidiaeth i ddigwyddiadau tywydd eithafol) ac yn anuniongyrchol (e.e. trwy leihau achosion y newid yn yr hinsawdd), ar gydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. | |
| 8. Diogelu a gwella ansawdd aer | + |
| Mae llygredd aer yn aml yn deillio o'r un gweithgareddau â'r rhai sy'n cyfrannu at newid hinsawdd. Mae'r sector trafnidiaeth, ac yn enwedig ceir, cerbydau nwyddau trwm, awyrennau a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd, yn ffynonellau sylweddol o allyriadau nwyon tŷ gwydr a llygredd aer.<br>Nod SDC yw gwneud gostyngiad sylweddol i ddibyniaeth pobl ar geir i deithio. Byddai'n gwneud hynny trwy wella'r seilwaith ledled Cymru y mae dulliau trafnidiaeth allyriadau isel yn dibynnu arno, fel trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol, yn unol â'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Bysiau a Theithio Llesol. Byddai'r gostyngiad net i nifer y ceir yn helpu i leihau'r llygredd aer sy'n gysylltiedig â'r sector trafnidiaeth yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd mwy trefol lle mae ansawdd aer yn sylweddol waeth nag ardaloedd mwy gwledig.<br>Mae SDC yn ceisio cefnogi'r newid parhaus i gerbydau glanach, cerbydau trydan a dulliau trafnidiaeth eraill sy'n mabwysiadu technolegau arloesol fel hydrogen. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod allyriadau'r ceir hynny sy'n dal i fod ar y ffyrdd ac yn cael eu defnyddio yn aml yn cael eu lleihau. Byddai gwell cynnal a chadw a rheolaeth o'r rhwydwaith ffyrdd presennol, yn unol â Blaenoriaethau 2 a 3 a'r Cynllun Cryno ar gyfer Ffyrdd, hefyd yn debygol o ganiatáu teithiau mwy effeithlon sy'n arwain at lai o lygredd, gan gynnwys o ganlyniad i lai o dagfeydd a segura. Mae'n debygol y byddai rheolaeth a chynnal a chadw o'r fath yn cynnig cyfleoedd i wella seilwaith gwyrdd ar hyd coridorau ffyrdd, sy'n helpu i hidlo llygryddion aer allan a'u hymneilltuo.<br>Fodd bynnag, fel y disgrifir uchod o ran Amcan 6 yr ACI ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae SDC wedi ymrwymo i gynnal sector hedfanaeth iach yng Nghymru ar gyfer ei fanteision economaidd sylweddol. O ganlyniad, mae llygredd aer sy'n gysylltiedig â sector hedfanaeth Cymru yn annhebygol o leihau yn weladwy dros gyfnod SDC.<br>Mae'r broblem bosibl o ran y boblogaeth yng Nghymru sy'n byw mewn lleoliadau gwledig, lle nad oes ganddynt ddewis yn aml ond dibynnu ar ddefnyddio ceir personol ar gyfer cael mynediad at wasanaethau neu amwynderau, hefyd yn annhebygol o gael ei datrys. Mae'n annhebygol felly y bydd y llygredd aer sy'n gysylltiedig â symudiadau pobl sy'n byw yng nghefn gwlad yn cael ei leihau'n sylweddol.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy leihau llygredd aer yn gysylltiedig â defnydd o geir) ac yn anuniongyrchol (e.e. cynnwys seilwaith gwyrdd am ymneilltuo llygredd aer mewn coridorau trafnidiaeth), ar lygredd aer. Mae effaith gadarnhaol fawr yn ymddangos yn annhebygol o gofio'r ymrwymiad parhaus i sector hedfanaeth iach yn ogystal â'r broblem sydd heb ei datrys o ddibyniaeth y boblogaeth wledig ar ddefnydd o geir personol. | |
| 9. Diogelu a gwella unigrywedd lleol ein tirweddau a'n trefluniau | + |
| Mae'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol a Bysiau SDC yn cydnabod pwysigrwydd diogelu a gwella tirweddau a threfluniau unigryw Cymru.<br>Byddai'r gostyngiad tebygol i nifer y ceir ar y ffyrdd, wedi'i gyflawni yn bennaf drwy'r Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar gyfer Teithio Llesol a Bysiau, yn helpu i osgoi'r effeithiau niweidiol y gall ffyrdd eu cael ar gymeriad tirweddau a threfluniau, a sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl, gan gynnwys trwy lygredd sŵn, aer a golau yn ogystal â thrwy fod â gwerth amwynder gweledol isel. Byddai hyn o fudd arbennig i ganolfannau aneddiadau hanesyddol yn ogystal â'r tirweddau naturiol unigryw sy'n gyffredin yn ardaloedd mwy gwledig Cymru.<br>Nod SDC yw gwella'r broses o reoli a chynnal a chadw seilwaith trafnidiaeth presennol, yn unol â Blaenoriaethau 2 a 3, a allai gynnwys glendid gwell a mesurau gwella a fyddai'n arwain at fuddion o ran gwella tirweddau a threfluniau. | |

| Effeithiau cyfunol | Sgôr effaith cyffredinol |
| --- | --- |
| Yn unol â'r Uchelgais 'O ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg' y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno, mae SDC hefyd yn ceisio sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol a naturiol yn cael ei warchod a'i wella a bod yr egwyddor hon yn cael ei hymwreiddio ym mhob seilwaith trafnidiaeth newydd. Mewn llawer o achosion, mae trefluniau a thirweddau unigryw Cymru o werth hanesyddol a/neu fioamrywiaeth sylweddol. Drwy warchod ac, mewn rhai achosion, wella'r gwerth hwn, byddai'n debygol o fod o fudd i gymeriad trefluniau a thirweddau lleol. Mae SDC yn hybu gwelliant seilwaith gwyrdd ac mae'r manteision yn cynnwys gwerth amwynder gweledol uchel seilwaith gwyrdd a chynefinoedd lled naturiol, yn ogystal â'i swyddogaeth o sgrinio ardaloedd rhag effeithiau gweledol datblygiadau newydd.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy leihau effaith weledol ceir ar y ffordd) ac yn anuniongyrchol (e.e. trwy warchod a gwella bioamrywiaeth), ar unigrywedd lleol ein tirweddau a'n trefluniau. | |
| 10. Hybu camau i warchod a gwella asedau treftadaeth | + |
| Mae SDC, a'r Uchelgais 'O ddaioni i ddiwylliant a'r Gymraeg' yn arbennig, yn cydnabod yr angen gwarchod a gwella asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol Cymru. Ledled Cymru, mae rheilffyrdd, twnelau a llwybrau hanesyddol o werth treftadaeth sylweddol. Mae'n debygol, mewn llawer o achosion, y byddai'r buddsoddiad sy'n cael ei gyfeirio at drafnidiaeth yn helpu i ddiogelu a gwella'r asedau hyn drwy sicrhau nad ydynt yn mynd i gyflwr gwael.<br>Yn yr un modd â chymeriad tirweddau a threfluniau, byddai'r gostyngiad i nifer y ceir ar y ffyrdd wedi'i achosi gan yr Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a'r Cynlluniau Cryno ar Deithio Llesol, Rheilffyrdd a Bysiau, a'r gallu dilynol i osgoi ymyriadau sŵn, aer, golau ac ymyriadau gweledol eraill, a sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl, yn helpu i ddiogelu amgylchedd asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol.<br>Mae'n debygol y byddai'n ofynnol i waith cynnal a chadw a rheoli seilwaith trafnidiaeth presennol, a'r ddarpariaeth o unrhyw seilwaith trafnidiaeth newydd ystyried yr effeithiau posibl ar unrhyw asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol cyfagos, ac ymgorffori elfennau sy'n helpu i wella eu hamgylchedd. Gallai hyn fod yn wir i bontydd hanesyddol yn benodol, a allai fod mewn perygl o ddifrod o gerbydau nwyddau trwm a cherbydau mawr yn eu croesi.<br>Mae diogelu a gwella bioamrywiaeth yn ddull sydd wedi'i ymwreiddio drwy SDC a allai fod o fudd posibl i amgylchedd asedau treftadaeth ac ardaloedd hanesyddol oherwydd amwynder gweledol uchel seilwaith gwyrdd a chynefinoedd lled-naturiol, yn ogystal â'i swyddogaeth o ran sgrinio ardaloedd rhag effeithiau gweledol datblygiad newydd.<br>Byddai gwella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol lleoedd ledled Cymru yn debygol o helpu i wella hygyrchedd ardaloedd hanesyddol ac asedau treftadaeth i bawb o bob cefndir, gan gynnwys pobl leol a thwristiaid. Byddai hyn yn helpu i hyrwyddo pwysigrwydd yr asedau a'r ardaloedd hyn a gallai arwain yn sgil hynny at fuddsoddiad newydd, fel cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a fyddai'n helpu i ddiogelu asedau ac ardaloedd treftadaeth i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth sydd hefyd yn ased treftadaeth) ac yn anuniongyrchol (e.e. trwy wella hygyrchedd asedau treftadaeth sy'n cynnig mwy o incwm i'r ardaloedd hyn), ar asedau treftadaeth. | |
| 11. Hybu camau i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth | + |

| Effeithiau cyfunol | Sgôr effaith cyffredinol |
|---|---|
| Wedi'i hymwreiddio yn SDC mae dealltwriaeth o'r angen i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, geoamrywiaeth ac ecosystemau, ac mae SDC yn ceisio sicrhau bod y system drafnidiaeth yn mabwysiadu strategaethau rheoli tir cynaliadwy sy'n cynnwys cydnerthedd ecosystemau mewn gweithrediadau trafnidiaeth. Ar ei ffurf bresennol, gall y sector trafnidiaeth beri bygythiadau sylweddol i gynefinoedd a rhywogaethau, gan gynnwys gwahanu cynefinoedd, ynysu rhywogaethau, a gall arwain at lefelau o lygredd sy'n uwch na llwythi critigol cynefinoedd sensitif. Gall ymyriadau sŵn a golau o'r sector trafnidiaeth fod yn hynod niweidiol i rai rhywogaethau hefyd.<br>Mae SDC yn canolbwyntio ar gynnal y rhwydwaith ffyrdd presennol gan wella cysylltiadau teithio llesol, yn unol â'r Uchelgeisiau a'r Blaenoriaethau a'r Cynllun Cryno ar gyfer Ffyrdd. Mae'n debygol y byddai effeithiau niweidiol ar gynefinoedd, wedi'u hachosi gan ffyrdd newydd yn eu gwahanu ac yn ynysu rhywogaethau, yn cael eu hosgoi yn gyffredinol. Gall cynlluniau ffyrdd newydd beri risg i geoamrywiaeth oherwydd y gwaith helaeth sy'n ofynnol i baratoi'r pridd, ac felly gall osgoi unrhyw ffyrdd newydd fod yn fodd effeithiol o warchod asedau geoamrywiaeth pwysig Cymru. Ceir elfen o ansicrwydd yma gan ei bod yn aneglur o dan ba amgylchiadau yn union y byddai SDC yn caniatáu cynlluniau ffyrdd newydd.<br>Byddai'r newid i ddulliau teithio allyriadau isel, gan gynnwys teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a thrydaneiddio yn helpu i osgoi effeithiau niweidiol ar gynefinoedd sy'n sensitif i ansawdd aer, a sicrhau bod yr effeithiau hyn cyn lleied â phosibl, yn enwedig lle mae lefelau eisoes yn uwch na'u llwythi critigol.<br>Gallai gwella a chynnal a chadw cynlluniau ffyrdd presennol helpu i leihau effaith trafnidiaeth ar fioamrywiaeth ac yn cynnig cyfle i integreiddio ecosystemau a seilwaith gwyrdd mewn prosiectau gwella. Gallai hyn arwain at ecosystemau mwy cydnerth. Mae'n debygol y byddai cynnal a chadw a rheoli seilwaith trafnidiaeth presennol yn cynnig cyfleoedd i gynnwys elfennau sy'n cynyddu eu gwerth bioamrywiaeth, fel gosod seilwaith gwyrdd ar hyd coridorau ffyrdd. Lle caiff llwybrau cerdded a beicio newydd eu gosod, byddai'r rhain yn cynnig cyfle i gynnwys elfennau seilwaith gwyrdd sy'n fioamrywiol ond hefyd yn cynnig buddion ehangach i'r ecosystem gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt, gwelliannau i ansawdd aer, hidlo dŵr, dal a storio carbon a gwelliannau i dirweddau a threfluniau. Mae'n ymddangos bod SDC yn mynd ar drywydd cysylltiadau cerdded a beicio o'r natur hwn, er bod elfen o ansicrwydd ynghylch i ba raddau y byddent yn cael eu darparu.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy gynnwys elfennau seilwaith gwyrdd bioamrywiaeth mewn seilwaith trafnidiaeth) ac yn anuniongyrchol (e.e. trwy leihau llygredd aer), ar fioamrywiaeth. Dylid ystyried yr effeithiau cadarnhaol mân hyn yng nghyd-destun Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, sy'n tynnu sylw at yr angen brys i fodloni amcanion ac uchelgeisiau adfer natur yng Nghymru. | |
| 12. Sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | + |
| Mae SDC yn annog y defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, carbon isel, fel teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn hytrach na cheir preifat, yn ogystal â thrydaneiddio trafnidiaeth, a fyddai'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar ymdrechion i leihau'r defnydd o adnoddau naturiol fel tanwyddau ffosil. Mae SDC yn ceisio lleihau'r angen i deithio, gan leihau ymhellach faint o adnoddau naturiol a ddefnyddir yn y sector.<br>Wedi'i hymwreiddio trwy SDC mae'r ymdrech i sicrhau system drafnidiaeth gynaliadwy sy'n annog y defnydd o ddeunyddiau ailgylchu a chynaliadwy wrth ddatblygu seilwaith trafnidiaeth pan fo'n bosibl. Gallai hyn helpu i leihau'r defnydd o ddeunyddiau, a chynhyrchu gwastraff, sy'n gysylltiedig â'r sector trafnidiaeth. Mae'r Uchelgeisiau, Blaenoriaethau 2 a 3 a'r Cynllun Cryno ar gyfer Ffyrdd yn gwneud ymdrech bendant i leihau gwastraff a chadwyn gyflenwi fwy cynaliadwy.<br>Mae'n bosibl y byddai SDC yn arwain at lai o gynlluniau ffyrdd newydd, gan annog y defnydd o ddeunyddiau sy'n cynyddu oes gwasanaeth, sy'n golygu bod angen llai o ddeunyddiau ac yn galluogi cwmpas ehangach i ddefnyddio deunyddiau ailgylchu. Gallai cynnal a chadw seilwaith trafnidiaeth presennol helpu i leihau faint o seilwaith newydd sydd ei angen, ac felly lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gwell yn debygol o'i gwneud yn ofynnol defnyddio adnoddau naturiol i ryw raddau.<br>Byddai SDC yn arwain at lai o geir ar y ffyrdd. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn y llygryddion o bibellau gwacáu neu ollyngiadau yn syrthio ar y tarmac; yna ceir llai o siawns y bydd dŵr wyneb ffo yn cludo'r llygryddion hyn i mewn i'r pridd, i ddŵr daear ac i ddŵr wyneb, gan arwain at welliant i'w hansawdd. Gall traul teiars ceir ar ffyrdd fod yn ffynhonnell sylweddol o lygredd plastig yn yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys yn yr amgylchedd dŵr, ac mae'n debygol y byddai hyn yn cael ei leihau i ryw raddau gan gynigion trwy SDC oherwydd y symudiad tuag at deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai'r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor, gan gynnwys yn uniongyrchol (e.e. trwy leihau'r defnydd o adnoddau naturiol ar gyfer cynlluniau ffyrdd newydd) ac yn anuniongyrchol (e.e. trwy leihau traul teiars ar ffyrdd newydd ac felly diogelu ansawdd dŵr), ar adnoddau naturiol. | |

| Effeithiau cyfunol | Sgôr effaith cyffredinol |
|---|---|
| 13. Galluogi camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau | + |
| Byddai SDC yn cynyddu’r niferoedd sy’n manteisio ar ddulliau trafnidiaeth cyhoeddus a llesol, yn enwedig oherwydd yr Uchelgeisiau, y Blaenoriaethau a’r Cynlluniau Cryno ar Fysiau, Rheilffyrdd a Theithio Llesol, gan leihau’r defnydd o geir; byddai hyn yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol ar ddiogelu ardaloedd tawel oherwydd gostyngiad mewn sŵn a llygredd golau.<br>Trwy ei chefnogaeth i gerbydau trydan, sy’n llawer mwy tawel na cherbydau petrol a diesel, mae’n debygol y byddai SDC yn helpu i leihau ymyriadau sŵn sy’n gysylltiedig â thrafnidiaeth.<br>O ran llygredd golau, disgwylir mai gostyngiad i nifer y ceir ar y ffyrdd fyddai’r unig agwedd ar SDC a fyddai’n arwain at fanteision, gan y byddai nodau eraill SDC, fel gwneud trafnidiaeth yn fwy diogel (gan gynnwys safleoedd bws a llwybrau cerdded/ beicio) yn arwain at fwy o oleuadau i helpu i leihau’r ofn o drosedd.<br>Ar y cyfan, ystyrir ei bod yn debygol, â lefel ganolig o sicrwydd, y byddai’r cynigion yn SDC yn arwain yn gyfunol at effeithiau cadarnhaol mân (ddim yn arwyddocaol) hirdymor uniongyrchol ar dawelwch. | |

## 3.5 Osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl

3.5.1 Cyflwynir crynodeb o argymhellion a wnaed ar gyfer y SDC Derfynol yn Nhabl 3.5.

3.5.2 Nodir bod yr argymhellion canlynol (o'r fersiwn flaenorol o'r asesiad (Hydref 2020) wedi eu hadlewyrchu bellach (i ryw raddau) yn y SDC Derfynol (Mawrth 2021):

Cynllun Cryno: Teithio Llesol

- Gallai'r Cynllun Cryno gynnwys mwy o fanylion am gysylltiadau cerdded a beicio - yn ddelfrydol, byddai'r rhain yn llwybrau diogel a deniadol sy'n annog pobl i gerdded neu feicio. Byddent o werth bioamrywiaeth uchel sy'n cysylltu â'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach, ac sy'n cynnig manteision naturiol i bob agwedd ar gynaliadwyedd gan gynnwys gwella tir y cyhoedd (manteision cymdeithasol ac economaidd); manteision iechyd; gwerth bioamrywiaeth ac amwynder gweledol; amddiffyn rhag llifogydd; ansawdd aer; cyfoethogi pridd; coridorau bywyd gwyllt.
- Mae'r Cynllun Cryno yn cyfeirio at ddatblygiadau newydd, ond dylid rhoi pwyslais hefyd ar wella ac ymestyn llwybrau presennol i leihau achosion o wahanu cymunedau o bobtu'r ffordd a chynyddu'r niferoedd sy'n cerdded a beicio.
- Gellir dylunio cysylltiadau cerdded a beicio yn y fath fodd eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad lleol, er enghraifft gwyrddu neu dir y cyhoedd. Gellid ychwanegu hwn at y Cynllun Cryno.
- Gellid ystyried cynlluniau i ddarparu neu roi benthyg beiciau ac offer beicio i drigolion ardaloedd o amddifadedd na allant fforddio brynu rhai eu hunain. Byddai hyn yn helpu i leihau anghydraddoldeb iechyd trwy roi mynediad cyfartal i bawb at gyfleoedd ymarfer corff efallai na fyddent yn eu cael fel arall.
- Mae'r Cynllun Cryno yn cyfeirio at ddatblygiadau newydd, ond dylid rhoi pwyslais hefyd ar wella ac ymestyn llwybrau presennol i leihau achosion o wahanu cymunedau o bobtu'r ffordd a chynyddu'r niferoedd sy'n cerdded a beicio.

Cynllun Cryno: Bysiau

- Gallai bysiau helpu i reoli teithio mewn ardaloedd twristiaeth yn ystod cyfnodau brig neu ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer digwyddiadau, a allai gynnwys gwasanaethau Parcio a Theithio. Hefyd, gallai bysiau wella mynediad at safleoedd diwylliannol o ddiddordeb – gellid cynnig prisiau tocynnau gostyngedig neu fynediad rhatach mewn safleoedd treftadaeth er enghraifft, i annog pobl i deithio'n gynaliadwy.

Cynllun Cryno: Rheilffyrdd

- Mae'r Cynllun Cryno yn sôn am heriau yn gysylltiedig â rheilffyrdd oherwydd natur wledig llawer o Gymru ond nid yw'n nodi cyfleoedd ar gyfer sut y gall pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gael gwell mynediad at wasanaethau rheilffyrdd.
- Gallai'r Cynllun Cryno gynnwys mwy o fanylion am sut y bydd gwasanaethau rheilffyrdd a mynediad at orsafoedd rheilffordd yn y canolbarth yn cael eu gwella.
- Dylai'r Cynllun Cryno gyflwyno yn eglur mesurau i sicrhau bod gwasanaethau rheilffyrdd yn fforddiadwy ac yn fodd trafnidiaeth ymarferol i ddefnyddwyr sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Dylai'r Cynllun Cryno gyfeirio at y ffaith y bydd angen i wasanaethau rheilffyrdd addasu er mwyn darparu ar gyfer digwyddiadau mawr, er enghraifft y ddarpariaeth o gerbydau ychwanegol i gludo pobl neu effaith cau llinellau rheilffordd oherwydd llifogydd.

Cynllun Cryno: Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio

- Gallai SDC ystyried cynnwys mesurau cyllidol, fel Trethi Parcio yn y Gweithle neu gynyddu cost parcio i leihau tagfeydd a'r defnydd o geir.
- Dylai SDC sicrhau bod mynediad at gerbydau trydan yn fwy teg trwy seilwaith gwefru cerbydau trydan hygyrch. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig ac ynysig, lle nad yw defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus bob amser yn opsiwn ymarferol.

Cynllun Cryno: Cludo Nwyddau a Logisteg

- Gellid ehangu manylion y Cynllun Cryno i wneud yn siŵr nad yw grwpiau yn ymwneud ag anableddau neu rywedd o dan anfantais oherwydd pryderon tybiedig ynghylch rhai llwybrau oherwydd llifau traffig cerbydau nwyddau trwm.

*Tabl 3.5: Argymhellion yr ACI ar gyfer yr SDC Derfynol (Mawrth 2021)*

| Adran SDC | Argymhellion |
|---|---|
| Blaenoriaeth 2: Caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws trwy drafnidiaeth gynaliadwy | • Mae SDC yn disgrifio hierarchaeth cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy. Byddai'n ddefnyddiol cyflwyno'r hierarchaeth ar ffurf diagram. |
| Blaenoriaeth 3: Annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy | • Dylid darparu unrhyw ddulliau arloesi, fel datblygiad apiau, mewn ieithoedd ac eithrio Cymraeg a Saesneg – gellid datgan hyn i ganiatáu gwell hygyrchedd.<br>• Gellid defnyddio seilwaith data i greu system sy'n fwy ymatebol i ddigwyddiadau eithafol, fel llifogydd. Gallai diweddariadau amser real roi gwybodaeth fanwl i'r cyhoedd am y digwyddiad a chyngor ar sut i deithio. |
| Uchelgais: O ddaioni i bobl a chymunedau | • Mae'r Cynllun Cryno yn nodi y bydd yn mynd i'r afael â rhwystrau ffisegol, economaidd a chymdeithasol drwy'r chwe Amcan Trafnidiaeth Gyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol, trwy fabwysiadu arfer gorau ar ddylunio cynhwysol a thrwy hyfforddiant staff a safonau gwasanaeth. Gellid darparu rhagor o wybodaeth am hyn.<br>• **Diwygiwyd SDC yn dilyn yr argymhelliad hwn**. |
| Uchelgais: O ddaioni i'r amgylchedd | • Lle mae'r uchelgais yn nodi y bydd yn cymryd i ystyriaeth yr effaith ar fioamrywiaeth, argymhellir y dylid diwygio hwn i sicrhau lles net cyffredinol o ran bioamrywiaeth.<br>• **Dilëwyd y frawddeg hon o SDC, felly nid yw'r argymhelliad yn berthnasol mwyach**. |
| Uchelgais: O ddaioni i'r economi a lleoedd yng Nghymru | • Mae'r uchelgais yn nodi ei bod yn dymuno i Gymru fod yn ganolfan ar gyfer technoleg arloesol fel dylunio a chynhyrchu technoleg hydrogen, trydan a hybrid sy'n lleihau allyriadau carbon o drafnidiaeth. Argymhellir bod hwn yn cyfeirio at 'allyriadau' yn hytrach nag 'allyriadau carbon' gan y gall yr allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gynnwys deunydd gronynnol ac $NO_2$ er enghraifft.<br>• Yn ogystal â chanolbwyntio ar drafnidiaeth fwy cynaliadwy, gallai dulliau technolegol arloesol gynnwys trafnidiaeth a fydd yn ymdopi'n well mewn amodau tywydd eithafol mewn ardaloedd gwledig, fel eira, nag y mae dulliau trafnidiaeth presennol yn gallu ei wneud. Mae'r heriau yr ydym yn eu hwynebu o'r hinsawdd yn newid, ac mae angen i dechnolegau trafnidiaeth newydd adlewyrchu hynny.<br>• Gallai'r testun yn ymwneud â datblygu technolegau newydd gynnwys cyfeiriad at ddefnyddio deunyddiau ailgylchu. |
| Cynllun Cryno: Teithio Llesol | • Gallai'r Cynllun Cryno fynd ymhellach i annog proses o wella a datblygu'r rhwydwaith beicio cenedlaethol a chynnwys manylion ar sut y gellid gwella mynediad at safleoedd hanesyddol o ganlyniad, gan helpu i wella'r economi ymwelwyr.<br>• Mae'r Cynllun Cryno yn nodi y bydd seilwaith yn cael ei uwchraddio i ymdrin ag effaith y newid yn yr hinsawdd, ond gellid cynnwys manylion y mesurau hyn. |
| Cynllun Cryno: Rheilffyrdd | • Argymhellir bod 'gwarchod' yn cael ei ddefnyddio yn y Cynllun Cryno yn hytrach na 'diogelu a chynnal', gan fod hyn yn caniatáu hyblygrwydd a defnydd parhaus o'r ased i adlewyrchu anghenion sy'n newid. |

| Adran SDC | Argymhellion |
|---|---|
| Cynllun Cryno: Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | • Gallai'r Cynllun Cryno gynnwys mesurau i geisio lleihau effaith y rhwydwaith ffyrdd o ran llygredd sŵn a golau, a allai gynnwys deunyddiau adeiladu ffyrdd penodol neu'r defnydd o glustogfeydd naturiol, a allai hefyd gyfrannu at well bioamrywiaeth ac ansawdd aer. |
| Cynllun Cryno: Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat | • Dylai'r Cynllun Cryno gydnabod na all pawb fforddio defnyddio tacsis neu gerbydau hurio preifat er mai'r cerbydau hyn yw'r unig drafnidiaeth sydd ar gael, yn dibynnu ar leoliad (ardaloedd gwledig neu led wledig) neu'r amser o'r dydd. Gallai'r Cynllun Cryno Geisio gwneud tacsis a cherbydau hurio preifat yn fwy fforddiadwy a gallai gynnwys mesurau i sybsideiddio pris tacsis i'r rhai sydd â hurio preifat fel eu hunig opsiwn.<br>• Argymhellir bod y geiriad *"mae llai o angen ceir preifat a mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus"* yn cael ei ddileu o'r Cynllun Cryno.<br>• **Cymerwyd yr argymhelliad hwn i ystyriaeth yn y diwygiadau terfynol, a diwygiwyd SDC i ddweud 'cerbydau hurio preifat' yn hytrach na 'trafnidiaeth gyhoeddus'.** |
| Cynllun Cryno: Cludo nwyddau a logisteg | • Gallai'r Cynllun Cryno ystyried sut y bydd SDC yn mynd i'r afael â gwelliannau i ffyrdd sydd eu hangen ar gyfer cludo nwyddau, er enghraifft, ffyrdd cul mewn ardaloedd gwledig sy'n cyfyngu cludiant nwyddau ac yn arwain at wyriadau maith neu rai rhannau o'r gymuned yn methu â chael gafael ar wasanaethau penodol.<br>• Gellid cyfeirio yn y Cynllun Cryno at Ardaloedd Blaenoriaeth Cynlluniau Gweithredu ynghylch Sŵn ar hyd y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a llwybrau cludo nwyddau allweddol eraill a sut y bydd llygredd sŵn yn cael ei leihau i dderbynyddion ar hyd y llwybrau hyn. |
| Cynllun Cryno: Cludo Nwyddau a Logisteg | • Gallai SDC gynnwys cyfeiriad at swyddi a grëwyd yn y diwydiant cludo nwyddau a logisteg, sydd o fudd i'r economi.<br>• Gallai SDC gynnwys buddsoddi mewn Ardaloedd Menter a'r diwydiannau gweithgynhyrchu/technoleg yng Nghymru, i leihau milltiroedd cludo nwyddau.<br>• Nid oes unrhyw gyfeiriad at effeithiau posibl Brexit ar y diwydiant cludo nwyddau a sut y gellid lliniaru'r rain. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio o Iwerddon fod yn destun archwiliadau ychwanegol os bydd sefyllfa Brexit 'dim cytundeb', ond ni sonnir am yr oediadau hyn ac nid awgrymir camau lliniaru. Dylid cynnwys hyn.<br>• Trwy annog mewnfuddsoddiad a buddsoddi mewn diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru, gellir lleihau milltiroedd cludo nwyddau, gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth.<br>• Dylai'r cynllun cryno esbonio sut y bydd rhwydweithiau cludo nwyddau a logisteg yn addasu i hinsawdd sy'n newid, gan gynnwys perygl o lifogydd ac erydu arfordirol ar hyd llwybrau allweddol.<br>• Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i addasu ar ôl Brexit.<br>• Gwella a chynnal lleiniau ymyl y ffordd a llwybrau bioamrywiaeth ar hyd llwybrau cludo nwyddau allweddol, a chynnwys pontydd cynefin yn nyluniadau'r dyfodol.<br>• Gellir cynnwys pŵer hydrogen mewn gwasanaethau cludo nwyddau a bysiau, gan gynnwys defnyddio adnoddau naturiol |
| Cynllun Cryno: Porthladdoedd a Thrafnidiaeth Forol | • Dylai'r Cynllun Cryno ystyried sut y bydd porthladdoedd a harbyrau yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys rheoli llifogydd arfordirol ac amddiffyn gorlifdiroedd ac addasu arfordirol oherwydd erydu arfordirol.<br>• Gallai'r Cynllun Cryno archwilio ymhellach y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer mynediad at borthladdoedd a harbyrau.<br>• Gallai'r Cynllun Cryno nodi mesurau ar sut y bydd gweithredwyr porthladdoedd yn hybu defnydd o'r Gymraeg.<br>• Dylai'r Cynllun Cryno alinio yn fwy agos ag Amcanion 10 ac 11 dogfen Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru[28]:<br>  ○ Diogelu, gwarchod, adfer a gwella bioamrywiaeth forol i atal a gwrthdroi ei dirywiad gan gynnwys cefnogi datblygiad a gweithrediad rhwydwaith wedi'i reoli'n dda sy'n ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a phoblogaethau cydnerth o rywogaethau cynrychiadol, prin ac agored i niwed.<br>  ○ Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol a'r manteision y maent yn eu cynnig er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. |
| Cynllun Cryno: Hedfanaeth | • Gallai'r Cynllun Cryno gynnwys mesurau a thargedau lleihau llygredd sŵn a golau posibl, yn ogystal â mesurau i leihau ansawdd aer, i wella sicrwydd ynghylch ei flaenoriaeth o leihau effeithiau amgylcheddol hedfanaeth, gan weithio gyda Maes Awyr Caerdydd. |

[28] Llywodraeth Cymru (2019) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-dogfen-mawr.pdf [Gwelwyd: 01.02.21]

| Adran SDC | Argymhellion |
|---|---|
| | • Gallai'r Cynllun Cryno gyflwyno mesurau ar sut y bydd gweithredwyr meysydd awyr yn hybu defnydd o'r Gymraeg. |

## 3.6 Monitro – Effeithiau sylweddol (Tasg B.6 a Cham E)

3.6.1 Mae'r ACI wedi nodi effeithiau tebygol SDC ar Amcanion yr ACI. Rhagwelwyd dynodiad o sicrwydd ac amserlennu'r effeithiau hyn hefyd. Fodd bynnag, ceir perygl bod effeithiau cynaliadwyedd SDC, gan gynnwys effeithiau agweddau penodol neu effeithiau cyfunol SDC ar y cyd, yn wahanol i'r rhai a ddisgwylir oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld. Mae monitro datblygiad cynaliadwy, felly, yn elfen hanfodol o sicrhau datblygiad cynaliadwy i fonitro effeithiau SDC, o ran yr effeithiau a ragwelir. Mae monitro rheolaidd wedyn yn galluogi'r awdurdodau perthnasol i newid cynlluniau yn ôl yr angen os bydd effeithiau negyddol annisgwyl yn codi neu os na fydd effeithiau cadarnhaol a ddisgwylir yn codi.

3.6.2 Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad ac effeithiau SDC ar ôl ei mabwysiadu er mwyn cyfrannu at adolygiadau a diwygiadau o'r cynllun yn y dyfodol. Mae Tabl 3.6 yn cynnig Fframwaith Monitro Drafft i gadw golwg ar effeithiau cynaliadwyedd SDC, y byddai'n briodol ei integreiddio â gwaith monitro SDC. Mae hwn yn ddrafft a fydd yn cael ei drafod a'i fireinio gyda Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â monitro i ba raddau y mae SDC yn arwain at yr effeithiau a nodwyd yn yr ACI, mae'r Fframwaith Monitro yn nodi effeithiau SDC ar y llinell sylfaenol amgylcheddol yng Nghymru a gellir cymharu hon â thueddiadau'r dyfodol fel y nodir yn Nhabl 2.1.

3.6.3 Dros oes SDC bydd gwybodaeth newydd, a fydd yn cynorthwyo i lywio'r adolygiad o SDC, yn cael ei hychwanegu at Fframwaith Monitro SDC. Mae'n bosibl y bydd rhai dangosyddion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu diwygio neu eu disodli gan ddangosyddion newydd. Mae dangosyddion eraill yn debygol o barhau yn gyson, lle gallant lywio canlyniadau hirdymor SDC dros gyfnod 20 mlynedd y strategaeth.

*Tabl 3.6: Fframwaith Monitro Drafft Arfaethedig*

| Amcanion yr ACI | Effaith Gyfunol | Dangosyddion monitro arfaethedig<br>DC: dangosyddion llesiant cenedlaethol |
|---|---|---|
| 1. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol pawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru | ++ | • Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt.<br>• Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at fannau agored.<br>• Canran y teithiau yn defnyddio dulliau llesol.<br>• Canran y defnyddwyr trafnidiaeth sy'n fodlon â'u taith.<br>• DC25. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.<br>• DC3. Canran yr oedolion sydd â llai na dau o ymddygiadau byw iach.<br>• DC4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid ($NO_2$) yn yr aer.<br>• DC5. Canran y plant sydd â llai na dau ymddygiad byw iach.<br>• DC38.Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos. |
| 2. Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb | ++ | • DC24. Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd / cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br>• DC25. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.<br>• Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at y celfyddydau, chwaraeon, neu dreftadaeth naturiol a diwylliannol.<br>• Canran y defnyddwyr trafnidiaeth sy'n fodlon â'u taith.<br>• Canran y teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Canran y teithiau yn defnyddio dulliau llesol.<br>• Aelwydydd sy'n cael eu hamlygu i lygryddion aer a/neu sŵn amgylcheddol o drafnidiaeth. |

| Amcanion yr ACI | Effaith Gyfunol | Dangosyddion monitro arfaethedig<br>DC: dangosyddion llesiant cenedlaethol |
|---|---|---|
| 3. Cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth | ++ | • Canran y bobl mewn cyflogaeth.<br>• M9 Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br>• Canran y busnesau sy'n fodlon â'u gallu i symud nwyddau ar y rhwydwaith trafnidiaeth.<br>• Seilwaith trafnidiaeth a cherbydau gwasanaeth mewn cyflwr da.<br>• Twf i economïau gwledig yn erbyn trefol.<br>• Oedi cyfartalog fesul cilomedr a deithir.<br>• Canran y teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Canran y nwyddau a symudir trwy ddulliau carbon isel/di-garbon.<br>• Canran y cyflogeion sy'n gweithio gartref yn rheolaidd. |
| 4. Diogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden | + | • Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at y celfyddydau, chwaraeon, neu dreftadaeth naturiol a diwylliannol.<br>• Asedau diwylliannol a threftadaeth a mannau hamdden sy'n cael eu hamlygu i lygryddion aer a/neu sŵn amgylcheddol o drafnidiaeth.<br>• Canran yr asedau treftadaeth sydd mewn cyflwr da ar yr ystâd drafnidiaeth.<br>• Oedi cyfartalog fesul cilomedr a deithir yn ystod digwyddiadau mawr ac mewn cyrchfannau twristiaid ar adegau brig. |
| 5. Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg | + | • Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg.<br>• Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau yn unig o Gymraeg.<br>• Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at rwydweithiau trafnidiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Canran y gwasanaethau a'r seilwaith trafnidiaeth sy'n cynnwys y Gymraeg.<br>• Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. |
| 6. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth | +/- | • Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth.<br>• DC41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.<br>• DC42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr a briodolir i'r defnydd o nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru.<br>• Niferoedd y cerbydau trydan cofrestredig a'r pwyntiau gwefru sydd ar gael.<br>• Cyfanswm y traffig ar y ffyrdd.<br>• Canran y teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Canran y teithiau sy'n defnyddio dulliau llesol.<br>• Canran y nwyddau a symudir trwy ddulliau carbon isel/di-garbon.<br>• Aelwydydd sy'n cael eu hamlygu i lygryddion aer o drafnidiaeth. |
| 7. Galluogi cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd | + | • Seilwaith trafnidiaeth a cherbydau gwasanaeth sy'n gallu gwrthsefyll glaw trwm/llifogydd/eira.<br>• Achosion o ganslo a tharfu ar wasanaethau trafnidiaeth oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol, yn enwedig ardaloedd trefol yn erbyn gwledig.<br>• Hectarau o ecosystemau iach sy'n rhan o'r rhwydwaith trafnidiaeth.<br>• Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth. |
| 8. Diogelu a gwella ansawdd aer | + | • Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth.<br>• DC4. Lefelau'r llygredd nitrogen deuocsid ($NO_2$) yn yr aer.<br>• DC41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.<br>• DC42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr a briodolir i'r defnydd o nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru.<br>• Aelwydydd sy'n cael eu hamlygu i lygryddion aer o drafnidiaeth.<br>• Nifer y Parthau Rheoli Ansawdd Aer a'u harwynebedd.<br>• Canran y teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Canran y teithiau sy'n defnyddio dulliau llesol.<br>• Canran y nwyddau a symudir trwy ddulliau carbon isel/di-garbon. |
| 9. Diogelu a gwella nodweddion lleol unigryw ein | + | • Hectarau o ecosystemau iach sy'n rhan o'r rhwydwaith trafnidiaeth.<br>• Cyfanswm y traffig ar y ffyrdd yng nghanol trefi a thrwy dirweddau a werthfawrogir. |

| Amcanion yr ACI | Effaith Gyfunol | Dangosyddion monitro arfaethedig<br>DC: dangosyddion llesiant cenedlaethol |
|---|---|---|
| tirweddau a'n trefluniau | | |
| 10. Hybu camau i warchod a gwella asedau treftadaeth | + | • Canran yr asedau treftadaeth sydd mewn cyflwr da ar yr ystâd drafnidiaeth.<br>• Asedau treftadaeth a thirweddau hanesyddol sy'n cael eu hamlygu i lygryddion aer a/neu sŵn amgylcheddol o drafnidiaeth. |
| 11. Hybu camau i warchod a gwella bioamrywiaeth, geoamrywiaeth ac ecosystemau | + | • Hectarau o ecosystemau iach sy'n rhan o'r rhwydwaith trafnidiaeth.<br>• Poblogaethau o rywogaethau dynodedig a heb eu dynodi.<br>• Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gael mynediad at fywyd gwyllt a mannau agored. |
| 12. Sicrhau'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | + | • Ansawdd dŵr wyneb ger ardaloedd lle mae llawer iawn o seilwaith trafnidiaeth.<br>• Lefelau llygredd pridd ger ardaloedd lle mae llawer iawn o seilwaith trafnidiaeth.<br>• Gwastraff a gynhyrchir gan y sector trafnidiaeth.<br>• Seilwaith trafnidiaeth a cherbydau gwasanaeth mewn cyflwr da.<br>• Canran y teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Canran y teithiau sy'n defnyddio dulliau llesol.<br>• Canran y nwyddau a symudir trwy ddulliau carbon isel/di-garbon. |
| 13. Galluogi camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau | + | • Aelwydydd sy'n cael eu hamlygu i sŵn amgylcheddol o drafnidiaeth.<br>• Aelwydydd sy'n cael eu hamlygu i lygredd golau o drafnidiaeth.<br>• Niferoedd y cerbydau trydan cofrestredig a'r pwyntiau gwefru sydd ar gael. |

# 4 CASGLIAD

4.1.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr ACI o SDC (Mawrth 2021). Mae'n bodloni gofynion Adroddiad Amgylcheddol yn unol â'r Rheoliadau AAS. Mae pob fersiwn o SDC hyd yn hyn wedi'i harfarnu er mwyn nodi ei heffeithiau sylweddol tebygol yn erbyn pob un o Amcanion yr ACI. Bydd y datganiad ôl-fabwysiadu yn cynnwys esboniad o sut y mae proses yr ACI wedi dylanwadu ar ddatblygiad y SDC derfynol.

4.1.2 Mae'r ACI yn broses sydd wedi'i hintegreiddio i raddau helaeth â datblygiad SDC, gan gynnwys perthynas waith agos rhwng yr arbenigwyr ACI a Llywodraeth Cymru. Yn ystod y broses hon, mae'r ACI wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ymwreiddio egwyddorion cynaliadwyedd ac ystyriaethau ehangach yng nghanlyniadau, strategaeth a pholisïau SDC, o'r cychwyn cyntaf. Mae'r ACI wedi darparu modd strwythuredig o ystyried buddion, costau a risgiau amrywiaeth eang o opsiynau. Mae hyn wedi chwarae rhan bwysig o ran helpu i lunwyr y cynllun gymryd i ystyriaeth perfformiad cynaliadwyedd gwahanol opsiynau yr ystyriwyd eu cynnwys yn SDC, yn ogystal â'r gwahanol fesurau y gallent ystyried eu mabwysiadu a fyddai'n helpu i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl neu i sicrhau cyn lleied â phosibl o effeithiau negyddol neu eu hosgoi yn gyfan gwbl.

4.1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno sut y mae'r ACI wedi dylanwadu ar ddatblygiad SDC, yn enwedig pan fo'r argymhellion wedi'u hintegreiddio i'r fersiwn derfynol. Yn dilyn yr asesiad terfynol, gwnaed mân olygiadau i SDC, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth rhai o argymhellion yr ACI terfynol. Ystyrir y byddai'r newidiadau hyn yn arwain felly at welliant i'r potensial i SDC sicrhau datblygiad mwy cynaliadwy.

4.1.4 Nododd yr arfarniad o SDC effeithiau cadarnhaol yn bennaf o ran tri amcan ar ddeg yr ACI. Byddai disgwyl i SDC hybu teithio llesol, gan arwain at fanteision i iechyd pobl, yn ogystal â lleihau nifer y ceir ar y ffyrdd. Mae hyn yn debygol o arwain at fanteision dilynol gan gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwella ansawdd aer, gwella diogelwch ar y ffyrdd, a chael effeithiau cadarnhaol ar y dirwedd a'r treflun lleol.

4.1.5 Ar y cyfan, byddai disgwyl i SDC wella hygyrchedd ledled Cymru. Mae hyn trwy nifer gynyddol o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â gwella diogelwch y gwasanaethau a pha mor ddeniadol ydynt. Byddai SDC yn debygol o sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo'u hoedran neu eu cefndir, a hybu defnydd o'r Gymraeg.

4.1.6 Byddai gwelliannau i dechnoleg ddigidol yn cael eu cyflwyno i wella mynediad at wybodaeth am drafnidiaeth, ond heb fod yn anfantais i'r rhai nad ydynt yn gyfforddus â defnyddio technoleg o'r fath.

4.1.7 Ceir problem o hyd o ran trafnidiaeth i gymunedau yng Nghymru wledig, sy'n aml wedi'u hynysu o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ac sydd â defnydd o gar preifat fel eu hunig opsiwn. Mae SDC yn ceisio helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn, ond mae'n annhebygol y gall SDC ddatrys y broblem hon ar ei phen ei hun.

4.1.8 Mae'r ACI yn darparu dadansoddiad i'r cyhoedd a chyrff statudol o sut y datblygwyd SDC mewn modd a fydd yn sicrhau y gall gyfrannu at ddatblygu mwy cynaliadwy. Mae'r broses ymgynghori wedi bod yn gyfle i randdeiliaid gynnig adborth ac awgrymiadau i wella cynaliadwyedd cyffredinol SDC.

4.1.9 Yn ei hanfod, mae'r ACI yn darparu crynodeb o effeithiau SDC, ar gyfer ystyriaeth Llywodraeth Cymru, wrth ystyried mabwysiadu SDC. Os caiff ei mabwysiadu, byddai hynny gydag ymwybyddiaeth a derbyniad Llywodraeth Cymru o'r effeithiau a ragwelir ac a ddisgrifir yn yr ACI.

# 5 Y CAMAU NESAF

## Camau C ac E: Adroddiad yr ACI a Monitro

5.1.1 Cyhoeddir yr Adroddiad ACI hwn (Cam D) i gyd-fynd â SDC Mawrth 2021. Mae rhagor o wybodaeth am gamau proses yr ACI ar gael yn Adran 1 yr adroddiad hwn. Cam nesaf yr ACI fydd y Datganiad Ôl-gyhoeddi, a fydd yn cael ei baratoi ar ôl cyhoeddi SDC.

Arcadis (UK) Limited

Arcadis Cymru House

Caerdydd
CF3 0EY
Y Deyrnas Unedig

**arcadis.com**